

Canllawiau'r Cwrs Uwch



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Cwrs Uwch 1 – Canllaw i'r Tiwtor

Croeso i'r Cwrs Uwch cenedlaethol. Ceir 25 o unedau a dylai dosbarthiadau sy'n cwrdd am ddwy awr yr wythnos anelu at gwblhau hanner cyntaf y gyfrol o fewn un flwyddyn academaidd a dylai dosbarthiadau dwys anelu at orffen o leiaf Uwch 1, yn dibynnu ar ddwyyster y dosbarth.

Cyflwynir thema benodol ym mhob uned trwy gyfrwng darnau darllen, gwrando, gwylio a chyfleoedd sgwrsio. Ceir sylw i waith gramadegol ym mhob uned hefyd.

Yn ogystal â'r unedau yn y gyfrol hon, anfonir pum gwers gyfoes at diwtoriaid yn ystod y flwyddyn – bydd y rhain yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Egwyddorion Cyffredinol

Ceir llawer o gynnwys yn yr unedau ond ni ellir gorbwysleisio neilltuo digon o amser ar gyfer sgwrsio a thrafod. Ni ddylid gwneud yr holl gynnwys thematig ar ffurf darllen, gwylio a gwrando ar draul gwaith llafar, os nad oes amser i gyflawni popeth. Mewn Cwrs Uwch, mae'n bosib iawn y bydd tiwtoriaid eisiau cyflwyno elfennau ychwanegol i'r gwersi ac felly nid oes angen cyflawni pob un cam ym mhob uned.

Y Safle Rhyngweithiol

Ceir nifer fawr o adnoddau i gyd-fynd â phob uned ar y Safle Rhyngweithiol – dysgucymraeg.cymru. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau sain a fideo i'r dysgwyr a'r tiwtor, ynghyd ag ymarferion ychwanegol i'r dysgwyr eu hunain.

Elfennau gwahanol yn y cwrs:

Geirfa

Mae dysgu geirfa'n gwbl allweddol i fanteisio'n llawn ar y cwrs hwn. Daw geirfa pob uned ar ddechrau'r uned. Dylid annog y dysgwyr i ymgyfarwyddo â'r eirfa cyn dod i'r dosbarth er mwyn gallu deall y darnau darllen, gwrando a gwylio yn well. Gellir gweld a chlywed y geiriau ar-lein a gwneud ymarferion.

Yn ddiaw, bydd y dysgwyr eu hunain yn gofyn am eirfa sy ddim yn y cwrs. Ceir lle iddynt nodi'r geiriau hyn yn eu llyfrau ond argymhellir hefyd fod tiwtoriaid yn creu cardiau fflach er mwyn ymarfer y geiriau hyn.

Rhennir yr eirfa'n enwau gwrywaidd, enwau benywaidd, berfenwau, ansoddeiriau ac eraill. Ceir allwedd i'r dysgwyr yn y ddwy uned gyntaf.

Awgrymir profi geirfa yn gyson. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, e.e. prawf confensiynol, kahoot, chwilair, quizlet, Bingo. Dull arall yw gofyn iddyn nhw ysgrifennu 3 colofn ar ddarn o bapur:

Dw i'n gwybod y gair Dw i'n meddwl fy mod i'n gwybod y gair Dw i ddim yn cofio
Gallant drafod eu colofnau gyda phartner cyn mynd dros y geiriau fel dosbarth cyfan.

Un dull arall yw gofyn iddyn nhw ysgrifennu 4 colofn ar ddarn o bapur:

Dw i'n gweld <i>tomen ysbwriel</i>	Dw i'n clywed <i>ceir</i>	Dw i'n teimlo <i>gorboblogi</i>	Dw i' aroglu <i>bara ffres</i>
---------------------------------------	------------------------------	------------------------------------	-----------------------------------

Galwch eiriau gan ofyn iddyn nhw roi'r gair yn y golofn briodol, sef y ffordd maen nhw'n ystyried y gair hwn. Nodir ambell i air uchod fel enghraifft. Eto, bydd trafodaeth dosbarth yn ddiddorol.

Wrth droi at y themâu mewn rhai o'r unedau, ceir gweithgaredd o'r enw Storom eirfa. Gofynnir i barau restru o leiaf X o eiriau yn seiliedig ar y thema. Gellid defnyddio'r sesiwn hon i wneud gwaith ymestynnol lle bo'n briodol, e.e. os bydd pâr yn cynnig enw, gellid gofyn am yr ansoddair, gellid cynnig cyfleoliadau diddorol, neu unrhyw ddefnydd o'r gair mewn cyd-destun arall.

Gwaith gramadeg/iaith

Mae'r ymarferion yn amrywio'n fawr o uned i uned. Ceir adran Help Llaw ym mhob uned. Wrth weithio trwy'r awgrymiadau yn y Canllawiau, byddant gan amlaf yn arwain at ddarllen dros yr Help Llaw i grynhoi yn hytrach na dechrau gyda'r Help Llaw ym mhob gwers.

Ceir un gweithgaredd i adolygu'r patrwm dan sylw yn yr uned ar ddechrau'r uned nesaf.

Darnau Darllen

Ceisir cadw'r darnau at 300 o eiriau. Ceir ymarferion amrywiol i gyd-fynd â'r darnau ond ceisir osgoi cwestiynau darllen a deall confensiynol – daw'r rhain yn y gwaith cartref. Gellid hefyd amrywio'r modd y defnyddir y darnau darllen eu hun:

- a) Yn aml iawn, dyw dysgwyr ddim yn hoffi darllen yn uchel heb gael y cyfle i baratoi yn gyntaf. Gellid gofyn i'r dysgwyr ddarllen yn dawel fesul paragraff. Ar ôl pob paragraff bydd y tiwtor yn darllen y darn yn uchel ac yn ateb cwestiynau. Ar y diwedd, gall parau ymarfer darllen yn uchel, os bydd angen.
- b) Y tiwtor i ddarllen y darn cyfan yn uchel yn gyntaf, gyda'r dysgwyr yn marcio unrhyw beth nad ydyn nhw'n ei ddeall a'r tiwtor yn ateb ar y diwedd. Wedyn, gall parau ymarfer darllen yn uchel, os bydd angen.
- c) Parau neu'r dosbarth cyfan i ddarllen yn uchel – gellid gofyn i'r dysgwyr baratoi ar gyfer y cam hwn ymlaen llaw trwy ddarllen y darn cyn dod i'r dosbarth. Gellir hefyd ddefnyddio rhai o'r gweithgareddau cyffredinol isod gyda unrhyw ddarn darllen:

- a) Rhagweld y cynnwys o'r teitl – gall hyn godi chwilfrydedd yn y darn.
- b) Crynhoi. Mae hyn yn baratoad da ar gyfer prawf llafar Defnyddio'r Gymraeg Uwch lle mae angen tynnu sylw at y prif bwyntiau mewn erthygl. Gall hyn brofi gwir ddealltwriaeth.
- c) Ad-drefnu paragraffau i greu testun (neu ddeialog) cydlynus.
- ch) Cymryd un frawddeg o'r darn, gan gymysgu'r geiriau a gofyn i barau ei rhoi yn y drefn gywir. Yn dibynnu ar y frawddeg, gellid disodli un neu fwy o'r elfennau.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferion sy'n dilyn y Darnau Darllen yn codi pwyntiau ieithyddol neu yn sbarduno sgwrs. Mae'n bosib y byddwch am drafod rhywbeth diddorol sy'n codi yn y darn ei hun o bryd i'w gilydd.

Darnau Gwrando a Gwylio

Cynigir syniadau gwahanol ar gyfer yr holl ddarnau gwrando a gwylio. Defnyddir nifer o ddarnau dilys o Radio Cymru a rhaglenni S4C felly rhaid ceisio rhoi hyder i'r dysgwyr fodloni ar ddeall y prif bwyntiau. Ceir canllawiau unigol ar gyfer pob uned, ond ceir isod rai syniadau y gellir eu defnyddio gyda phob darn gwrando/gwylio:

- Dylid chwarae'r darn fwy nag unwaith.
- Chwarae'r darn unwaith heb unrhyw dasg benodol. Gellid wedyn ofyn i bawb sôn am un peth a ddeallwyd. Gall hyn fod yn ffordd o feithrin hyder.
- Rhoi teitl y darn i'r dosbarth a gofyn iddynt ragweld y cynnwys – mae hyn yn codi chwilfrydedd.
- Yn dibynnu ar ardal y dosbarth, efallai y bydd yn ddefnyddiol tynnu sylw at nodweddion ieithyddol na chyfeirir atynt yn y canllawiau. Gellir hefyd ofyn i bobl adnabod seiniau neu eiriau unigol.

Arfer da yw rhoi sylw i ffynhonnell y darn ac annog y dysgwyr i wyllo neu wrando ar raglenni tebyg cyfredol.

Siarad

Fel y nodir uchod, mae neilltuo amser digonol ar gyfer gwaith llafar yn gwbl hanfodol a cheir cyfleoedd niferus yn yr unedau ar gyfer cyfleoedd siarad rhydd. Dylid hefyd sicrhau bod y dysgwyr yn cael cyfle i sgwrsio'n anffurfiol ar ddechrau'r wers. Mae'n bwysig creu'r amodau cywir ar gyfer gwaith llafar – digon o gyfle i drafod mewn parau a grwpiau bach, creu ethos o fod yn gynhwysol a pharchu cyfraniad pawb.

Dylid trin pob dosbarth yn unigol ond yn gyffredinol argymhellir ymyrryd mewn gwaith llafar pan fo'n briodol, e.e. os bydd yr un gwall yn codi dro ar ôl tro. Ni ddylid gorgywiro ond gellid cadw cofnod o rai o'r gwallau a rhoi sesiwn adborth ar ddiwedd y gweithgaredd. Gellid cael y dysgwyr i gydsynio i'r dull hwn o weithredu.

Ni chyfeirir yn benodol at gael siaradwyr rhugl i ymweld â gwersi ond dylid gwneud hyn mor aml â phosibl.

Gwaith Cartref

Mae'r adrannau Gwaith Cartref yng nghefn y llyfr.
Ceir ymarferion gwahanol bob tro, gan gynnwys cyfle i ymarfer ysgrifennu'n rhydd.
Ceir ymarferion ychwanegol ar y Safle Rhyngweithiol.

Unedau Adolygu

Mae'r unedau adolygu'n canolbwyntio ar gyflawni tasg o ryw fath, e.e. trefnu digwyddiad yn Uned 9. Gwych iawn fyddai gweld dosbarthiadau'n mynd ati i weithredu'r syniadau hyn.

Unedau Cyfoes

Mae'n bwysig iawn cadw pob cwrs yn gyfoes, ond yn enwedig cyrsiau Uwch gan fod cymaint o bwyslais ar ddechrau dod i drafod. O'r herwydd, hyderir na fydd y gwaith yn yr unedau creiddiol yn dyddio'n gyflym, ond ceir 5 uned gwbl gyfoes fydd yn gyfle i drafod pethau sy'n digwydd yng Nghymru ar y pryd, neu yn y byd os ydyn nhw'n bethau sy'n cael eu trafod gan bawb yn y Gymraeg. Bydd y gwersi hyn ar gael ar Safle Rhyngweithiol y Ganolfan.

Uned 1 – Canllaw'r Tiwtor.

Thema'r uned: Her

Nod yr uned yw adolygu ac ymarfer y gorffennol cryno, a helpu'r dysgwyr i siarad am bynciau sy'n ymwneud â'r thema 'her' trwy gyflwyno geirfa ac idiomau newydd iddynt.

Cam 1

Siarad: Dod i adnabod y dosbarth a'r tiwtor

Paratowch y cardiau atodol, a'u gosod wyneb i fyny ar fwrdd yn yr ystafell ddosbarth. Byddai'n syniad da cael o leiaf dau gopi o bob cerdyn.

- i) I ddechrau, gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner i baru'r geiriau o'r cardiau gyda'r diffiniad cywir (yn eu gwerslyfrau).
- ii) Rhowch ychydig funudau i'r dysgwyr ddewis tri cherdyn, sef 2 gerdyn sy'n eu disgrifio'n dda, ac un cerdyn sydd ddim yn eu disgrifio'n dda o gwbl. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu cardiau gyda'u partneriaid. Pe bai angen, gallech awgrymu cwestiynau iddynt e.e. 'Pam rwyt ti wedi dewis y cerdyn yna?'; 'Pa fath o her/ryseitiau/nofelau'? Gallech ofyn iddynt newid partneriaid ar ôl amser penodol, ond gadewch iddynt aros gyda'r un partner os yw'r cardiau wedi sbarduno sgwrs dda.
- iii) Os yw'r dosbarth yn weddol dawel a'r cardiau heb sbarduno llawer o sgwrsio, gellir ymestyn y defnydd o'r cardiau disgrifio drwy ddod o hyd i gardiau sy'n:
 - disgrifio **unigolion**,
 - disgrifio pethau sy'n gyffredin i **barau/grwpiau**
 - berthnasol i'r **dosbarth cyfan**
- iv) Gofynnwch i'r dysgwyr roi'r geiriau lluosog wrth ochr y geiriau unigol (yn eu gwerslyfrau). Gallech drafod fod y rhestr gyntaf yn terfynu ag –au, yr ail restr ag –iau, a'r drydedd restr yn amrywio (-i, -ydd, -oedd/-fydd). Tynnwch sylw hefyd at y newid ym mhatrwm y llafariad wrth ychwanegu terfyniad – noswaith>nosweithiau; rysâit>ryseitiau. Byddant eisoes yn gyfarwydd â gwaith>gweithio
- v) Gofynnwch i barau feddwl am o leiaf un gair arall sy'n ffurfio ei luosog yn yr un modd ym mhob un o'r categorïau.

Cam 2

*Ar y pwynt hwn, byddai'n syniad da tynnu sylw'r dosbarth at adnoddau ar-lein y cwrs. Os yn bosib, dangoswch ar sgrin sut mae'r adnoddau'n gweithio. Gallai'r dosbarth roi cynnig ar un o'r gweithgareddau i atgyfnerthu'r eirfa e.e. llenwi'r bylchau.

Fel arfer, dylid mynd dros eirfa'r uned nesaf yn y wers flaenorol ond gan nad yw'n bosib gwneud hynny gyda'r uned hon, awgrymir mynd dros yr eirfa nawr, nid y peth cyntaf yn y wers gan fod angen gwneud rhywbeth lle mae mwy o siarad.

Cam 3

Gwrando

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gweithgaredd Gwrando.

i. Yn ystod y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch iddynt wrando am yr eirfa a nodir yn eu gwerslyfrau. Ewch dros yr ystyr gan annog y dysgwyr i beidio ag edrych yn ôl ar y rhestr eirfa.

ii. Ar ôl yr ail wrandawriad, rhowch gopi o'r cardiau geirfa i bob pâr, a gofyn iddynt roi'r geiriau yn eu trefn, fel y maent yn ymddangos yn y ddeialog.

iii. Ar ôl y trydydd gwrandawriad, rhowch amser iddynt ateb y cwestiynau. Gwrandewch ar y ddeialog eto os oes angen, i gadarnhau'r atebion cywir, sef:

Beth mae Wil yn ei gael i frecwast? logwrt a ffrwythau.

Beth yw/ydy her Wil? Cael gwared ar ei fol a chael cyhyrau mawr.

Erbyn pryd mae e/o eisiau cyflawni'r her? Erbyn ei ben-blwydd yn 40 (ym mis Mehefin; 3 mis i ffwrdd)

Pa ymarfer corff mae e/o wedi ei wneud? Rhedeg, pêl-droed 5 bob ochr a chodi pwysau.

Archebodd e/o fwyd iach i ginio? Naddo - archebodd e/mi archebodd o sglodion, gamwn ac ŵy.

Rhowch gopi o'r ddeialog i bob dysgwr (Atodiad 3 isod) a'u cael i'w darllen ar eich ôl chi. Yna, anfonwch bawb at ddarn o wal i ddarllen y ddeialog iddynt eu hunain dair gwaith wrth wynebu'r wal: y tro cyntaf yn sibrd, yr ail dro yn siarad ar lefel arferol, a'r trydydd tro yn gweiddi. Gallant wedyn ailadrodd ar eich ôl chi eto, ond heb y sgript y tro hwn. Fel cam olaf, gellir torri'r ddeialog yn sribedi a chael y parau i ail-greu'r ddeialog. Gellid hefyd roi sylw i unrhyw bwyntiau ieithyddol diddorol sy'n codi yn y darn, e.e.

Cydweithwyr – tynnu sylw at ystyr 'cyd' a chyflwyno geiriau eraill megis cyd-fyw/ cydgerdded;

Gweithgaredd ymestynnol: gallai'r dysgwyr sgwrsio mewn parau am yr hyn y maen nhw'n ei wneud i gadw'n heini. Gellid trafod un o'r pynciau sy'n codi o'r darn e.e. codi pwysau, bwyta'n iach, penblwyddi a'r hyn yr hoffent ei gyflawni cyn cyrraedd oedran arbennig.

Cam 4

Adolygu'r Gorffennol Cryno

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i drafod yr hyn y buont yn ei wneud yn yr haf. Bydd angen iddynt nodi brawddegau syml yn eu gwrslyfrau (y person cyntaf a'r trydydd person).

Ar ôl hynny, edrychwch ar y tablau yn y gwrslyfr gyda'r dosbarth, ac esboniwch y pwyntiau gramadegol oddi tano.

Bydd eisiau eu hatgoffa am rai rheolau eraill e.e. bod 'ddim' mewn brawddeg negyddol yn canslo treigladd y gwrthrych : Bwytais i gacen i de > Fwytais i ddim cacen i de.

Fel gweithgaredd syml ychwanegol, gellid gofyn i'r dysgwyr drafod mewn parau yr hyn a wnaethon nhw yn ystod yr wythnos flaenorol.

Cam 5

Y gorffennol cryno

Ceir gweithgaredd siarad yn y gwrslyfr i ddechrau adolygu'r gorffennol cryno.

Bôn y Ferf: Atgoffwch y dysgwyr bod angen chwilio am fôn y ferf wrth ffurfio'r gorffennol cryno. Yna, rhoi amser iddynt i wneud yr ymarfer yn eu llyfrau, sef tanlinellu bonion y berfau yn y paragraff. Ar ôl sicrhau eu bod wedi gwneud hynny'n gywir, gofynnwch iddynt ysgrifennu'r berfenwau yn eu gwrslyfrau.

Efallai y bydd angen atgoffa'r dysgwyr am rai rheolau e.e. bod terfyniadau –ed ac –eg yn diflannu i greu bôn y ferf (*EDS will roll and EGS will smash!*).

Llenwi Bylchau

Dril

Rhedais i/Mi redes i ddwy filltir ddoe
 Cerddais i/Mi gerddes i ddwy filltir ddoe
 Yfais i/Mi yfes i ddwy baned o goffi ddoe
 Bwytais i/Mi fwytes i ddau ddarn o dost ddoe
 Ysgrifennais i/Mi ysgrifennes i dri llythyr ddoe
 Prynais i/Mi brynes i bedwar crys newydd ddoe
 Talais i/Mi dales i bum bil ddoe
 Peintiais i/Mi beinties i ddwy ystafell ddoe
 Ffoniais i/Mi ffonies i dri ffrind ddoe
 Smwddiais i/Mi smwddies i naw crys ddoe
 Cogiaiais i/Mi goginies i ginio i chwech ddoe
 Darllenas i/Mi ddarllenes i ddau bapur newydd ddoe
 Gwnes i/Mi wnes i ddwy gacen ddoe
 Ces i/Mi ges i dri llythyr ddoe
 Gadawais i'r/Mi adawes i'r dafarn am ddeg o'r gloch
 Cyrhaeddais i/Mi gyrhaeddes i adref am un ar ddeg o'r gloch
 Daliais i/Mi ddalies i dri thrên gwahanol ddoe
 Benthycais i/Mi fenthycies i bum llyfr o'r llyfrgell

Dril ychwanegol:

Ydy hi'n bosib parcio yma?

Ydy hi'n bosib eistedd yma?

Ydy hi'n bosib cofrestru yma?

Ydy hi'n bosib gadael y car yma?

Ydy hi'n bosib talu biliau yma?

Ydy hi'n bosib prynu llyfrau Cymraeg yma?

Ydy hi'n bosib benthycio llyfrau yma?

Darllenwch dros y blwch Help Llaw.

Rhedais i/Mi redes i dair milltir

Awgrym:

Gallai'r tiwtor ateb y dosbarth i ddechrau er mwyn i'r dosbarth fagu hyder gyda'r patrymau. Mae'n ddril heriol oherwydd ei fod yn ymarfer y rhifau yn ogystal â ffurfiau'r gorffennol cryno.

Parciais i (Mi barcies i) yna ddoe/Parciodd (Mi barciodd) John yna ddoe

Y tro cyntaf: ateb yn y person cyntaf (*parciais i yna ddoe*)

Yr ail dro: ateb yn y trydydd person (*parciodd John yna ddoe*)

Ymestyn

Ymestyn: Mae ymarfer ymestynnol wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 isod. Mae'n ymarfer ychydig yn fwy heriol, ac yn gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio berfau ac iddynt fonion afreolaidd, llenwi bylchau a threiglo.

Dril ymestynnol i ymarfer rhediad berfau â bonau afreolaidd, a threigladau

Partner 1

Gynigiais i ddiod i ti?

Gynigiodd e ddiod i ti?

Gynigiodd hi ddiod i ti?

Partner 2

Naddo, chynigiais ti ddim diod i fi

Naddo, chynigiodd e ddim diod i fi

ac ati...

Gyrhaeddaist ti mewn pryd?

Gyrhaeddodd e mewn pryd?

Naddo, chyrhaeddais i ddim mewn pryd

ac ati...

Cam 6

Sôn am y gwaith cartref

Byddai'n arfer da edrych ar y tasgau gwaith cartref ar y pwynt hwn yn hytrach nag aros tan ddiwedd y wers pan fydd pawb ar frys i adael!

O ran y dasg ysgrifennu rhydd: esboniwch fod croeso iddynt e-bostio eu gwaith atoch, neu ei gyflwyno ar bapur i chi yr wythnos ganlynol. Esboniwch hefyd fod angen dysgu geirfa Uned 2.

Cam 7

Darn Darllen

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna:

- Gofynnwch i'r dysgwyr wneud y gweithgaredd paru ystyr idiomau, gan ddefnyddio cyd-destun y darn darllen i'w helpu. Gwiriwch fod pawb wedi cael yr atebion cywir.
- Gofynnwch i'r paru roi rhif o 1-5 ar bob llun fel eu bod yn y drefn gywir. Yna, gofynnwch iddynt ddweud y stori wrth ei gilydd, heb edrych yn ôl ar y sgript.

Cam 8

Gwyllo a Gwrando – Lowri Morgan yn siarad am baratoi at ras heriol.

Ceir clipiau ychwanegol o Lowri Morgan ar-lein.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau gwyllo a gwrando.

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau wrth wyllo'r fideo, gan sylwi'n arbennig ar y geiriau (â chyfieithiad Saesneg) sy'n ymddangos ar y sgrin (lleiafswm, hollbwysig, pothelli, milwr, cynrychioli, traws gwlad) a fydd yn eu helpu gyda'r dasg.

Dangoswch y fideo o leiaf unwaith eto ac yna, rhwch ychydig o funudau iddynt feddwl am **dri chyngor** i bobl sy'n gwneud ras heriol, yn seiliedig ar yr hyn a ddywed Lowri Morgan yn y fideo.

Mae 5 dewis posib, sef:

- 1) Rhedeg yn aml, rhedeg yn bell (lleiafswm o 100 milltir yr wythnos)
- 2) Gorffwys a chysgu'n dda
- 3) Gwisgo esgidiau rhedeg am wythnosau cyn y ras (i osgoi pothelli)
- 4) Edrych ar ôl y traed
- 5) Gwneud yr ymarfer yn galetach na'r ras ei hun

Trafodwch yr atebion gyda nhw.

Mae Lowri Morgan yn defnyddio 'gwneud' i ddefnyddio'r gorffennol yn hytrach na defnyddio'r ffurfiau cryno felly manteisir ar y cyfle i dynnu sylw at hyn. Yr atebion i'r cwestiwn yw:

Dwedodd e wrtho i > *fe naeth e ddweud 'tha i*

Dwedodd fy hyfforddwr ar y pryd > *fe naeth fy hyfforddwr ar y pryd ddweud*

Cam 9

Gweithgaredd Cloi

Os oes amser ar ôl ar ddiwedd y wers, gallech roi munud i'r dysgwyr weithio mewn timau i ysgrifennu rhestr o 10 gair/ymadrodd yn gysylltiedig ag un o eiriau'r uned e.e. rhedeg.

Enghraifft o hyn fyddai...

ras, milltiroedd, gwibio, fel y gwynt, marathon, y Gemau Olympaidd, cyflym, her, a'i wynt yn ei ddwrn, ymarfer corff.

Efallai y gellid rhoi gwobr fach i'r tîm sydd â'r geiriau mwyaf diddorol/gwahanol/doniol.

Uned 1 – Atodiad 1 – Cardiau Sgwrsio



**Dw i'n hoffi
datrys
problemau**

**Dw i'n hoffi
darllen llyfrau
ffeithiol**

**Dw i byth
yn cofio
penblwyddi fy
ffrindiau**

**Dw i'n hoffi
gwrando ar
gerddoriaeth
swnllyd**

**Dw i'n mwynhau
darllen nofelau**

**Dw i'n hoffi
rhoi cynnig
ar ryseitiau
newydd**

**Fy hoff dymor
yw/ydy'r hydref**

**Dw i'n hoffi
prynu dillad
ffasiynol**

**Dw i ddim yn
hoffi eistedd yn
llonydd!**

**Ro'n i'n hoffi
Mathemateg yn
yr ysgol**

**Mae bwyta'n
iach yn bwysig
iawn**

**Dw i'n hoffi
addurno'r tŷ**



**Dw i'n berson
cystadleuol, sy'n
hoffi ennill!**

**Dw i'n hoffi
gwneud rhestri**

**Fi sydd fel
arfer yn prynu
anrhegion
Nadolig y teulu**

**Dw i wrth fy
modd yn trefnu
nosweithiau
allan**

**Dw i'n hoffi
ymweld â
llefydd diddorol
ar fy ngwyliau**

**Dw i'n hoffi
gwyliau tawel
wrth y pwll neu
ar y traeth**

**Dw i'n hoffi cael
her**

**Dw i ddim yn
hoffi blasu
bwydydd
gwahanol**

**Faswn i ddim
yn gallu/medru
byw heb fy ffôn
symudol!**

**Mae technoleg
yn codi ofn arna i**

**Mae ymarfer
corff yn bwysig
iawn**

**Dw i'n mwynhau
gwaith creadigol**

Uned 1 - Atodiad 2 - Cardiau geirfa



cael gwared

cyhyrau

**hollol
benderfynol**

melys

5 bob ochr

y gampfa

codi pwysau

pethau iachus

**wnaiff/wneith
hynny ddim
drwg**

Uned 1 - Atodiad 3 - Darn Gwrando 1 (Fersiwn y De)



Mae Wil ac Elin yn gydweithwyr. Maen nhw'n cael brecwast yn ffreutur y gweithle.

Elin: Bore da Wil. Sut wyt ti bore 'ma?

Wil: Wedi blino braidd, Elin. A ti?

Elin: Ddim yn ddrwg, diolch. Beth wyt ti'n ei fwyta Wil?

Wil: logwrt a ffrwythau.

Elin: Dim byd arall? Dim cig moch? Dim tost?

Wil: Na. Dw i wedi dechrau deiet arbennig.

Elin: Ti? Pam?

Wil: Dw i wedi gosod her i fi fy hunan. Dw i eisiau cael gwared ar y bola 'ma, a dw i eisiau cyhyrau mawr. Dw i eisiau bod yn ffit cyn cael fy mhen-blwydd yn 40.

Elin: Pryd mae dy ben-blwydd?

Wil: Mis Mehefin.

Elin: Dim ond tri mis i ffwrdd! Waw, mae gyda ti lawer o waith i'w wneud.

Wil: Diolch yn fawr! Wel, rwy'ti'n iawn. Mae gyda fi lawer o waith i'w wneud. Ond dw i'n hollol benderfynol. Mae'n rhaid i fi lwyddo. Dw i wedi stopio bwyta pethau melys. Dw i'n bwyta llawer o gig gwyn a salad a phethau iachus nawr.

Elin: Wyt ti wedi dechrau gwneud ymarfer corff hefyd?

Wil: Ydw. Rhedais i ddeg milltir wythnos diwetha. Chwaraeais i bêl-droed 5 bob ochr dros y penwythnos ac es i i'r gampfa neithiwr i godi pwysau. Dw i wedi blino'n lân! Ond mae'n rhaid i fi fynd i redeg amser cinio.

Elin: Amser cinio heddiw? All'i di ddim!

Wil: Pam?

Elin: Ti'n cofio? 'Dyn ni'n mynd i'r dafarn amser cinio. Mae pen-blwydd Alwena. Rwy'ti wedi archebu'r bwyd yn barod, ac wedi talu amdano fe. Archebaist ti dy ffefryn, dw i'n credu – sgloodion, wŷy a gamwn.

Wil: O, do anghofiais i am hynny! Wel, wnaiff hynny ddim drwg ... Ond paid â gadael i fi weld y pwdin siocled!

Uned 1 - Atodiad 3 - Darn Gwrando 1 (Fersiwn y Gogledd)



Mae Wil ac Elin yn gydweithwyr. Maen nhw'n cael brecwast yn ffreutur y gweithle.

Elin: Bore da Wil. Sut wyt ti bore 'ma?

Wil: Wedi blino braidd, Elin. A ti?

Elin: Ddim yn ddrwg, diolch. Be wyt ti'n ei fwyta Wil?

Wil: logwrt a ffrwythau.

Elin: Dim byd arall? Dim cig moch? Dim tost?

Wil: Na. Dw i wedi dechrau deiet arbennig.

Elin: Ti? Pam?

Wil: Dw i wedi gosod her i fi fy hunan. Dw i isio cael gwared ar y bol 'ma, a dw i isio cyhyrau mawr. Dw i isio bod yn ffit cyn cael fy mhen-blwydd yn 40.

Elin: Pryd mae dy ben-blwydd?

Wil: Mis Mehefin.

Elin: Dim ond tri mis i ffwrdd! Waw, mae gen ti lawer o waith i'w wneud.

Wil: Diolch yn fawr! Wel, rwy'ti'n iawn. Mae gen i lawer o waith i'w wneud.

Ond dw i'n hollol benderfynol. Mae'n rhaid i mi lwyddo.

Dw i wedi stopio bwyta pethau melys. Dw i'n bwyta llawer o gig gwyn a salad a phethau iachus rwan.

Elin: Wyt ti wedi dechrau gwneud ymarfer corff hefyd?

Wil: Do. Mi redes i ddeg milltir wythnos diwetha. Mi chwaraees i bêl-droed 5 bob ochr dros y penwythnos ac mi es i i'r gampfa neithiwr i godi pwysau. Dw i wedi blino'n lân! Ond mae'n rhaid i mi fynd i redeg amser cinio.

Elin: Amser cinio heddiw? Fedri di ddim!

Wil: Pam?

Elin: Ti'n cofio? Dan ni'n mynd i'r dafarn amser cinio. Mae pen-blwydd Alwena. Rwy'ti wedi archebu'r bwyd yn barod, ac wedi talu amdano fo. Mi archebest ti dy ffefryn, dw i'n meddwl – sglodion, wŷy a gamwn.

Wil: O do, mi anghofies i am hynny! Wel, wneith hynny ddim drwg ... Ond paid â gadael i fi weld y pwdin siocled!

Uned 1 - Atodiad 4 - Gwaith Ymestyn (De Cymru)

Ymestyn

Mae patrwm rhai berfau ychydig bach yn wahanol, ac mae'n rhaid ychwanegu 'i' at fôn y ferf, e.e.

cynnig → cynigais ✗ cynigiais ✓
dal → dalais ✗ daliais ✓

derbyn → derbynais ✗ derbyniais ✓

Gyda'r berfau 'cynnal' (*to support, to hold*) 'aros' a 'cyrraedd', dyn ni'n ychwanegu 'h' hefyd:

cynnal → cynaliais ✗ cynhaliais ✓

aros → arosais ✗ arhosais ✓

cyrraedd → cyrraeddais ✗ cyrrhaeddais ✓

Bôn y ferf: CYNHALI

ARHOS-

CYRHAEDD-

Ymarfer

Rhowch y ferf gywir yn y brawddegau hyn, gan dreiglo os oes angen.

- e dalu am y bwyd i gyd, chwarae teg. [cynnig]
- i de prynhawn yn y tŷ i godi arian at achos da. [cynnal]
- "Faint o'r gloch y trê'n yr orsaf?" [cyrraedd]
- "..... ti mewn gwesty yn Sbaen?" [aros]
- "Fwynheast ti'r trip ar y cwch heddiw? ti bysgodyn?" [dal]
- Roedd Mair wedi cael llond bol ar ei swydd felly hi'r cynnig i ymddeol yn gynnar. [derbyn]
- i'r bêl felly nhw ddim gôl. [dal] [sgorio]
- yr ysgol ffair haf ym mis Gorffennaf. [cynnal]

Uned 1 – Atodiad 4 – Gwaith Ymestyn (Gogledd Cymru)

Ymestyn

Mae patrwm rhai berfau ychydig bach yn wahanol, ac mae'n rhaid ychwanegu 'i' at fôn y ferf, e.e.

cynnig → mi gyniges ✗ mi gynigies ✓
dal → mi ddales ✗ mi ddalies ✓

derbyn → mi dderbynes ✗
mi dderbynies ✓

Efo'r berfau 'cynnal' (*to support, to hold*) 'aros' a 'cyrraedd', dan ni'n ychwanegu 'h' hefyd:

cynnal → mi gynalies ✗ mi gynhalies ✓
cyrraedd → mi gyrraeddies ✗ mi gyrhaeddies ✓

aros → mi aroses ✗
mi arhoses ✓

Bôn y ferf: CYNHALI-

ARHOS-

CYRHAEDD-

Ymarfer

Rhowch y ferf gywir yn y brawddegau hyn, gan dreiglo os oes angen.

1. Mi o dalu am y bwyd i gyd, chwarae teg. [cynnig]
2. Mi i de prynhawn yn y tŷ i godi pres at achos da. [cynnal]
3. "Faint o'r gloch y trên yr orsaf?" [cyrraedd]
4. "..... ti mewn gwesty yn Sbaen?" [aros]
5. "Fwynheuest ti'r trip ar y cwch heddiw? ti bysgodyn?" [dal]
6. Roedd Mair wedi cael llond bol ar ei swydd felly mi hi'r cynnig i ymddeol yn gynnar. [derbyn]
7. Mi i'r bêl felly nhw ddim gôl. [dal] [sgorio]
8. Mi yr ysgol ffair haf ym mis Gorffennaf. [cynnal]

Uned 2 - Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r Uned: Edrych i'r dyfodol

Nod yr uned yw adolygu'r dyfodol cryno (rheolaidd) a helpu'r dysgwyr i siarad am y dyfodol a phynciau cysylltiedig trwy gyflwyno geirfa ac idiomau newydd iddynt.

Cam 1: Adolygu ffurfiau lluosog.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau, i nodi ffurfiau lluosog y geiriau a nodir yn y cwrslyfr. Dylech eu hannog i beidio ag edrych yn ôl ar Uned 1.

Cam 2: Adolygu gwaith Uned 1 (geirfa 'Her' a'r gorffennol cryno)

Yn y cwrslyfr, mae cwmwl geiriau sy'n cynnwys geirfa Uned 1. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i drafod y geiriau yn y cwmwl, gan geisio cofio eu hystyr heb edrych yn ôl ar Uned 1. Yna, rhaid llunio pum brawddeg yn amser y gorffennol (gan ddefnyddio berfau cryno), a chynnwys un o eiriau'r cwmwl geiriau ym mhob brawddeg. Er enghraifft, 'Gwibiodd/Mi wibiodd y cadno/y llwynog ar ôl y llygoden.'

Cam 3: Adolygu'r dyfodol

- i) Ceir ymarfer syml yn y cwrslyfr i adolygu'r dyfodol. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu dyddiau'r wythnos yng ngholofn gyntaf y tabl sydd yn eu cwrslyfrau. Yna, gofynnwch iddynt sgwrsio am yr hyn y byddant yn ei wneud yr wythnos honno, gan nodi'r atebion yn eu cwrslyfrau. Bydd hyn yn ymarfer berfau'r person cyntaf a'r trydydd person. Rhowch ddigon o gyfle iddynt siarad am drefniadau'r wythnos i ddod, gan ymhelaethu ar y gweithgareddau y byddant yn eu gwneud.
- ii) Edrychwch ar yr adran Help Llaw gyda'r dysgwyr, gan eu hatgoffa am y treigladau (ar ddechrau cwestiwn, ac yn y negyddol)

Driliau posib er mwyn atgyfnerthu'r patrymau:

1. Disodli adferf e.e.

Gwela i /Mi wela i ti wythnos nesaf / dydd Llun / dros y penwythnos

2. Dril mewn paruau, lle maen nhw'n newid person y ferf. Rhaid ysgrifennu sbardun cychwynnol ar y bwrdd, e.e. Galwn ni heibio/Mi alwn ni heibio. Mae'r dril yn gweithio fel isod, e.e.

Partner1	i	Partner2	Galwa i heibio/Mi alwa i heibio
Partner 1	hi	Partner 2	Galwiff hi heibio/Mi alwith hi heibio
Partner 1	chi	Partner 2	Galwch chi heibio/Mi alwch chi heibio

Torrwch y dril yn ei flas i'r dysgwyr gyfnewid rôl. Posibilrwydd arall yw defnyddio dis rhagenwau er mwyn gwneud y disodli.

3. Mae'r dril nesaf yn y gweryslyfrau. Dylent ei wneud fel gweithgaredd pelmaniaeth i ddechrau, ac yna drilio mewn parau.

Mae fy nghar wedi torri i lawr
Mae syched arna i/Dw i'n sychedig
Mae eisiau bwyd arna i/Dw i isio bwyd
Mae pen tost gyda fi/Mae gen i gur pen
Dw i'n oer!
Dw i'n dwym!/Dw i'n boeth!
Mae problem gyda fi/Mae gen i broblem

Rhoia i lifft i ti/Mi roia i lifft i ti
Pryna i ddiod i ti/Mi bryna i ddiod i ti
Rheda i i'r siop tsips/Mi reda i i'r siop tsips
Rhoia i dabled i ti/Mi roia i dabled i ti
Troia i'r gwres lan/Mi droia i'r gwres i fyny
Diffodda i'r gwres/Mi ddiffodda i'r gwres
Helpa i ti/Mi helpa i di

4. Ymarfer ymestynnol

Dril tebyg i'r un uchod, ond bod gofyn i'r dysgwyr feddwl am ferf addas i ymateb i'r gosodiad, a newid person y ferf. Does dim rhaid dilyn unrhyw drefn wrth ofyn 'A fe?' ac ati, fel y bydd yn fwy heriol i'r dysgwyr. Dylid rhoi'r enghraifft gyntaf iddynt.

Mae bwyd y lle 'ma'n ofnadwy
Bwyttiff e/Mi fwyttith o unrhyw beth. A nhw?

Bwyta i /Mi fwyta i unrhyw beth. A fe?/A fo?
Bwytan nhw/Mi fwytan nhw unrhyw
beth. A chi?

Bwytw'n ni/Mi fwytw'n ni unrhyw beth.

Mae'r ras yn beryglus
Dim ond te gwyrdd sy gyda fi/gen i

Gwna/Mi wna i unrhyw beth
Yfa i/Mi yfa i unrhyw beth

Efallai y bydd angen atgoffa'r dysgwyr ein bod yn defnyddio 'ar' gyda'r berfau 'gwrando' ac 'edrych'.

Dim ond sbwriel sy ar y teledu
Dim ond jazz sy ar y radio

Edrycha i/Mi edrycha i ar unrhyw beth
Gwrandawa i/Mi wrandawa i ar unrhyw beth

Cam 4: Storom eirfa

I gyflwyno thema'r dyfodol, gofynnwch i'r dysgwyr ddweud geiriau sy'n dod i'w meddwl wrth drafod y dyfodol. Efallai y bydd angen help i gyfieithu geiriau. Nodwch y geiriau ar y bwrdd gwyn, a gadewch i'r dysgwyr sgwrsio'n rhydd os bydd unrhyw air yn arwain at drafodaeth ddiddorol. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr nodi 5-6 gair a fydd yn ddefnyddiol iddynt yn y man priodol yn eu cwrslyfrau.

Cam 5: Gwyllo a gwrando

Ceir fideo o dri pherson yn darogan yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gwaith Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr nodi prif bwyntiau'r siaradwyr yn y blychau priodol.

I gloi'r gweithgaredd, gadewch i'r dysgwyr sgwrsio am unrhyw bwynt diddorol a gododd yn y fideo.

Byddai'n syniad da edrych ar y tasgau gwaith cartref ar y pwynt hwn. Esboniwch

Cam 6: Sôn am y gwaith cartref

hefyd fod rhestr wirio iddynt ei chwblhau.

Cam 7: Gwaith Grŵp

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch set o gardiau iddyn nhw (Atodiad 1). Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio'r cardiau i feddwl am 5 peth fydd yn digwydd yn y dyfodol, a 5 peth fydd ddim yn digwydd. Bydd angen iddyn nhw greu brawddegau gan ddefnyddio y dyfodol. Rhowch enghreifftiau i'w helpu e.e. Byddwn ni'n byw ar blaned arall /Fydd dynion ddim yn gwisgo siwt a thei. Pan fydd pob grŵp wedi cael digon o amser i lunio 10 brawddeg, gofynnwch i'r grwpiau ddweud eu casgliadau wrth weddill y dosbarth.

Cam 8: Ymestyn (dewisol)

Mae ymarfer ymestynnol heriol ar fonau berfau i'w gael fel atodiad i'r tiwtor (Atodiad 2).

Cam 9: Darllen

Mae'r darn darllen yn trafod y broblem o sicrhau digon o fwyd protein uchel yn y dyfodol, wrth i boblogaeth y byd dyfu.

Cyn dechrau'r darn, sicrhewch fod y dysgwyr yn deall yr eirfa.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i wneud yr ymarferion yn y cwrslyfr. Dyma atebion y cwestiwn cyntaf:

1. Gyda'ch partner, trafodwch pam mae'r geiriau hyn yn y darn darllen.

9-10 biliwn – dyma faint o bobl fydd yn y byd erbyn y flwyddyn 2050.

nwy methan – mae gwartheg yn creu nwy methan, a dyna pam mae cynhyrchu cig yn gallu bod yn ddrwg i'r amgylchedd.

ffa soia – mae ffa soia yn uchel mewn protein felly gallwch chi eu bwyta nhw yn lle cig.

trychfilod – mae pobl yn credu bod trychfilod yn ddewis gwell achos eu bod nhw'n llawn protein ond ddim yn ddrwg i'r amgylchedd.

Tyddewi – mae bwyty yn Nhyddewi o'r enw The Grub Kitchen, lle gallwch chi fwyta trychfilod.

traddodiadol – does dim rhaid bwyta trychfilod yn The Grub Kitchen. Gallwch chi fwyta prydau traddodiadol yno hefyd.

Cam 10: Papur Newydd 2050

Yn y cwrslyfr, ceir fframwaith ar gyfer tudalen flaen papur newydd.

Cyn dechrau'r dasg, trafodwch bapurau newydd yn gyffredinol (gan osgoi trafod gwleidyddiaeth papurau newydd penodol os ydych yn credu y gallai hynny arwain at ddadlau). Ydyn nhw'n darllen papur newydd? Ydyn nhw'n prynu papur newydd o siop, neu'n darllen papur newydd ar-lein? Ydyn nhw'n credu y bydd papurau newydd traddodiadol yn bodoli erbyn y flwyddyn 2050?

Beth bynnag fo'u barn am ddyfodol papurau newydd, esboniwch mai'r dasg yw dychmygu'r storïau a allai fod ar dudalen flaen papur newydd yn y flwyddyn 2050. Esboniwch yr eirfa newydd a geir yn y cyflwyniad i'r dasg a thrafodwch y cyfarwyddiadau, gan sicrhau eu bod yn deall pob cam. Gallech hefyd drafod yr hyn sy'n bwysig mewn pennawd, sef ei fod yn fyr ac yn fachog, ac yn tynnu sylw.

Gallwch wneud y dasg mewn modd sy'n addas i faint eich dosbarth, a phersonoliaethau'r dysgwyr. Er enghraifft:

- a) Y dysgwyr i weithio mewn parau, i drafod storïau posib a chreu'r dudalen flaen yn eu cwrslyfrau. Bydd rhaid cyflwyno'r dudalen i weddill y dosbarth, gan esbonio pam y maent yn credu y bydd y storïau hynny ar dudalen flaen papur newydd yn 2050.
- b) Gweithio mewn grwpiau. Gallech lungopïo'r fframwaith sydd yn y cwrslyfr ar bapur A3, a gofyn i'r grwpiau lunio un dudalen flaen gyda'i gilydd.

Dylai'r dasg hon esgor ar drafodaethau bywiog a thipyn o hwyl. Ar ôl i bob grŵp / pâr gael cyfle i gyflwyno tudalen flaen, gadewch iddynt sgwrsio'n rhydd am unrhyw fater a gododd yn y dasg hon.

Uned 2 - Atodiad 1

Planed arall	Cymru	y tywydd
bwyta	pobl	Yr Antartig
chwaraeon	cyfrifiaduron	robotiaid
cerddoriaeth	gwisgo	cadw'n heini
anifeiliaud	y môr	y byd
Yr Amason	ffonau symudol	llyfrau

Atodiad 2 - De Cymru

Ymestyn

Bonau Berfau

Fel dych chi'n gwybod, mae 3 ffordd o ffeindio bôn berf:

Gollwng y llafariad (vowel) olaf:	Berfau sy'n gorffen gyda -eg, -ed neu - yd yn gollwng y sill (syllable) olaf:	Berfau sy'n gorffen gyda chytsain (consonant) ddim yn newid:
gweithio → gweithi	rhedeg → rhed	diolch
ysgrifennu → ysgrifenn	cerdded → cerdd	siarad
nofio → nofi	dychwelyd (<i>return</i>) → dychwel	darllen.

Cofiwch, mae rhai berfau afreolaidd (*irregular*) sydd ddim yn dilyn y patrymau yma.

Edrychwch ar y berfau isod. Ffeindiwch eu bonau gan ddefnyddio'r tabl uchod, ac ysgrifennwch frawddeg gyda phob berf yn amser y dyfodol. Mae'r frawddeg gyntaf wedi cael ei gwneud i chi.

Berf	Bôn	Brawddeg
1. astudio	<u>astudi</u>	Astudia i yn y llyfrgell yfory
2. deall	
3. bwyta	
4. cofio	
5. gorffen	
6. yfed	
7. esgusodi	
8. teipio	
9. cwrdd	
10. pobi	

Atodiad 2 – Gogledd Cymru

Ymestyn

Bonau Berfau

Fel dach chi'n gwybod, mae 3 ffordd o ffeindio bôn berf:

Gollwng y llafariad (vowel) olaf:	Berfau sy'n gorffen efo -eg, -ed neu -yd yn gollwng y sill (syllable) olaf:	Berfau sy'n gorffen efo cytsain (consonant) ddim yn newid:
gweithio → gweithi	rhedeg → rhed	diolch
ysgrifennu → ysgrifenn	cerdded → cerdd	siarad
nofio → nofi	dychwelyd (<i>return</i>) → dychwel	darllen.

Cofiwch, mae rhai berfau afreolaidd (*irregular*) sydd ddim yn dilyn y patrymau yma.

Edrychwch ar y berfau isod. Ffeindiwch eu bonau gan ddefnyddio'r tabl uchod, ac ysgrifennwch frawddeg efo pob berf yn amser y dyfodol. Mae'r frawddeg gyntaf wedi cael ei gwneud i chi.

Berf	Bôn	Brawddeg
1. astudio	<u>astudi</u>	Mi astudia i yn y llyfrgell yfory
2. dallt	
3. bwyta	
4. cofio	
5. gorffen	
6. yfed	
7. esgusodi	
8. teipio	
9. cerdded	
10. pobi	

Uned 3 - Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r Uned: Y Goedwig

Nod yr uned yw adolygu'r dyfodol cryno (afreolaidd) a helpu'r dysgwyr i siarad am fyd natur a chwedlau hud a lledrith trwy gyflwyno geirfa ac idiomau newydd iddynt.

Cam 1

Siarad: adolygu gwaith Uned 2 (berfau'r dyfodol cryno rheolaidd)

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, a rhowch becyn o gardiau'r uned i bob grŵp (Atodiad 1). Gofynnwch iddynt ddewis cerdyn, a dweud rhywbeth wrth y grŵp amdanynt eu hunain trwy lenwi'r bwch yn y cerdyn e.e.

Pryna i/Mi bryna i siwmpwr newydd yr wythnos yma.

Gall y dysgwyr symud ymlaen at gerdyn arall wedyn. Os yw'r cardiau'n sbarduno sgwrsio rhydd da, gallwch barhau â'r gweithgaredd am ddeg munud neu fwy. Y bwriad yw bod y dysgwyr yn ymestyn ar ôl llenwi'r bwch a bod y partner yn cyfrannu at y sgwrs hefyd. Dylid modelu, e.e. Yfory, bwyta i /mi fwyta i frechdan i ginio. Dw i'n cael brechdan bob dydd yn ystod yr wythnos fel arfer. Mae fan yn stopio tu allan i'r swyddfa sy'n gwerthu brechdanau. Maen nhw'n ffres ac yn hyfryd ac mae'r pris yn rhesymol.

Cam 2

Adolygu'r Dyfodol Cryno Afreolaidd - Mynd

Driliau er mwyn atgyfnerthu'r patrymau (mae'r ail ddрил yng ngwerslyfrau'r dysgwyr):

MYND

1. Ble/Lle awn ni fory? Awn ni/mi awn ni i'r dre [disodli lleoliad
e.e. 'Awn ni/mi awn ni i'r traeth']

Yna: dril i ymarfer rhedeg y ferf. Gall parau lenwi'r tabl yn y gwrslyfr gyda'i gilydd ac yna drilio ei gilydd heb edrych ar y llyfr.

2. Ble/Lle ei di fory? A/Mi a i i'r gwaith
Ble aiff hi/Lle eith hi?
Ble aiff/Lle eith John fory?
Ble/Lle awn ni fory?
Ble/Lle ewch chi fory?
Ble/Lle â'n nhw fory?
3. Gweithgaredd cardiau. Rhowch ddarn o bapur ac arno 3 sbardun (un mis, un wlad, un dull o deithio) i bob aelod o'r dosbarth, e.e.

Mis M _ _ _ _ _
 S _ _ _ _
 A _ _ _ _ _

Rhaid iddyn nhw ysgrifennu mis, gwlad a dull o deithio i mewn eu hunain – yn dechrau â'r llythyren fydd ar y papur.

Cyflwynwch y tri chwestiwn isod a cheisio cael y dysgwyr i'w cofio heb ddibynnu ar unrhyw beth gweledol:

Pryd ewch chi ar wyliau? I ble ewch chi? Sut byddwch chi'n teithio?/Sut fyddwch chi'n teithio?

Rhaid i bawb ateb gan ddefnyddio 'Awn ni/Mi awn ni' ac ateb yn ôl y cerdyn.

Sbardunau ar gyfer dulliau teithio posib – A _ _ _ _ _ , T _ _ _ , Ll _ _ _ , C _ _ , B _ _ .

Gwrando

- i. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau gwrando. I ddysgwyr yn y de, efallai y bydd angen esbonio'r ffurfiau gogleddol (dacw fo; mi syrthi). Yna, rhwch y cardiau i'r dysgwyr, sy'n cynnwys geiriau'r gân. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner i roi'r geiriau yn y drefn gywir, sef:

"Ble'r ei di, ble'r ei di yr hen dderyn bach?"

"I nythu fry ar y goeden."

"Pa mor uchel yw y pren?"

"Wel dacw fo uwchben."

"O mi syrthi, yr hen dderyn bach."

"Ble'r ei di, ble'r ei di yr hen dderyn bach?"

"I rywle i dorri fy nghalon."

"Pam yr ei di ffwrdd yn syth?"

"Plant drwg fu'n tynnu'r nyth."

"O drueni, yr hen dderyn bach."

- ii. Yn eu parau, gofynnwch iddynt lunio brawddegau'n cynnwys y berfau a nodir yn eu gwerslyfrau.

Siarad

Dyma rai cwestiynau y gallech eu defnyddio i arwain sgwrs a fydd yn dilyn o'r gwaith gwrando:

Dych/dach chi'n hoffi anifeiliaid? Oes anifail gyda chi?/Oes gynnoch chi anifail? Oes adar yn nythu wrth eich tŷ chi? Dych/dach chi'n bwydo adar yn eich gardd? Dych chi'n gallu/Dach chi'n medru adnabod gwahanol fathau o adar? Oes 'na anifeiliaid eraill yn dod i'ch gardd? Oes rhai anifeiliaid yn achosi problemau yn eich gardd?

Cam 3

Adolygu'r Dyfodol Cryno Afreolaidd - Dod

DOD

1. Dril:

Faint o'r gloch doi di/ddoi di i'r wers wythnos nesaf? Do i/Mi ddo i i'r wers erbyn 7.00

Faint o'r gloch daw/ddaw ____ i'r wers wythnos nesaf?

Faint o'r gloch down/ddown ni i'r wers wythnos nesaf?

Faint o'r gloch dewch/ddewch chi i'r wers wythnos nesaf?

Faint o'r gloch dôn/ddôn nhw i'r wers wythnos nesaf?

Cam 4

Adolygu'r Dyfodol Cryno Afreolaidd CAEL a GWNEUD

Dyma gyfres o ddriliau posib i adolygu'r berfau afreolaidd. Gellir dewis a dethol.

i. Beth/be gei di yn y bwyty Eidalaid heno? Ca i/Mi ga i basta

Beth/be gei di yn y bwyty Indiaidd heno?

Beth/be gei di yn y bwyty Tseiniaidd heno?

Beth/be gei di yn y caffi bore fory?

Beth/be gei di yn y gwesty nos yfory?

Beth/be gei di ar lan y môr ddydd Sadwrn?

ii. **Adolygu ffurfiau CAEL.** Rhwch y cwestiwn fel sbardun ac yna rhaid ymateb i'r sbardun a newid y rhagenw/enw.

Fi Ga i fynd allan am awyr iach?

Ti Gei di fynd allan am awyr iach?

Rhys Gaiff/Geith Rhys fynd allan am awyr iach?

Elen Gaiff/Geith Elen fynd allan am awyr iach?

Y plant Gaiff/Geith y plant fynd allan am awyr iach?

Ni Gawn ni fynd allan am awyr iach?

Chi Gewch chi fynd allan am awyr iach?

Nhw Gân nhw fynd allan am awyr iach?

iii. **Adolygu ffurfiau GWNEUD.** Rhwch y cwestiwn fel sbardun ac yna rhaid ymateb i'r sbardun a newid y rhagenw/enw.

Fi Gwna i'r/Mi wna i'r llestri heno

Siân Gwnaiff/Gwneith Siân y llestri heno

Sion Gwnaiff/Gwneith Siôn y llestri heno

Ni Gwnawn ni'r llestri heno

Nhw Gwnân nhw'r llestri heno

iv. Wnei di agor y drws?

Disodli'r elfen wedi'i thanlinellu.

v. Atebion.

Cyn troi at y gweithgaredd paru cwestiwn ac ateb yn y llyfr, gellir ymarfer atebion 'gwneud' a 'cael' ar wahân. Dril ar gyfer 'gwneud':

Wnei di ffonio wedyn?	Gwnaf/Wna i
Wnaiff/Wneith hi ffonio wedyn?	Gwnaiff/Wneith
Wnân nhw ffonio wedyn?	Gwnân/Wnân
Wnaiff/Wneith y plant dy ffonio wedyn?	Gwnân/Wnân

Gellir defnyddio mwy o ferfenwau na ffonio er mwyn atgyfnerthu.

Weli di John heddiw?	Gwnaf/Wna i
Ddoi di gyda/hefo fi?	Gwnaf/Wna i
Ddaw John gyda/hefo fi?	Gwnaiff/Wneith
Gyrhaeddiff e mewn pryd?	Gwnaiff/Wneith
Gyrhaeddych chi mewn pryd?	Gwnaf/Gwawn/Wna i/Wnawn
Gyrhaeddau nhw mewn pryd?	Gwnân/Wnân
Gyrhaeddi di mewn pryd?	Gwnaf/Wna i

Dril ar gyfer 'cael':

Ga i fynd?	Cei/Cewch
Gawn ni fynd?	Cewch (Cawn)
Gaiff e fynd?/Geith o fynd?	Caiff/Ceith
Gân nhw fynd?	Cân
Gaiff/Geith y plant fynd?	Cân

Eto, gellir defnyddio mwy o ferfenwau er mwyn atgyfnerthu.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner i wneud yr ymarfer i ganfod yr atebion cywir yn y gwrslyfr. Gallwch wneud yr un ymarfer gan ddefnyddio cardiau hefyd (Atodiad 3).

vi. Mae'r dril nesaf yn y gwrslyfrau. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i lunio cwestiynau i gyd-fynd â'r brawddegau, cyn mynd ati i wneud y dril gyda'i gilydd.

Mae eich bil yn barod	Ga i ei dalu e nawr?/Ga i ei dalu o rŵan?
Mae eich car yn barod	
Mae eich sbectol yn barod	
Mae eich ystafell chi'n barod	

Mae eich cyfrifiadur chi'n barod

vii. Gallech roi'r dril nesaf ar gardiau, a'r cwestiynau ar y cefn.

Mae eich car yn y ffordd...	Wnewch chi ei symud e/o?
Mae bil coch wedi cyrraedd...	Wnewch chi ei dalu e/o?
Mae fy nghrys yn frwnt/fudr...	Wnewch chi ei olchi e/o?
Mae problem gyda Jac/Mae gan Jac broblem...	Wnewch chi ei helpu e/o?
Mae problem gyda nhw/Mae gynnyn nhw broblem...	Wnewch chi eu helpu nhw?
Mae fy nillad yn frwnt/fudr...	Wnewch chi eu golchi nhw?
Does dim tiwtor i ddysgu'r dosbarth...	Wnewch chi eu dysgu nhw?
Mae stampiau ar y llythyrau yn barod...	Wnewch chi eu postio nhw?

viii. Sgwrs

Gofynnwch i barau ad-drefnu'r llinellau i greu un sgwrs. Ar ôl cwblhau'r dasg, gofynnwch iddynt ganfod yr enghreifftiau o'r dyfodol cryno yn y darn. Dyma'r sgwrs:

- A:** Nos Wener. Hwrê! Beth/be wyt ti am wneud dros y penwythnos?
B: Os bydd hi'n braf, dw i'n credu a i am dro i'r goedwig tu ôl i'r tŷ yfory.
A: Braf! Dw i wrth fy modd yn mynd am dro.
B: Mae croeso i ti ddod gyda fi/ddwad efo fi.
A: Do i/Mi ddo i rywbryd, ond ddim yfory. Bydda i/Mi fydda i yn y tŷ drwy'r dydd – yn addurno'r lolfa.
B: Druan â ti/Bechod. Helpa i/Mi helpa i ti ddydd Sul os wyt ti eisiau/isio.
A: Oes amser gyda ti/Oes gynnot amser? Basai hynny'n wych.
B: Dim problem. Erbyn pryd do i/ddo i draw?
A: Dere/Tyrd draw erbyn deg. Byddwn ni'n/Mi fyddwn ni'n siŵr o orffen erbyn pump a gwna i /ac mi wna i swper i ti.
B: Dyna ni 'te/ta. Dyna fy mhenwythnos wedi'i drefnu. Crwydro'r goedwig yfory a phapuro ddydd Sul. Gwela i ti/Mi wela i ti fore Sul.

Ymarferion ymestynnol:

- Cyfieithu brawddegau i'r Saesneg - Mae'r brawddegau Atodiad 4.
- Rhowch y brawddegau isod a'r berfau ar y bwrdd gwyn neu ar sleid Powerpoint.

Rhaid i'r dysgwyr lunio brawddegau yn ymateb i'r sbardun, gan ddefnyddio berfau yn y dyfodol.

e.e. Mae Aled yn brysur yn y gwaith + DOD

Daw e adre'n hwyr heno/
Mi ddaw o adra'n hwyr heno

Mae'r bws ysgol wedi torri + CERDDED
 Does dim bwyd ar ôl yn y tŷ + MYND
 Anghofiodd/Mi anghofiodd Siân ddiffodd y tap + BOD
 Mae twll yn dy got di + PRYNU
 Mae'r bobl drws nesaf yn gwneud gormod o sŵn + FFONIO
 Does dim byd da ar y teledu heno + MYND
 Mae Rhys wedi mynd allan o'r tŷ heb ei got + GWLYCHU
 Mae Ceri wedi cael babi + CYSGU

Cam 5

Sôn am y gwaith cartref

Byddai'n arfer da edrych ar y tasgau gwaith cartref ar y pwynt hwn. Cofiwch hefyd atgoffa'r dosbarth bod angen dysgu geirfa Uned 4.

Cam 6

Darllen

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Ar ôl sicrhau bod y dysgwyr yn deall yr eirfa sydd wedi'i hamlygu, rhannwch nhw'n grwpiau, a gofynnwch iddynt ysgrifennu 5 pwynt pwysig o'r erthygl.

Gweithgaredd cyfleoliadau

- i. Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu'r ymadroddion (sy'n ymddangos yn y darn).
- ii. Gofynnwch iddynt ffurfio cyfleoliadau eraill. Efallai y bydd angen rhoi rhai enghreifftiau e.e. 'noson agored'; 'rheoli amser'.

Ymarfer 'mawr' – yn y gwerslyfr

Gwaith Siarad – yn y gwerslyfr

Cam 7

Gwranddo 2

Cyn gwranddo ar y darn, edrychwch ar yr eirfa a'r idiomau newydd.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau gwranddo. Yna:

- i) Gofynnwch i'r dysgwyr ddweud y stori wrth ei gilydd (mewn parau). Darperir sbardunau i helpu.
- ii) Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am eiriau sy'n ymddangos yn y stori. Ysgrifennwch y geiriau hyn ar fwrdd gwyn. Yna, rhannwch y dosbarth yn ddau dîm a gofynnwch i gynrychiolydd o bob tîm ddod i sefyll yn y blaen gyda chi. Rhwng ysgrifbin bwrdd gwyn iddynt.

Heb unrhyw drefn benodol, dywedwch y geiriau sydd ar y bwrdd gwyn, a geiriau eraill cysylltiedig sy'n dod i'ch meddwl fel croesdynnwyr. Rhaid i'r ddau ddysgwyr gylchu'r geiriau ar ôl i chi eu dweud. Y tîm sy'n llwyddo i gylchu'r nifer fwyaf o eiriau sy'n ennill.

Ceir copi o'r sgrïpt yn Atodiad 5.

Cam 8

Siarad

Arweiniwch drafodaeth ar y pynciau hyn: Pa storïau o'ch chi'n/oeddech chi'n eu hoffi pan o'ch chi'n/oeddech chi'n blant? Ydy storïau'n dysgu pethau pwysig i blant? Oedd rhai storïau'n codi ofn arnoch chi?

Uned 3 – Atodiad 1 – Cardiau Sgwrsio

<p>Yfory, fwyta i ddim _____</p>	<p>Wythnos nesaf, taclusa i/mi daclusa i _____</p>	<p>Flwyddyn nesaf, bydda i/mi fydda i'n teithio i _____</p>
<p>Bydda i/Mi fydda i'n cysgu tan _____ pan fydda i ar fy ngwyliau</p>	<p>Heno, gwylia/mi wylia i _____ ar y teledu</p>	<p>Yfory, wisga i ddim _____</p>
<p>Gwrandawa/ Mi wrandawa i ar _____ ar y radio bore yfory</p>	<p>Bydda/Mi fydda i'n coginio _____ i swper yfory</p>	<p>Siarada i â/ Mi siarada i efo _____ ar y ffôn wythnos nesaf</p>
<p>Anfona/Mi anfona i neges destun at _____ yfory</p>	<p>Wela i ddim o _____ yfory</p>	<p>Cherdda i ddim i _____ wythnos nesaf</p>



Gwisga/Mi wisga
i _____ yfory

Ddarllena i ddim
_____ heno

Yfa i/Mi yfa
i _____ nos
Sadwrn

Bydda/Mi fydda
i'n bwyta _____ i
frecwast yfory

Anfona/Mi
anfona i gerdyn
Nadolig at _____
eleni

Gyrra i/Mi yrra i i
_____ yfory

Siarada i â/Mi
siarada i efo
_____ heno

Pryna i/Mi
bryna i _____ yr
wythnos yma

Bydda i/Mi fydda
i'n gwneud
_____ wythnos
nesaf

Gwela i/Mi wela i
_____ yfory

Dihuna/Mi
ddeffra i am
_____ yfory

Y flwyddyn nesa,
bydda/mi fydda
i'n _____

Uned 3 – Atodiad 2 – Ble'r ei di?

**“Ble'r ei di, ble'r
ei di yr hen
dderyn bach?”**

**“Ble'r ei di, ble'r
ei di yr hen
dderyn bach?”**

**“I nythu fry ar y
goeden.”**

**“Pa mor uchel
yw y pren?”**

**“Wel dacw fo
uwchben.”**

**“O mi syrthi,
yr hen dderyn
bach.”**

**“I rywle i dorri fy
nghalon.”**

**“Pam yr ei di
ffwrdd yn syth?”**

**“Plant drwg fu'n
tynnu'r nyth.”**

**“O drueni, yr hen
dderyn bach.”**

Uned 3 – Atodiad 3 – Cardiau Ateb

**Siaradwn ni nes
ymlaen?**

**Gwnawn/
Wnawn**

**Fwytwch chi'r
bwyd yma i gyd?**

**Gwnawn/
Wnawn**

**Wnaiff/Wneith hi
aros yn yr orsaf
amdanon ni?**

Gwnaiff/Wneith

**Gerddiff e/
Gerddith o i'r dre
ar ei ben ei hun?**

Gwnaiff/Wneith

Orffennan nhw'r gwaith mewn pryd?	Gwnân/Wnân
Gei di wisgo jîns i'r gwaith?	Caf/Ca i
Gaiff/Geith Rhian fenthyg dy gar?	Caiff/Ceith
Gawn ni adael y cyngerdd yn gynnar?	Cawn / Cewch

**Gaiff e/Geith o
fynd ar ei feic
fan hyn?**

Caiff/Ceith

**Gân nhw gynnau
tân fan hyn?**

Cân

Uned 3 – Atodiad 4 – Ymestyn

Ymestyn

Cyfieithwch y brawddegau canlynol. Cofiwch y treigladau!

1. *I'll 'phone you tomorrow.*

.....

2. *Remember to close the gate.*

.....

3. *Siân will talk to you next week.*

.....

4. *Will they remember to bring the papers?*

.....

5. *Will you help me to tidy up?*

.....

6. *We will dance tonight.*

.....

7. *Will you go abroad this year?*

.....

8. *Can we use our mobile phones here?*

.....

Uned 3 – Atodiad 5 – Sgript Gwrando (De Cymru)



Hugan Fach Goch

Amser maith yn ôl, roedd merch fach oedd bob amser yn gwisgo **clogyn** coch. Roedd hi felly'n cael ei galw'n **Hugan Fach Goch**.

Un diwrnod, roedd Mam-gu Hugan Fach Goch yn dost. Gofynnodd mam Hugan Fach Goch iddi hi fynd i weld Mam-gu, i roi cacen a ffrwythau iddi hi. Roedd Mam-gu yn byw mewn bwthyn bach yng nghanol y goedwig.

"Rhaid i ti aros ar y llwybr bob amser," meddai Mam. "Dere yn syth adre wedyn. Mae llawer o anifeiliaid peryglus yn y goedwig. Paid â siarad â neb."

Ond, anghofiodd Hugan Fach Goch am eiriau ei mam. Crwydrodd i ganol y coed, a dechreuodd gasglu blodau pert i Mam-gu.

Yn sydyn, clywodd hi lais **cras** yn siarad â hi. **Y blaidd** cas oedd e.

"I ble rwyd ti'n mynd, Hugan Fach Goch?"

"Dw i'n mynd i weld Mam-gu. Mae hi'n dost yn ei gwely. Mae gyda fi fwyd a blodau pert iddi hi."

"Da iawn ti. Wel, os ei di ar y llwybr arall, gwnei di gyrraedd yn llawer cyflymach."

"O, diolch yn fawr iawn. Af i'r ffordd yna, felly."

Ond roedd y blaidd drwg wedi chwarae tric ar Hugan Fach Goch. Roedd e wedi dangos llwybr hir iawn iddi hi. Felly, cymerodd Hugan Fach Goch lawer o amser i gyrraedd bwthyn Mam-gu. Rhedodd y blaidd y ffordd gywir, a'i wynt yn ei ddwrn. Cyrhaeddodd y bwthyn cyn Hugan fach Goch.

Curodd y blaidd ar y drws – cnoc, cnoc, cnoc.

Roedd Mam-gu yn y gwely.

"Pwy sy 'na?" gofynnodd.

"Fi, Hugan Fach Goch", meddai'r blaidd mewn llais uchel.

"Dere i mewn cariad bach," meddai Mam-gu.

Yna, neidiodd y blaidd ar ben Mam-gu a rhoiodd hi yn y cwpwrdd.

Cyn hir, cyrhaeddodd Hugan Fach Goch. Roedd y blaidd yn eistedd yn y gwely, yn gwisgo dillad a sbectol Mam-gu.

Edrychodd Hugan Fach Goch yn **syn** ar Mam-gu. Roedd hi'n edrych yn wahanol iawn.

"O, Mam-gu – mae eich clustiau chi mor fawr!" meddai Hugan Fach Goch.

"I fi gael clywed pob gair!" Atebodd y blaidd.

"Mae eich llygaid chi'n fawr iawn hefyd!"

"I fi gael dy weld di'n iawn!" Atebodd y blaidd.

"Ac o, Mam-gu – beth sydd wedi digwydd i'ch ceg chi? Mae'n fawr iawn iawn!"

"I fi gael dy fwyta di i gyd!" Atebodd y blaidd, gan neidio allan o'r gwely a rhedeg ar ôl Hugan Fach Goch.

Diolch byth, roedd dau **goedwigwr** y tu allan. Clywon nhw sŵn ofnadwy yn dod o'r bwthyn, ac aethon nhw i weld beth oedd yn bod.

Pan welon nhw'r blaidd, **saethon nhw'r** blaidd yn farw. Wedyn, agoron nhw'r cwpwrdd dillad i **achub** Mam-gu.

Roedd Hugan Fach Goch a Mam-gu yn hapus iawn i weld ei gilydd. Wnaeth Hugan Fach Goch ddim **mentro** i'r goedwig ar ei phen ei hun eto.

Uned 3 – Atodiad 5 – Sgript Gwrando (Gogledd Cymru)



Hugan Fach Goch

Amser maith yn ôl, roedd merch fach oedd bob amser yn gwisgo **clogyn** coch. Roedd hi felly'n cael ei galw'n **Hugan Fach Goch**.

Un diwrnod, roedd Nain Hugan Fach Goch yn sâl. Gofynnodd mam Hugan Fach Goch iddi hi fynd i weld Nain, i roi cacen a ffrwythau iddi hi. Roedd Nain yn byw mewn bwthyn bach yng nghanol y goedwig.

"Rhaid i ti aros ar y llwybr bob amser," meddai Mam. Tyrd adre wedyn. Mae llawer o anifeiliaid peryglus yn y goedwig. Paid â siarad efo neb."

Ond, anghofiodd Hugan Fach Goch am eiriau ei mam. Crwydrodd i ganol y coed, a dechreuodd gasglu blodau del i Nain.

Yn sydyn, clywodd hi lais **cras** yn siarad efo hi. **Y blaidd** cas oedd o.

"I le rwy'ti'n mynd, Hugan Fach Goch?"

"Dw i'n mynd i weld Nain. Mae hi'n sâl yn ei gwely. Mae gen i fwyd a blodau del iddi hi."

"Da iawn ti. Wel, os ei di ar y llwybr arall, mi wnei di gyrraedd yn llawer cyflymach."

"O, diolch yn fawr iawn. Mi a' i'r ffordd yna, felly."

Ond roedd y blaidd drwg wedi chwarae tric ar Hugan Fach Goch. Roedd o wedi dangos llwybr hir iawn iddi hi. Felly, cymerodd Hugan Fach Goch lawer o amser i gyrraedd bwthyn Nain. Rhedodd y blaidd y ffordd gywir, a'i wynt yn ei ddwrn. Cyrhaeddodd y bwthyn cyn Hugan Fach Goch.

Curodd y blaidd ar y drws – cnoc, cnoc, cnoc.

Roedd Nain yn y gwely.

"Pwy sy 'na?" gofynnodd.

"Fi, Hugan Fach Goch," meddai'r blaidd mewn llais uchel.

"Tyrd i mewn cariad bach," meddai Nain.

Yna, neidiodd y blaidd ar ben Nain a rhoiodd hi yn y cwpwrdd.

Cyn hir, cyrhaeddodd Hugan Fach Goch. Roedd y blaidd yn eistedd yn y gwely yn gwisgo dillad a sbectol Nain.

Edrychodd Hugan Fach Goch yn **syn** ar Nain. Roedd hi'n edrych yn wahanol iawn.

"O, Nain – mae eich clustiau chi mor fawr!" meddai Hugan Fach Goch.

"I fi gael clywed pob gair!" atebodd y blaidd.

"Mae eich llygaid chi'n fawr iawn hefyd!"

"I fi gael dy weld di'n iawn!" atebodd y blaidd.

"Ac o, Nain – beth sydd wedi digwydd i'ch ceg chi? Mae'n fawr iawn iawn!"

"I fi gael dy fwyta di i gyd!" atebodd y blaidd, gan neidio allan o'r gwely a rhedeg ar ôl Hugan Fach Goch.

Diolch byth, roedd dau **goedwigwr** y tu allan. Clywon nhw sŵn ofnadwy yn dod o'r bwthyn, ac aethon nhw i weld beth oedd yn bod.

Pan welon nhw'r blaidd, **saethon nhw'r** blaidd yn farw. Wedyn, agoron nhw'r cwprdd dillad i **achub** Nain.

Roedd Hugan Fach Goch a Nain yn hapus iawn i weld ei gilydd eto. Wnaeth Hugan Fach Goch ddim **mentro** i'r goedwig ar ei phen ei hun eto.

Uned 4 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Teimlo'n Lletchwith/Chwithig

Nod yr uned yw adolygu ffurfiau cryno yr amodol a helpu'r dysgwyr i drafod profiadau (doniol, gobeithio) sydd wedi peri iddynt deimlo'n lletchwith (chwithig) / teimlo embaras.

Cam 1: Siarad (adolygu'r unedau diwethaf – y dyfodol)

Rhannwch y dosbarth i weithio mewn timau bychain. Rhowch gerdyn i bob tîm, sy'n dangos ble byddan nhw nos fory (Atodiad 1). Rhaid i'r timau eraill ofyn cwestiynau iddynt er mwyn dyfalu ble byddan nhw. Dyma rai cwestiynau enghreifftiol, ond dylech eu hannog i feddwl am gwestiynau eraill, gan ddefnyddio berfau yn y dyfodol:

- Fyddwch chi tu fas/allan neu tu fewn?
- Fydd cerddoriaeth yno?
- Gewch chi rywbeth i'w fwyta?
- Fydd bar yno?
- Fyddwch chi'n gwisgo rhywbeth arbennig?

Bydd y tîm sy'n dyfalu'n gywir yn cael pwynt.

Cam 2: Adolygu'r Amodol

- i) **Gweithgaredd sgwrsio i adolygu'r amodol.** Rhannwch y dosbarth yn 2 grŵp. Rhowch chwe cherdyn i bob grŵp. Gallech roi set wahanol o chwech i bob grŵp, neu gallech roi'r un cwestiynau iddynt a chadw'r chwe chwestiwn arall er mwyn parhau â'r gweithgaredd ar ddechrau'r wers nesaf. Gofynnwch iddynt holi'r cwestiynau ar y cardiau i'w gilydd, a cheisio ateb yn llawn gan roi rhesymau am eu hatebion. Dylent ddefnyddio'r amodol yn bennaf ond dylech eu hannog i ymhelaethu gyda ffurfiau eraill (trwy fodelu).
- ii) Mae'r driliau hyn yn ymddangos yn eu gwर्सlyfrau. Gofynnwch iddynt lenwi'r bylchau gyda phartner, ac yna cymryd tro i wneud rhan 1 a rhan 2 y ddau ddril.

Cyn mynd ati i wneud yr ail ddril, sy'n ymarfer 'taswn', byddai'n werth esbonio bod 'os' (if) yn gynwysedig yn y gair oherwydd bod llawer yn dweud 'Os taswn'.

Dwedais i rywbeth twp/
Mi ddudais i rywbeth gwirion

Faswn i ddim wedi dweud
beth ddwedaist ti
Faswn i ddim wedi deud be ddudaist ti

Gwnes i rywbeth twp/
Mi wnes i rywbeth gwirion

.....
.....

Gofynnais i gwestiwn twp/
Mi wnes i ofyn cwestiwn gwirion

.....
.....

Gwisgais i wisg ffansi ddwl/
Mi wisgais i wisg ffansi wirion

.....
.....

Prynais i/Mi brynais i rywbeth hurt
Dewisais i'r/Mi ddewisais i'r bwyd anghywir

.....
.....

Phrynais i ddim teiars newydd
Es i ddim i'r garej
Siaradais i ddim â'r/efo'r mecanic
Welais i ddim iâ ar yr heol/rhew ar y ffordd
Wrandawais i ddim ar y rhybudd
Arhosais i ddim gartref/adre

Taset ti ond wedi prynu teiars newydd
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Cam 3:

Atgoffwch y dysgwyr am y ffurfiau **Hoffwn i / Dylwn i / Gallwn i, (Mi hoffwn i/Mi ddylwn i/Mi fedrwn i) a Hoffwn i fod wedi / Dylwn i fod wedi / Gallwn i fod wedi (Mi hoffwn i fod wedi/Mi ddylwn i fod wedi/Mi fedrwn i fod wedi)**. Gallech ofyn cwestiynau syml iddynt i ymarfer y patrymau, e.e. "Beth hoffech chi wneud heno?"; "Beth hoffech chi fod wedi'i wneud neithiwr"; "Beth ddylech chi wneud heno?"; "Beth ddylech chi fod wedi'i wneud neithiwr?". Gallech ofyn iddynt ofyn y cwestiynau i'w gilydd mewn parau, ac adrodd yn ôl yn y trydydd person.

Dril i ymarfer y patrwm:

Pam wnest ti hynny?
Pam wnaeth e/o hynny?
Pam wnaeth hi hynny?
Pam wnaethon ni hynny?
Pam wnaethoch chi hynny?
Pam wnaethon nhw hynny?

Ddylwn i ddim bod wedi ei wneud e/o.
Ddylai e/o ddim bod wedi ei wneud e/o.
ac ati...

* Nid oes treigladd ar ôl 'pam', ond mae'r treigladd yn fwy naturiol ar lafar. Gallech hepgor y treigladd a newid y dril e.e. 'pam gwnest ti hynny?', pe bai'n well gennych ei wneud fel hynny.

Darllenwch dros yr adran Help Llaw.

Cam 4: Gwranddo

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gweithgaredd Gwranddo.

- i. Ar ôl y gwrandawriad cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr wrando am yr eirfa a nodir yn eu gwrslyfrau.
- ii. Ar ôl yr ail wrandawriad, rhowch amser iddynt ateb y cwestiynau Gwir neu Gau. Gwrandewch ar y ddeialog eto os oes angen, i gadarnhau'r atebion cywir, sef:

Mae Jac wedi cael tocyn i Wil ar gyfer gêm rygbi.	gwir
Roedd Wil wedi addo mynd â Caren i glwb nos.	gau (bwyty)
Mae'n rhaid i Caren weithio nos Wener.	gwir
Mae Caren yn hoffi rygbi.	gau
Mae Elin yn credu/meddwl dylai Wil fynd i'r gêm.	gwir

- iii. Rhowch gopi o sgript y darn gwranddo i'r dysgwyr (bydd angen eu llungopïo). Gofynnwch iddynt danlinellu'r berfau dyfodol mewn un lliw, a'r berfau amodol mewn lliw gwahanol.
- iv. Gofynnwch iddynt ddewis 3 brawddeg o'r sgript: 1 frawddeg sy'n defnyddio'r **dyfodol** a 2 frawddeg sy'n defnyddio'r **amodol**. Gofynnwch iddynt eu cyfieithu.
- v. Rhowch gyfle iddynt sgwrsio am y ddeialog. Efallai bod rhai aelodau o'r dosbarth wedi bod mewn sefyllfa debyg i Wil. Ydyn nhw'n cydymdeimlo ag ef?

Cam 5: Ymestyn - De Cymru

Nid yw'r ffurfiau amodol ffurfiol/ffurfiau sydd ar lafar yn y de yn cael eu cyflwyno yn Uwch 1, ond ceir esboniad o'r ffurfiau hyn ac ymarfer i'w hatgyfnerthu Yn Atodiad 3. Mae'n bosib y bydd rhai o'r dysgwyr wedi clywed y ffurfiau hyn ar lafar (yn enwedig yn y de) ac yn awyddus i'w dysgu.

Gogledd Cymru

Nid yw'r uchod yn addas ar gyfer y gogledd ond gellid defnyddio'r cwestiynau sydd yn Atodiad 5 i sbarduno sgwrs yn y dosbarth:

Pwy fasech chi'n ei wahodd i'ch parti delfrydol a be fasech chi'n ei fwyta?
 Fasech chi'n cysgu tan 11am tasai gynnoch chi ddim byd pwysig i'w wneud?
 Pwy fasech chi'n ei ffonio mewn argyfwng?
 Fasech chi'n mynd ar wyliau i Awstralia tasai rhywun yn cynnig tocyn awyren rhad i chi?
 Pwy fasai yn eich tîm cwis tafarn chi?

Cam 6: Darllen

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna,

- i. Gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i'r berfau **amodol** yn yr holiadur.
- ii. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu diffiniad o'r ymadroddion a nodir yn y gwerslyfrau.
- iii. Gall y dysgwyr weithio mewn partneriaid wedyn, a gofyn cwestiynau'r holiadur i'w gilydd.

Cam 7: Gwyllo a Gwranddo

Bydd y dysgwyr yn gwyllo fideos o enwogion yn sôn am brofiadau sydd wedi creu embaras neu deimlad o letchwithdod iddyn nhw.

Yn gyntaf, ceir fideo o Lowri Morgan. Dylid gwranddo am yr eirfa newydd ac ateb y cwestiynau. Wedyn ceir fideo o'r actor Ioan Hefin yn siarad. Cyn gwyllo'r fideo, trafodwch yr eirfa hyn gyda'r dosbarth:

cerddorfa ieuencid

cyrsiau preswyl

storfa

damsgen

Dylid esbonio fod 'damsgen' yn air tafodieithol sy'n perthyn i rannau o dde Orllewin Cymru, a bod Ioan Hefin mewn gwirionedd yn dweud 'demshil', sef fersiwn Cwm Gwendraeth o'r gair. Gallech sôn am ffurfiau eraill cyffredin e.e. 'damshgel' a 'demsing', a bod 'sathru' yn cael ei ddefnyddio yn y gogledd. Oherwydd yr amrywiadau hyn, nid yw'r gair wedi'i gynnwys yn yr eirfa ond bydd yn ymddangos ar y sgrin yn ystod y fideo.

Ar ôl gwyllo'r fideo ddwy neu dair gwaith, rhowch amser i'r dosbarth ateb y cwestiynau hyn:

1. Pa gêm roedd Ioan Hefin eisiau ei chwarae?
Tennis bwrdd.
2. Am beth roedd e'n chwilio yn y storfa?
Peli.
3. Beth ddigwyddodd?
Wrth chwilio yn y tywyllwch am y peli, safodd ar set deledu, a'i thorri.

Wedyn, ceir ymarfer ar y gair **esgus**. Rhaid i'r dysgwyr lunio dwy frawddeg yn defnyddio'r gair, gan gofio ei fod yn gallu golygu *to pretend* yn ogystal ag *excuse*.

Wedi hynny, ceir clipiau byr o enwogion eraill. Ceir cwestiynau syml am eu profiadau, a fydd gobeithio yn arwain at sgwrsio rhwng y dysgwyr.

Lowri Morgan**cyffroi braint ac anrhydedd alaw werin rheolaidd rhwystredig**

1. Beth oedd y digwyddiad wnaeth achosi embaras i Lowri Morgan?
Canu'r gân anghywir ar lwyfan yr eisteddfod.
2. Sut roedd hi'n teimlo wedyn?
Roedd hi'n teimlo'n rhwystredig.

Dywed Lowri Morgan 'O'n i'n gadael i'n nerfau gael y gorau ohona i'. Nodwch y frawddeg ar y bwrdd gwyn a gofynnwch i barau drafod yr elfennau llafar yn y frawddeg (Ro'n i > O'n i; i fy nerfau>i'n nerfau; ohono i>ohona i). Driliwch y frawddeg nes ei bod yn dod yn eithaf naturiol. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i newid y frawddeg gan ddefnyddio rhagenwau/enwau eraill, e.e.

Ti Lowri Siôn Ni Chi Y plant Nhw

Cânt wneud hyn ar bapur i ddechrau i gael amser i feddwl ond gellid gorffen gyda dril llafar.

Aneirin Karadog**'slawer dydd peri pwylllog tywyllu taflunio amlinell megis**

1. Pa ran o gorff Aneirin oedd achos yr embaras?
Ei drwyn.
2. I ba anifail roedd e'n debyg?
Roedd e'n debyg i belican.

Heledd Cynwal**rhaglen gylchgrawn croten**

1. Pam roedd y ferch fach ar y rhaglen?
Roedd hi'n adolygu llyfr.
2. Beth wnaeth Heledd Cynwal?
Anghofio ei henw.

Gareth Rhys Owen**sylwebu**

1. Beth yw gwaith Gareth Rhys Owen?
Sylwebydd rygbi.
2. Beth wnaeth e?
Anghofio ei fod ar BBC Wales, a dechrau eitem yn Gymraeg.

Cam 8: Darllen 2 ti / chi

- i. Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer y darnau darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar yr ymadroddion isod, a gweithio gyda phartner i'w cyfieithu i'r Saesneg.

parau priod Mae'n deg dweud Pwy a wŷyr llond tŷ rhag ofn

- ii. Gofynnwch iddynt feddwl beth yw ystyr yr ymadroddion isod, sy'n defnyddio 'llond'. Efallai y gallech chi (neu nhw) gynnig enghreifftiau eraill. Yna, gofynnwch iddynt lunio dwy frawddeg yn defnyddio rhai o'r ymadroddion.

llond llaw
llond llwyaid
llond côl o waith / llond trol o waith
llond bol
llond lle

Cam 9: Siarad

Arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a geir yn y gwerslyfr: Beth dych chi'n ei feddwl o 'ti' a 'chi'? Ydy hi'n bwysig eu defnyddio nhw?

Cwestiynau eraill posib: Dych/dach chi'n siarad iaith arall sy'n defnyddio mwy nag un ffordd o ddweud 'you'? Dych/dach chi'n poeni am sut mae'r we yn newid y ffordd 'dyn/dan ni'n ysgrifennu?

Cam 10: Gweithgaredd Cloi

Bag geiriau yn erbyn y cloc

Rhannwch eich dosbarth yn dimau. Bydd angen 'bag geiriau' ac amserydd arnoch chi. Bydd y bag geiriau yn cynnwys geirfa Uned 1 – 4.

1. Mae un gwirfoddolwr yn dod i flaen y dosbarth ac yn cymryd 10 gair o'r bag geiriau ac yn eu hysgrifennu ar y bwrdd gwyn.
2. Mae gan bob tîm funud i greu brawddeg sy'n cynnwys cynifer â phosib o'r geiriau hyn. Gall y frawddeg gynnwys geiriau eraill sydd ddim ar y bwrdd gwyn, ond ni chânt farciau am y geiriau ychwanegol hyn. Mae'n rhaid i'r frawddeg fod yn un ramadegol gywir.
3. Mae pob tîm yn darllen eu brawddeg ac mae'r sgôr yn cael ei gyfrifo (h.y. 1 pwynt am bob gair sydd ar eu bwrdd gwyn).
4. Rhoddir y geiriau yn ôl yn y bag geiriau, ac mae'r rownd nesaf yn dechrau.

Os nad ydy un tîm wedi gorffen y frawddeg pan ddaw munud i ben, yna nid ydynt yn sgorio unrhyw bwynt hyd yn oed os gallan nhw ddweud y frawddeg! Mae'n rhaid i'r frawddeg fod yn ysgrifenedig. Os oes camgymeriad yn y frawddeg, fyddan nhw ddim yn cael pwynt. Mae hwn hefyd yn gyfle i roi sylw i wallau.

Uned 4 – Atodiad 1 – Cardiau Lleoliadau

Y Gampfa

Gêm bêl-droed

Y Sinema

Parti Priodas

Bwyty Eidalaid

Y Theatr

Cwis Tafarn

pwll nofio

spa mewn gwesty moethus

ymarfer côr

Uned 4 – Atodiad 2 – Cardiau Sgwrsio



Tasech chi'n ennill miliynau ar y loteri, fasech chi'n mynd i fyw dramor?

Fasech chi'n hoffi mynd ar wifren wib?

Tasech chi'n 16 oed eto, fasech chi'n gwneud pethau'n wahanol?

Tasech chi'n cael cynnig miliynau o bunnau, fasech chi'n cymryd rhan mewn rhaglen deledu realaeth?

Fasech chi'n hoffi rhedeg marathon?

Fasech chi'n gallu/medru byw yn hapus heb declynnau fel ffôn symudol?

Fasech chi'n gallu/medru byw ar ynys fach ar eich pen eich hun?

Fasech chi'n mynd i noson dawnsio llinell?

Fasech chi'n mwynhau gwersylla mewn coedwig dywyll?

Fasech chi'n gallu/medru coginio pryd o fwyd i 20 o bobl?

Fasech chi'n hoffi mynd nôl mewn amser?

Fasech chi'n hoffi bod yn Brif Weinidog Cymru?

Fasech chi'n hoffi bod mewn band enwog?

Fasech chi'n mynd i deithio o amgylch y byd am flwyddyn tasech chi'n ennill tocyn awyren?

Fasech chi'n hoffi cwrdd â'ch/cyfarfod eich arwr?

Fasech chi'n mwynhau mynd i barti gwisg ffansi?

Fasech chi'n hoffi ysgrifennu nofel?

Hoffech chi ddysgu sgil newydd?

Tasech chi'n cael cynnig tocyn am ddim, fasech chi'n mynd i'r lleuad?

Tasech chi'n gallu/medru gwahodd unrhyw un i'ch parti pen-blwydd nesaf, pwy fasech chi'n ei wahodd?

Fasech chi'n mwynhau mynd i weld opera sy'n para 4 awr?

Fasech chi'n gallu/medru gofalu am neidr?

Fasech chi'n gallu/medru byw mewn dinas fawr?

Fasech chi'n gadael i raglen deledu ailwampio eich tŷ?

Uned 4 – Atodiad 3 – Ymestyn (De Cymru)

Yr amodol - er gwybodaeth...

Efallai byddwch chi'n clywed pobl yn dweud 'byddwn i' yn lle 'baswn i' os dych chi'n byw yn y de. Fel arfer, 'byddwn i' sy'n cael ei ddefnyddio wrth ysgrifennu hefyd. 'Dyn ni'n dysgu 'baswn i' yn gyntaf achos ein bod ni'n gallu cymysgu 'Byddwn i' (*I would*) a 'Bydda i' (*I will*).

Dyma ffurfiau 'byddwn i'. Mae'r treigladau a'r terfyniadau (*endings*) yr un peth â 'baswn i'.

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb i'r cwestiwn
Byddwn i	Fyddwn i ddim	Fyddwn i?	Byddet, byddech
Byddet ti	Fyddet ti ddim	Fyddet ti?	Byddwn
Byddai fe/hi	Fyddai fe / hi ddim	Fyddai fe / hi?	Byddai
Bydden ni	Fyddden ni ddim	Fyddden ni?	Bydden, byddech
Byddech chi	Fydddech chi ddim	Fydddech chi?	Byddwn, bydden
Bydden nhw	Fyddden nhw ddim	Fyddden nhw?	Bydden

Ymestyn

Gan ddefnyddio'r patrwm 'byddwn i', atebwch y cwestiynau isod mewn brawddegau llawn, gan roi rheswm dros eich atebion.

- Pwy fyddech chi'n ei wahodd i'ch parti delfrydol (*ideal*) a beth fyddech chi'n ei fwyta?
.....
- Fydddech chi'n cysgu tan 11.00 tasai dim byd pwysig gyda chi i'w wneud?
.....
- Pwy fyddech chi'n ei ffonio mewn argyfwng (*emergency*)?
.....
- Fydddech chi'n mynd ar wyliau i Awstralia tasai rhywun yn cynnig tocyn awyren rhad i chi?
.....
- Pwy fyddai yn eich tîm cwis tafarn chi?
.....
.....

Uned 4 - Atodiad 4 - Sgript Gwrando (De Cymru)



Wil ac Elin

Elin: Bore da! Sut wyt ti bore 'ma?

Wil: lawn.

Elin: Dim ond 'iawn'? Beth sy'n bod?

Wil: Mae Jac wedi cael tocyn i fi i weld y gêm rygbi nos Sadwrn. Tocyn VIP yw e. Byddwn ni'n eistedd mewn bocs ac yn cael bwyd a diod am ddim.

Elin: Wel mae hynny'n neis, on'd yw e?

Wil: Ydy ond... mae pen-blwydd Caren.

Elin: Ow... ac fe anghofiaist ti am ei phen-blwydd hi y llynedd, on'd do.

Wil: Do. Mae hyn mor lletchwith – dw i'n teimlo'n ofnadwy!

Elin: O Wil, elli di ddim mynd i'r gêm, ar ôl yr holl **gweryla** llynedd!

Wil: Basai pethau'n waeth eleni gan ei fod e'n ben-blwydd arbennig. Bydd hi'n 40 oed, ac ro'n i wedi **addo** mynd â hi i'r Sosban Aur.

Elin: Y Sosban Aur? Y lle 'na sydd newydd ennill gwobr Bwyty Gorau Cymru?

Wil: Ie, dyna fe. Y lle drud 'na.

Elin: Allet ti fynd â hi yno nos Wener yn lle nos Sadwrn, a gwneud y ddau beth?

Wil: Na, yn anffodus. Mae Caren yn gweithio nos Wener.

Elin: Fasai Jac yn gallu cael tocyn i Caren hefyd? Allai hi fynd gyda chi?

Wil: Paid â siarad dwli. Ti'n gwybod bod yn gas 'da hi rygbi. Pêl-droed yw ei gêm hi.

Elin: O ie, wrth gwrs. Wel, does dim dewis felly.

Wil: Ond mae'n gyfle gwych! Gêm rygbi fawr a bwyd a diod am ddim! Falle chaf i ddim cyfle i eistedd mewn bocs fel hyn eto! Dw i'n siŵr baset ti'n dewis mynd i'r gêm.

Elin: Na – faswn i ddim! Wil – gwranda. Rwyd ti bron â marw eisiau mynd i'r gêm. Dw i'n deall hynny. Ond rhaid i ti fynd â Caren mas am fwyd. Fasai hi ddim yn **maddau** i ti eto.

Wil: [Ochneidio] Dw i'n gwybod. Ti sy'n iawn.

Elin: Paid ag edrych mor drist. Dw i wedi clywed bod y bwyd yn fendigedig. Ond paid ag anghofio dy gerdyn credyd!

Uned 4 – Atodiad 4 – Sgript Gwrando (Gogledd Cymru)



Wil ac Elin

Elin: Bore da! Sut wyt ti bore 'ma?

Wil: Iawn.

Elin: Dim ond 'iawn'? Beth sy'n bod?

Wil: Mae Jac wedi cael tocyn i fi i weld y gêm rygbi nos Sadwrn. Tocyn VIP ydy o. Byddwn ni'n eistedd mewn bocs ac yn cael bwyd a diod am ddim.

Elin: Wel mae hynny'n neis, tydy?

Wil: Ydy ond... mae pen-blwydd Caren.

Elin: Ow... ac mi anghofiaist ti am ei phen-blwydd hi y llynedd, on'd do.

Wil: Do. Mae hyn mor chwithig – dw i'n teimlo'n ofnadwy!

Elin: O Wil, fedri di ddim mynd i'r gêm, ar ôl yr holl **ffraeo** llynedd!

Wil: Mi fasai pethau'n waeth eleni gan ei fod o'n ben-blwydd arbennig. Mi fydd hi'n 40 oed, ac ro'n i wedi **addo** mynd â hi i'r Sosban Aur.

Elin: Y Sosban Aur? Y lle 'na sydd newydd ennill gwobr Bwyty Gorau Cymru?

Wil: Ia, dyna fo. Y lle drud 'na.

Elin: Fedret ti fynd â hi yno nos Wener yn lle nos Sadwrn, a gwneud y ddau beth?

Wil: Na, yn anffodus. Mae Caren yn gweithio nos Wener.

Elin: Fasai Jac yn gallu cael tocyn i Caren hefyd? Fedrai hi fynd efo chi?

Wil: Paid â siarad lol. Ti'n gwybod bod yn gas gynni hi rygbi. Pêl-droed ydy ei gêm hi.

Elin: O ia, wrth gwrs. Wel, does dim dewis felly.

Wil: Ond mae'n gyfle gwych! Gêm rygbi fawr a bwyd a diod am ddim! Ella cha i ddim cyfle i eistedd mewn bocs fel hyn eto! Dw i'n siŵr baset ti'n dewis mynd i'r gêm.

Elin: Na – faswn i ddim! Wil – gwranda. Rwyt ti bron â marw eisiau mynd i'r gêm. Dw i'n dallt hynny. Ond rhaid i ti fynd â Caren allan am fwyd. Fasai hi ddim yn **maddau** i ti eto.

Wil: [Ochneidio] Dw i'n gwybod. Ti sy'n iawn.

Elin: Paid ag edrych mor ddigalon. Dw i wedi clywed bod y bwyd yn fendigedig. Ond paid ag anghofio dy gerdyn credyd!

Uned 5 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Celf

Nod yr uned yw adolygu cymal enwol bod a helpu'r dysgwyr i drafod celf neu addurniadau ac i fynegi barn.

Cam 1: Siarad (adolygu'r uned ddiwethaf – yr amodol)

Rhannwch y dosbarth i weithio mewn grwpiau bach (rhyw 3 neu 4 ym mhob grŵp). Rhowch gopïau o'r cardiau gyda'r gosodiadau isod arnynt (Atodiad 1) i bob grŵp a gofynnwch iddynt drafod eu hymateb i'r sefyllfaoedd sy'n cael eu gosod. Dylech eu hannog i drafod ac i roi ymatebion estynedig lle bo'n bosibl ac i gymharu a thrafod ymateb ei gilydd. Anogwch nhw i ychwanegu beth y gallen nhw ei wneud, beth hoffen nhw ei wneud a/neu beth dylen nhw ei wneud lle bo hynny'n briodol. Gallech roi enghraifft i ddechrau trwy holi un o'r dysgwyr a rhoi eich ymateb eich hunan.

Cam 2: Darllen

Ewch dros y brawddegau uwchben y darn darllen i sicrhau bod pawb yn eu deall, gyda sylw penodol i'r eirfa mewn print bras a gyflwynwyd yn Uned 4. Rhannwch y dosbarth yn barau a gofyn iddynt weithio gyda'i gilydd i feddwl am frawddegau gwahanol yn cynnwys yr un eitemau geirfa. Wedi iddynt orffen, gallwch ofyn i'r paruau rannu rhai o'u brawddegau newydd gyda'r dosbarth.

Tasech chi'n gwybod ei bod hi'n mynd i fwrw glaw bob dydd ym mis Awst

Tasai'ch car chi'n cael pynctsiar ar eich ffordd i gyfarfod pwysig

Tasai Cymru'n cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Byd

Tasech chi'n llosgi'r bwyd wrth baratoi pryd o fwyd i ffrindiau

Tasech chi'n cael cynnig swydd yn Dubai

Tasech chi'n gweld hanner canpunt ar y llawr tu allan i siop

Tasai hi'n dechrau bwrw glaw yn drwm a'ch bod chi heb got/gôt

Tasech chi'n gweld eich hoff actor/actores ar fwrdd arall yn yr un tŷ bwyta â chi

Tasech chi'n cael bod yn Brif Weinidog am ddiwrnod

Tasech chi'n deffro un bore a sylweddoli eich bod chi wedi anghofio pen-blwydd eich gŵr/gwraig/partner/frind gorau

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna,

- i. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod rôl y bobl a'r lleoedd sydd wedi'u nodi o dan y darn.
- ii. Trafodwch y gair 'di-nod' a'r ffordd mae'n dangos y rhagddodiad 'di-' yn cael ei ddefnyddio i roi ystyr negyddol. Gofynnwch i bob pâr feddwl am dri gair arall sy'n dechrau gyda 'di-' ac i adrodd yn ôl i'r dosbarth. Gallech chi ofyn iddynt eu nodi ar y bwrdd gwyn. Rhai enghreifftiau – digalon, di-dâl, di-waith, digartref.
- iii. Trafodwch y rhagddodiad 'an-' hefyd a defnyddiwch y geiriau 'cyffredin' ac 'anghyffredin' i nodi sut mae'n cyfuno gyda'r treigladd trwynol ar ddechrau geiriau sy'n dechrau gydag 'c'. Gofynnwch iddynt roi'r geiriau croes i'r rhai sydd wedi eu nodi. Fel gwaith estynedig, gellir gofyn am enghreifftiau eraill sy'n dilyn yr un patrwm.

Cam 3: Siarad

Arweiniwch y drafodaeth ar lun Salem cyn symud ymlaen at y cwestiynau ynglŷn â chartrefi'r dysgwyr (a'r tiwtor!) – oes lluniau ar y waliau, ydyn nhw'n cadw pob math o bethau, ac ati.

Gofynnwch i bawb ddod â rhywbeth diddorol o'u cartref i'r dosbarth nesaf neu pryd bynnag y byddwch yn cychwyn uned 6 gan mai cyflwyno'r gwrthrychau hyn fydd y gwaith siarad cychwynol.

Cam 4: Adolygu Cymal Enwol Bod

Atgoffwch y dysgwyr eu bod eisoes wedi dysgu sut mae defnyddio'r cymal 'bod' a gofynnwch i barau nodi pryd byddwn ni'n defnyddio cymal enwol bod, e.e. Dw i'n meddwl bod.. Nodir rhai enghreifftiau isod:

Berfau

meddwl
credu
gwybod
gobeithio
dweud/deud

Ansoddeiriau

posib
amhosib
siŵr
sicr

Arall

efallai/ella
er
wrth gwrs
(achos)

Cyn troi at y gweithgaredd yn y gwर्सlyfr, atgoffwch y dysgwyr sut mae defnyddio bod gyda rhagenwau gan ddisodli'r frawddeg 'Dw i'n meddwl fy mod i'n iawn'. Gofynnwch i barau wneud yr ymarfer sydd yn y gwर्सlyfr i gysylltu cymalau i greu brawddegau gyda 'bod'.

Yna cyflwynwch y dril sy'n dod nesaf yn y gwर्सlyfr:

- i. Gofynnwch i un o'r dysgwyr ddarllen y gosodiad cyntaf – 'Roedd hi yn y swyddfa tan naw o'r gloch' (gallech ei gosod ar y bwrdd gwyn) a darllenwch chi'r ymateb – 'Dw i'n credu/meddwl ei bod hi'n gweithio'n rhy galed'.
- ii. Gofynnwch i rywun gynnig fersiwn wedi'i haddasu o'r gosodiad trwy ddisodli'r elfen sydd mewn print **bras**. Rhowch chi ymateb addas i'r gosodiad newydd, e.e.:

Roedd e/o yn y swyddfa tan naw o'r gloch.

Dw i'n credu/meddwl ei fod e'n/o'n gweithio'n rhy galed.

- iii. Cynigiwch chi fersiwn wahanol eto o'r gosodiad trwy ddisodli'r un elfen, e.e. *Ro'n i yn y swyddfa tan naw o'r gloch*, a gofynnwch i un o'r dysgwyr roi ymateb addas.
- iv. Ailadroddwch y camau uchod gyda'r tri gosodiad sy'n dilyn, yna gofynnwch i barau fynd trwy'r pedair eitem gyntaf gan ymarfer disodli'r elfennau perthnasol yn y gosodiad a'r ymateb.
- v. Gofynnwch i un o'r dysgwyr ddarllen y cwestiwn nesaf – *Beth/Be wyt ti'n feddwl o'r tŷ bwyta newydd 'na yn y dre?* a rhowch chi ymateb priodol, e.e. *Dw i'n meddwl ei fod e'n/o'n hyfryd.*
- vi. Gofynnwch i barau fynd trwy'r pedair eitem olaf, gan gynnig ymatebion priodol iddynt fel y maent cyn mynd ymlaen i ddisodli'r elfen sydd mewn print bras a rhoi ymatebion priodol i'r fersiynau newydd.

Darllenwch dros yr adran Help Llaw. Esboniwch sut mae 'bod' (gyda'r rhagenw a'r treigladd priodol) yn cymryd lle ffurfiau presennol neu amherffaith y ferf pan fydd cymal ychwanegol ar ddechrau'r frawddeg. Tynnwch sylw hefyd at y duedd i ollwng y rhagenw blaen ar lafar, neu hyd yn oed i ddefnyddio 'bo' ar gyfer pob person.

Cam 5: Gwrando a Gwyllo

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gweithgaredd Gwrando/Fideo.

Cam 6: Siarad

Arweiniwch drafodaeth ar farn am ddarnau celf cyhoeddus. Gellir dechrau trwy ofyn am a nodi enghreifftiau o gelf gyhoeddus yn eich ardal chi cyn symud ymlaen i drafod barn amdanynt.

Cam 7: Gwaith Cartref

Pwysleisiwch bod angen i bawb ddod â rhywbeth diddorol o'u cartref i'r dosbarth nesaf i'w drafod.

Uned 5 – Atodiad 1 – Cardiau sgwrsio



Tasech chi'n gweld hanner can punt ar y llawr tu fas/allan i siop,....?

Tasai hi'n dechrau bwrw glaw yn drwm ac'ch bod chi heb got/gôt,....?

Tasech chi'n gweld eich hoff actor/actores ar fwrdd arall yn yr un tŷ bwyta â chi,....?

Tasech chi'n cael bod yn Brif Weinidog am ddiwrnod,....?

Tasech chi'n deffro un bore a sylweddoli eich bod chi wedi anghofio pen-blwydd eich gŵr/gwraig/partner/ffrind gorau,....?

Tasech chi'n gwybod ei bod hi'n mynd i fwrw glaw bob dydd ym mis Awst,....?

Tasai'ch car chi'n cael olwyn fflat ar eich ffordd i gyfarfod pwysig,....?

Tasai Cymru'n cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Byd,....?

Tasech chi'n llosgi'r bwyd wrth baratoi pryd o fwyd i ffrindiau,....?

Tasech chi'n cael cynnig swydd yn Dubai,....?

Uned 6 – Canllaw i'r Tiwtor

Nod yr uned yw adolygu atebion ac ymatebion bod a helpu'r dysgwyr i drafod themau'r mor.

Cam 1 – adolygu'r uned ddiwethaf

- i) Byddwch chi wedi gofyn i'r dysgwyr ddod â gwrthrych o'u cartref i'r wers, sef llun neu addurn o ryw fath. Gofynnwch iddyn nhw siarad am y llun neu'r gwrthrych gyda'u partner, neu o flaen y dosbarth cyfan. Neu gellid gwneud y ddau beth – ymarfer gyda phartner cyn siarad o flaen y dosbarth cyfan. Byddai'n syniad da yn y lle cyntaf i'r tiwtor ddangos llun neu wrthrych o'i gartref a dweud ychydig amdano, fel patrwm i'r lleill. Rhowch ddigon o gyfle iddynt siarad yn rhydd. Os mai dim ond trafod gyda phartner fydd yn digwydd, gall y dysgwyr adrodd yn ôl i'r dosbarth am wrthrychau ei gilydd, e.e.

Mae ____ wedi dod â llun o'i fam-gu i mewn. Mae'n credu ei fod e'n hen iawn. Cafodd e ei dynnu tua 1920.../ Mae ____ wedi dod â llun o'i nain i mewn. Mae'n meddwl ei fod o'n hen iawn. Mi gaeth o ei dynnu tua 1920...

- ii) I ymarfer y cymal enwol, rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch lun diddorol i bob pâr, wedi'i dorri o bapur newydd cyfredol. Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r llun, a dweud tri pheth amdano gan ddefnyddio'r cymal enwol. Er enghraifft:

..... yw/ydy hon.

'Dyn ni'n credu/Dan ni'n meddwl ei bod hi'n gantores.

Falle ei bod hi'n/Ella bod hi'n byw yn Los Angeles.

'Dyn/Dan ni'n meddwl ei bod hi/bod hi wedi ennill Grammy neithiwr.

Cam 2 – adolygu atebion

- i. Rhannwch y dosbarth yn barau, a rhowch gopi o'r cardiau atebion iddynt. Gofynnwch iddynt ofyn y cwestiynau i'w gilydd, gan sicrhau bod yr ymatebion yn ramadegol gywir. Dylech eu hannog i ymhelaethu a sgwrsio ar ôl ateb.
- ii. Gofynnwch iddynt wneud yr ymarfer pelmaniaeth sydd yn eu gwrslyfrau. Yna, gallent ddweud y brawddegau wrth ei gilydd, fel deialog – gan guddio'r atebion.
- iii. Ewch trwy'r 'Help Llaw' fesul Adran:
- 1) Atebion lle mae'n rhaid chwilio am y ferf** – does dim byd newydd yma.
- 2) Y gwahaniaeth rhwng 'Ydy' ac 'Oes'**. Esboniwch fod 'oes' yn cyfateb i 'yes there is/are' ac 'ydy/ydyn/ydych' ac ati yn atebion penodol. Yna, gwnewch ddril syml i ymarfer defnyddio 'oes', 'ydy' ac 'ie' megis y dril isod. Mae'r dosbarth yn ymateb i osodiadau'r tiwtor:

Mae llyfr/Mae 'na lyfr ar y bwrdd	Oes
Mae'r llyfr coch ar y bwrdd	Ydy
Mae dau lyfr/Mae 'na ddau lyfr ar y bwrdd	Oes
Mae llyfr John ar y bwrdd	Ydy
Y llyfr coch sy ar y bwrdd?	le/la

Oes cadeiriau/Oes 'na gadeiriau yma?	Oes
Mae cadeiriau/Mae 'na gadeiriau i bawb	Oes
Mae'r gadair yn gyfforddus	Ydy
Mae cadair John yn gyfforddus	Ydy
I fi mae'r gadair yma?	le/la

Mae cas pensiliau gyda fi/Mae gen i gas pensiliau	Oes
Mae'r cas pensiliau fan hyn	Ydy
Mae cas pensiliau John yma	Ydy
Fy nghas pensiliau i yw/ydy hwn	le

Ceir dril arall, tebyg yn Llyfr y Dysgwr.

3) Ymatebion Do / Naddo (gorffennol cryno) ac le / Nage, la / Naci (pwyslais)

Edrychwch ar yr enghreifftiau ac esboniwch bod modd defnyddio 'Do' i ateb cwestiynau sy'n cynnwys 'Wedi bod' yn y gogledd, e.e. 'Wyt ti wedi bod yn Stadiwm y Principality?' – Do/Naddo

Yna, gofynnwch iddynt wneud yr ymarfer Do/Naddo ac le/Nage, la/Naci mewn parau. Rhaid iddynt gymryd tro i ateb cwestiynau, yna llenwi'r bylchau yn eu gwerslyfrau.

Cam 3 – Ymestyn

Mae'r dasg ymestynnol yn Atodiad 2. Esboniwch fod angen cyfieithu'r cwestiynau a'r atebion (gan ddefnyddio'r ffurfiau cywir). Dyma'r atebion:

Atebion

- Oes lle/Oes 'na le i un arall?
– Nac oes, mae'n flin gyda fi/mae'n ddrwg gen i
- Ydy pawb yma?
– Nac ydyn
- Catrin yw'r/ydy'r rheolwraig
– le/la
- Alli/Fedri di weld y lleuad?
– Galla/Medra
- 'Dyn/Dan ni'n troi i'r dde?
– Nac ydyn/Nac ydan, 'dyn/dan ni'n troi i'r chwith
- Oes llysenw gyda ti?/Oes gen ti llysenw?
– Nac oes

7. Oes adar/Oes 'na adar yn y goedwig?
– Oes
8. Ydy e'n/o'n hoffi llyfrau ffeithiol?
– Nac ydy, mae e'n/o'n hoffi nofelau.
9. Mae llawer/Mae 'na lawer o lygredd yn yr afon
– Oes
10. Gawn ni fwydo'r anifeiliaid?
– Cawn

NEU

- 'Dyn/dan ni'n cael bwydo'r anifeiliaid?
- Ydyn/Ydan

Cam 4 – Cyflwyno'r Thema: Storom Eirfa

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eiriau sy'n cyd-fynd â thema'r Uned, sef Y Môr. Nodwch y geiriau hyn ar y bwrdd, a rhoi digon o gyfle iddynt i siarad am y geiriau. Yn y broses adrodd yn ôl, gellir gofyn yn benodol am ansoddeiriau i ddisgrifio'r môr, bywyd gwyllt y môr a'r lan, gweithgareddau ar y môr, swyddi cysylltiedig â'r môr, daearyddiaeth y lan (*twyni, ogofâu, clogwyni, aber* ac ati), enwau'r moroedd a'r cefnforoedd, hoff a chas bethau am y môr ac yn y blaen. Mae'n codi sawl pwynt ieithyddol hefyd e.e. - *od* yn derfyniad lluosog ar nifer o anifeiliaid, treiglo mewn geiriau cyfansawdd megis *gwyrddlas* a *glaslwyd*, ynganu'r ôl-ddodiad lluosog - *wyr*, cenedl enwau ac ati.

Cam 5 - Darllen

Llongdrylliad y Royal Charter

- i. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, ar ôl sicrhau eu bod yn deall geirfa ac idiomau'r darn, gofynnwch iddyn nhw ymateb i'r gosodiadau o dan y darn darllen. Rhaid iddynt gytuno neu anghytuno â'r gosodiadau, gan ddefnyddio'r geiriau cywir i ateb (oes, nac oes ac ati).
- ii. Mae ymarfer cyfieithu syml (i'r Saesneg) i gadarnhau ystyr yr idiomau.
- iii. Gofynnwch iddynt feddwl am eiriau/ymadroddion sy'n cynnwys 'pen'. Efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth i wneud hyn; gallech ddweud wrthynt am ystyried rhannau'r corff (penelin, pen-ôl ac ati).
- iv. Tynnwch sylw at yr ymadroddion: **gweddill y teithwyr, safle'r drychineb** a **safle'r llongdrylliad** sy'n ymddangos yn y darn. Mae cyfle yma i ymarfer defnyddio'r fannod yn gywir, ac ymarfer gwall a gaiff ei ffosileiddio'n aml. Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu'r ymadroddion hyn:

The site of the accident	safle'r ddamwain NID Y safle o'r ddamwain!!
The rest of the sand	gweddill y tywod
The night of the party	noson y parti
The passengers of the ship	teithwyr y llong
The captain of the ship	capten y llong

- v. Arweiniwch drafodaeth ar fordeithiau. Ydyn nhw'n mwynhau bod ar gwch neu long? Ydy'r môr yn codi ofn arnyn nhw? Ydyn nhw'n teimlo'n sâl wrth fynd ar y môr? Ac ati...

Cam 6 – Gwrando, Stori Cantre'r Gwaelod

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau gwrando. Ar ôl ateb y cwestiynau, gallech arwain sgwrs ar bynciau sy'n codi o'r stori e.e.:

- Ydyn nhw'n meddwl bod elfen o wirionedd yn stori Cantre'r Gwaelod? Esboniwch fod darnau darllen ychwanegol ar-lein ynglŷn â hynny.
- Ydyn nhw'n gyfarwydd ag ardal Bae Ceredigion, ac wedi bod am wyliau i'r ardal honno?
- Trafodwch y llun yn y gwrslyfr o dywydd garw ym Mae Ceredigion. Ydyn nhw'n poeni am dywydd eithafol fel hyn? Ydyn nhw'n poeni bod lefelau'r môr yn codi?
- Ydyn nhw wedi cael eu dal mewn llifogydd o'r blaen?

Mae copi o'r sgrïpt yn Atodiad 3.

Cam 7 – Darllen 'Clychau Cantre'r Gwaelod'

Esboniwch yr eirfa sydd wedi'i nodi yn y gwrslyfr, a dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Esboniwch mai rhan gyntaf y gerdd yn unig yw hon, a bod modd iddynt ddarllen y gerdd yn ei chyfanrwydd yn yr uned ar-lein.

- i. Ar ôl sicrhau bod pawb yn deall y gerdd, rhannwch nhw'n grwpiau a rhowch set o'r cardiau lluniau i bob grŵp. Mae'r lluniau yn Atodiad 4. Gofynnwch iddynt baru'r lluniau gyda llinell briodol yn y gerdd.

O dan y môr a'i donnau	[llun o dan y môr; pysgod ac ati]
Mae llawer dinas dlos	[llun dinas]
Fu'n gwrando ar y clychau	[llun clust]
Yn canu gyda'r nos;	[llun sêr a lleuad]
Trwy ofer esgeulustod	[llun rhywun yn dawnsio'n feddw]
Y gwylwr ar y tŵr	[llun tŵr]
Aeth clychau Cantre'r Gwaelod	[llun clychau]
O'r golwg dan y dŵr.	[llun o dan y môr; pysgod ac ati]

Ar ôl edrych ar y lluniau, gallech chi ddechrau trafodaeth fel hyn: Mae'r gerdd hon yn cael ei dysgu gan lawer o blant mewn ysgolion, ac yn cael ei chanu hefyd. Dych chi'n cofio dysgu cerddi yn yr ysgol? Dych chi'n cofio rhai ohonyn nhw? Ydy hi'n bwysig dysgu cerddi ar ein cof? Dych chi'n hoffi barddoniaeth? I chi, oes rhaid i gerdd odli, fel 'Clychau Cantre'r Gwaelod'? Neu ydy'r ystyr yn bwysicach na'r sŵn?

Cam 8 - Gwylio a Gwrando

Darn gwylio o raglen 'Codi Pac'.

Uned 6 – Atodiad 1 – Cardiau Ateb

<p>Oes anifail anwes gyda chi/Oes gynnoch chi anifail anwes?</p>	<p>Oes / Nac oes</p>	<p>Fasech chi'n mwynhau mynd i oriel gelf?</p>	<p>Baswn / Na faswn</p>
<p>Dych/Dach chi'n siopa ar-lein yn aml?</p>	<p>Ydw / Nac ydw</p>	<p>Cawn/ Mi gawn ni waith cartref heno</p>	<p>Cawn / Na chawn neu Cewch / Na chewch</p>
<p>Ydy eich gardd chi'n fawr?</p>	<p>Ydy / Nac ydy</p>	<p>Oes diddordeb gyda chi yn y sêr?/ Sgynnoch chi ddiddordeb yn y sêr?</p>	<p>Oes / Nac oes</p>
<p>Fyddwch chi'n mynd dramor eleni?</p>	<p>Bydda / Na fydda</p>	<p>Fyddwch chi'n gweithio fory?</p>	<p>Bydda / Na fydda</p>

Fuoch chi dramor llynedd?	Do / Naddo	Wnaethoch chi ganu mewn côr yn yr ysgol?	Do / Naddo
Gyrru yma wnaethoch chi?	Ie/Nage Ia/Naci	Tost gawsoch chi i frechwast?/ Tôst gaethoch chi i frechwast?	Ie/Nage Ia/Naci
Fydd hi'n braf fory?	Bydd / Na fydd	Wela i chi wythnos nesaf?	Gwnewch/ Wnewch Na wnewch
Maen nhw'n dweud bod storm ar y ffordd	Ydyn / Nac ydyn	Dych chi'n byw yn agos i fan hyn?/ Dach chi'n byw yn agos i fama?	Ydw / Nac ydw

Uned 6 – Atodiad 2 – Ymestyn

Ymestyn

Cyfieithwch y brawddegau hyn

1. – *Is there room for one more?*
– *No, I'm sorry*
2. – *Is everyone here?*
– *No*
3. – *Catrin is the manager*
– *Yes*
4. – *Can you see the moon?*
– *Yes*
5. – *Do we turn right?*
– *No, we turn left*
6. – *Do you have a nickname?*
– *No*
7. – *Are there birds in the forest?*
– *Yes*
8. – *Does he like factual books?*
– *No, he likes novels.*
9. – *There is a lot of pollution in the river*
– *Yes*
10. – *Are we allowed to feed the animals?*
– *Yes*

Uned 6 – Atodiad 3 – Darn Gwranddo

Cantre'r Gwaelod

Amser maith yn ôl, roedd Bae Ceredigion yn dir sych. Enw'r tir yma oedd Cantre'r Gwaelod. Roedd yn lle hyfryd i fyw ac roedd digon o ffrwythau a llysiau blasus yn tyfu yno drwy'r flwyddyn.

Brenin Cantre'r Gwaelod oedd Gwyddno Garan Hir, ac roedd yn frenin da.

Yn anffodus, roedd Cantre'r Gwaelod ar dir isel ac roedd morglawdd anferth wedi cael ei adeiladu i gadw'r môr allan. Roedd drysau yn y morglawdd i adael i ddŵr yr afon lifo allan pan oedd y môr ar drai, ond roedd rhaid cau'r drysau pan oedd y llanw'n codi. Roedd rhaid i rywun sefyll yn y tŵr bob amser i wyllo lefel y môr, a gwneud yn siŵr bod y drysau ar gau pan oedd y môr yn codi.

Y person oedd yn gwneud y gwaith pwysig yma oedd dyn o'r enw Seithenyn, a doedd e ddim yn berson addas i wneud y gwaith, a dweud y gwir. Roedd Seithenyn yn ddiog ac yn esgeulus, ac roedd e wrth ei fodd yn yfed a meddwi.

Un noson, roedd gwledd fawr yng nghastell Gwyddno Garan Hir, a phawb yn mwynhau digon o fwyd, diod, canu a dawnsio. Hwn oedd y parti gorau ers blynyddoedd.

Roedd Seithenyn yn teimlo'n drist iawn yn sefyll yn y tŵr ar ei ben ei hun, yn colli'r holl hwyl a sbri.

"Af i lawr am funud fach i weld beth sy'n digwydd," meddyliodd. "Wnaiff hynny ddim drwg."

Aeth i gefn y neuadd, ac yfodd wydraid bach o win... ac un bach arall... ac un bach arall...

Cyn hir, roedd Seithenyn wedi anghofio'n llwyr am y drysau. Roedd y llanw wedi troi ac roedd hi'n noson stormus. Yn araf bach, dechreuodd y dŵr lifo i mewn.





Doedd neb yn y wledd yn gallu clywed sŵn y dŵr yn llifo. Ond yna - CRAC! – torrodd y morglawdd!

Gwaeddodd rhywun, "Mae'r môr yn dod i mewn! Brysiwch! Rhedwch i'r bryniau!"

Ond roedd yn rhy hwyr. Roedd y môr wedi codi'n uchel, a'r tonnau'n chwalu tai a ffermydd Cantre'r Gwaelod, a chastell hardd Gwyddno Garan Hir.

Dim ond ychydig o bobl wnaeth ddianc. Diflannodd Cantre'r Gwaelod o'r golwg am byth. Ond weithiau, ar noson dawel, gallwch chi glywed clychau Cantre'r Gwaelod yn canu dan y dŵr.

Uned 6 – Atodiad 4 – Cerdd Cantre'r Gwaelod



Uned 7 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Arferion

Nod yr uned yw dysgu sut i ddefnyddio cynffoneiriau a thrafod arferion (rhai da a rhai drwg).

Cam 1: Adolygu atebion

Gêm Gyflym ar Kahoot – adolygu atebion

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o 2-5 dysgwr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen). Dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i <https://kahoot.com/> a gwasgu'r ddolen 'Sign up' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('sign in') unrhyw bryd.

Mae'r gêm Atebion ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://play.kahoot.it/#/k/656da6ad-6845-41e0-9503-281117dd4a92>

Cyfres o ddeuddeg cwestiwn sydd yma gydag atebion aml-ddewis. Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu 'Play', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sydd yn gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gêm, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y cwestiynau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu ar un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar ddiwedd y 12 cwestiwn, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coronï'n bencampwyr!

Y ffordd orau i chi ddod i ddeall sut bydd y gêm yn gweithio ydy trwy roi cynnig arni eich hunan ymlaen llaw gyda chyfrifiadur a dyfais symudol! Mae canllaw Kahoot ar sut i chwarae yma: <https://kahoot.uservoice.com/knowledgebase/articles/949450-how-to-host-and-play-a-kahoot>

a/neu

Cwblhau'r cwestiwn - Rhannwch y dosbarth yn barau a gofyn iddynt gwblhau'r rhestr o gwestiynau sydd â bylchau ynddynt yn y cwrslyfr, gan sicrhau bod pob cwestiwn yn cyfateb i'r ateb sydd wedi ei roi ar ei gyfer. Gwrandewch a rhowch gymorth i'r parau yn ôl yr angen. Wedi iddynt gwblhau'r ymarfer, ewch trwy'r rhestr gyda'r dosbarth cyfan, gan ofyn i bob pâr yn eu tro adrodd cwestiwn (un partner) a'r ateb cyfatebol (y partner arall).

Wedyn, gofynnwch i'r parau fynd trwy'r rhestr eto gan droi pob cwestiwn yn frawddeg gadarnhaol. Tynnwch sylw at y ffaith bod modd defnyddio'r un atebion (neu'r atebion negyddol cyfatebol) i gytuno (neu anghytuno) â'r datganiadau. Ewch trwy'r rhestr gyda'r dosbarth cyfan fel uchod eto wedi i'r parau gwblhau'r ymarfer hwn.

Siarad – dis atebion - Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach o tua 3 neu 4 a rhowch ddis i bob grŵp. Gofynnwch iddynt gymryd eu tro i daflu'r dis a gofyn cwestiwn sy'n gallu rhoi'r ateb a nodir ar gyfer y rhif hwnnw ar y grid sydd yn yr uned. Dylai'r dysgwyr eraill yn y grŵp ateb y cwestiwn. Gofynnwch iddynt ymhelaethu ar eu hateb os bydd hynny'n bosibl. Gorau oll os oes cwestiwn yn esgor ar drafodaeth estynedig o fewn y grŵp. Cyn rhoi'r grwpiau ar waith, gallwch enghreifftio'r hyn a ddisgwyliwch yn y gweithgaredd trwy daflu dis a gofyn cwestiwn priodol i ddau neu dri o ddysgwyr (a thrafod ymhellach ar sail eu hatebion).

Cam 2: Darn Darllen – Arferion Gwael/Drwg

1. Cyn darllen y darn, soniwch beth yw cynffoneiriau - y geiriau (neu'r 'tags') 'dyn ni'n eu hychwanegu fel cynffonau ar ddiwedd brawddegau weithiau i'w troi nhw'n gwestiynau. e.e. Roedd hi'n braf ddoe, on'd oedd hi?
2. Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen, a
 - i. Gofynnwch ba gynffoneiriau sydd yn y darn.
 - ii. Trafodwch yr ymadrodd 'o'n cwmpas ni' a gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i roi'r ffurfiau priodol ar gyfer 'o gwmpas' ar gyfer y rhagenwau gwahanol.
 - iii. Tynnwch sylw at y ffaith bod yr arddodiaid *ar ôl*, *ar bwys ac uwchben* yn newid yn yr un ffordd a gofynnwch i'r dysgwyr gynnig beth yw '*after us*', '*near us*' ac '*above us*' yn Gymraeg?

Cam 3: Siarad

Cyflwynwch yr ymadroddion defnyddiol y gellir eu defnyddio wrth drafod arferion gwael pobl (dyma'ch cyfle i ddweud eich dweud am rai arferion). Yna, esboniwch eich bod am i bawb fynd trwy'r rhestr rhestr o arferion gwael a rhoi sgôr o 0 i 5 i bob un (0 = poeni dim arna i, 5 = mynd ar fy nerfau i'n ofnadwy). Wedi iddynt wneud hynny, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch iddynt drafod eu sgoriau a'u hymateb i'r arferion sydd wedi'u rhestru. Unwaith eto, gallwch enghreifftio'r math o ymateb a ddisgwyliwch; e.e.:

'Dw i wedi rhoi sgôr o 5 i "cyrraedd yn hwyr" – mae pobl sy'n cyrraedd yn hwyr i rywle yn dân ar fy nghroen i achos mae'n golygu fy mod i a phawb sy'n cyrraedd yn brydlon yn gwastraffu amser yn aros am bobl sy'n hwyr.'

Estynnwch y drafodaeth ymhellach trwy ofyn am arferion eraill sy'n mynd ar nerfau'r dysgwyr cyn trafod pa rai o'r arferion gwael hyn (neu rai eraill) mae aelodau'r dosbarth yn euog o'u cyflawni.

Cam 4: Cynffoneiriau

Bydd y dysgwyr wedi cael rhagymadrodd i gynffoneiriau yn y Darn Darllen. Gan fod hwn yn waith newydd i lawer, gwnewch y dril yn y cwrslyfr sy'n canolbwyntio ar y cynffoneiriau sydd eisoes wedi codi yn y Darn Darllen. Wedyn darllenwch drwy'r Help Llaw.

Gofynnwch i barau wneud yr ymarfer sydd yn y gwerslyfr i ychwanegu cynffoneiriau at y brawddegau a roddir.

Yna dosbarthwch setiau o gardiau â'r brawddegau/cynffoneiriau (Atodiad 1) i bob grŵp o 3/4 dysgwr er mwyn chwarae gêm 'pelmanisms'. Sicrhewch bod y cardiau wedi eu cymysgu'n drylwyr cyn i bob grŵp wasgaru'r cardiau â'u hwyneb i lawr o'u blaenau. Bydd pawb yn y grŵp yn cymryd ei dro i godi dwy garden a darllen (yn uchel) beth sydd arnynt. Os byddant yn codi pâr o gardiau yn cynnwys brawddeg a'r gynffon briodol gyda'i gilydd, cânt gadw'r pâr a dewis pâr arall o gardiau. Ond os na fydd dwy garden gyfatebol gyda nhw, bydd rhaid eu dychwelyd i'w lle a chaiff y dysgwr nesaf dro i godi pâr o gardiau. Pwy bynnag fydd â'r nifer fwyaf o barau wedi i'r holl gardiau gael eu casglu fydd yr enillydd.

Cam 5: Gwranddo a Gwyllo

- i. Esboniwch bod Alun a Mari yn siarad ar ddechrau'r clip ar y sofffa yn stiwdio Heno a'u bod yn mynd i gyflwyno Yvonne sydd yn siarad ag Anna yn y gampfa. Chwaraewch y clip i'r dosbarth heb osod unrhyw dasg yn gyntaf.
- ii. Ewch dros yr eitemau geirfa/ymadroddion sydd yn y tabl cyntaf a gofynnwch i'r dysgwyr nodi pryd mae pob un o'r siaradwyr yn eu dweud.
- iii. Gofynnwch i'r dysgwyr mewn parau neu grwpiau bach i fynd trwy'r geiriau ymadroddion sydd ar y chwith yn yr ail dabl a'u cysylltu â'r ymadrodd ar y dde sy'n cyfateb orau. Mae'r diffiniadau ar gyfer 'canmol' a 'chwarae teg iddyn nhw' yn debyg iawn a gall hynny esgor ar drafodaeth. Wedi cytuno ar yr atebion (neu gytuno i anghytuno!), gwylwch y clip eto ac wedyn trafodwch y defnydd a wneir o'r ymadroddion hyn yn y clip.
- iv. Gofynnwch i'r grwpiau drafod y tri chwestiwn am gynnwys y clip. Wedi rhyw 2-3 munud, chwaraewch y clip eto a gofyn iddyn nhw gadarnhau eu hatebion i'r cwestiynau hyn.

Cam 6: Siarad

Arweiniwch drafodaeth ar addunedau ac arferion cadw'n heini/iach, gan gyfeirio at y cwestiynau a roddir yn y llyfr.

Uned 7 – Atodiad 1 – Cardiau cynffoneiriau

Rwyt ti'n rhedeg bob nos	on'd wyt ti/twyt?
Bydd y llanw i mewn am hanner nos,	on' bydd e/on' bydd?
Gaethon nhw/Mi gaethon nhw gymeradwyaeth gynnes,	on'd do fe/on'd do?
Does dim rhaid i chi gweryla drwy'r amser,	oes e/nac oes?

**Maen nhw'n boblogaidd
iawn y dyddiau 'ma,**

on'd ydyn nhw/tydyn?

Mae hi'n ofnadwy o oer,

on'd yw hi/tydy?

**Mae llawer o gefnogwyr
gyda nhw/Mae gynnyn nhw
lawer o gefnogwyr**

on'd oes e/toes?

Est ti ddim yn bell iawn,

do 'fe/naddo?

Roedd e/o'n camsefyll,

on'd oedd/toedd?

Uned 8 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Arwyr

Nod yr uned yw dysgu adolygu'r goddefol a thrafod arwyr.

Cam 1: Gweithgaredd i adolygu cynffoneiriau

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i lenwi'r bylchau yn y ddeialog hon gyda'r cynffoneiriau cywir. Yna, gofynnwch iddynt wneud y ddeialog, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran.

Cam 2: Gwaith llafar

Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n cytuno bod y gair 'arwr' yn cael ei or-ddefnyddio? Ydyn nhw'n credu ei fod yn air addas i ddisgrifio sêr o fyd y campau? Pwy yw eu harwyr nhw nawr, a phwy oedd eu harwyr pan oeddent yn blant?

Cam 3: Adolygu ffurfiau llafar y goddefol

- i. I ddechrau, gofynnwch y cwestiynau isod i'r dysgwyr i ymarfer y patrymau, e.e.
Ble cawsoch chi eich geni?/Lle gaethoch chi eich geni?
Ble cawsoch chi eich magu?/Lle gaethoch chi eich magu?
Ble cafodd eich car chi ei wneud?/Lle gaeth eich car chi ei wneud?
Pryd cafodd eich tŷ chi ei baentio ddiwetha?/Pryd gaeth eich tŷ chi ei baentio ddiwetha?
Pryd dych chi'n cael eich talu?/Pryd dach chi'n cael eich talu?
- ii. Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn paruau, a gofyn y cwestiynau i'w gilydd. Efallai y bydd angen nodi'r cwestiynau ar y bwrdd gwyn. Bydd angen iddynt adrodd yn ôl yn y trydydd person wedyn e.e. Cafodd hi/Mi gaeth hi ei geni yng Nghaerdydd. Mae hi'n cael ei thalu ar ddiwrnod olaf y mis. Mae hwn yn gyfle i adolygu'r treigladau.
- iii. Gwnewch ymarfer disodli ar y bwrdd gwyn, gan ofyn iddynt newid y geiriau sydd wedi'u tanlinellu:

Mae'r tŷ yn cael ei addurno
Cafodd/Mi gaeth y plant eu hyfforddi
Bydd/Mi fydd yr ysgol yn cael ei thacluso
Cawn/Mi gawn ni ein dysgu

... ac unrhyw enghreifftiau eraill y gallwch feddwl amdanynt a allai fod yn berthnasol i'r dosbarth.

- iv. Trowch at y dril yn llyfr y dysgwyr. Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am atebion posib cyn gwneud y gwaith ar lafar. Ceir atebion posib isod:

Mae digon o arian gyda fe/	
Mae gynno fo ddigon o bres	Cafodd e/Mi gaeth o ei dalu ddoe
Mae e/o yn swyddfa'r heddlu	Cafodd e/Mi gaeth o ei arestio ddoe
Mae e/o yn y carchar	Cafodd e/Mi gaeth o ei garcharu ddoe
Mae platar ar ei goes	Cafodd e/Mi gaeth o ei anafu ddoe
Dyw'r/Dydy'r llythyr ddim wedi cyrraedd	Cafodd e/Mi gaeth o ei bostio ddoe
Mae llyfr newydd gan Sam Jones yn y siopau	Cafodd e/Mi gaeth o ei gyhoeddi ddoe
Does dim gwaith gyda fe/	
Does gynno fo ddim gwaith	Cafodd e/Mi gaeth o ei ddiswyddo ddoe

Er mwyn cael ymarfer pellach ar lafar, gellir troi'r brawddegau uchod yn rhai lluosog – Mae digon o arian gyda nhw/Mae gynnyn nhw ddigon o arian ac ati.

- v. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r manylion am John F. Kennedy a Grace Kelly, gan weithio mewn parau. Mae manylion Dic Penderyn a'r Dywysoges Gwenllian ar gael hefyd. Efallai y bydd angen esbonio pwy yw Dic Penderyn a'r Dywysoges Gwenllian, ac egluro ystyr y gair 'crogi'. Nid yw man claddu Gwenllian yn hysbys.
- vi. Y goddefol a chenedl enw - Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Rhowch ddau ddarn o bapur lliw gwahanol iddynt – un ar gyfer y geiriau gwrywaidd ac un ar gyfer y geiriau benywaidd.
Galwch allan y geiriau isod - rhaid i'r grwpiau benderfynu p'un ai a ydyn nhw'n eiriau gwrywaidd ynteu benywaidd a rhoi'r geiriau ar y papur cywir:

tŷ	cadair	car	bwrdd	cot
ysgol	pen	blwyddyn	parti	Nadolig

Yna, rhaid i'r grwpiau feddwl am eiriau i gyd-fynd â'r geiriau e.e.

Tŷ bach
Cadair freichiau
Car cyflym
Bwrdd coffi

Wedi hynny, dylent ddewis 5 o'r setiau geiriau a llunio brawddegau goddefol (yn y presennol) gyda nhw, e.e. 'Mae'r tŷ bach yn cael ei drwsio heddiw'; 'mae'r ysgol feithrin yn cael ei haddurno ar hyn o bryd'.

Mae lle i'r dysgwyr nodi eu 5 brawddeg yn y gwrslyfrau.

Edrychwch ar yr adran Help Llaw gyda'r dysgwyr, gan sicrhau bod pawb yn deall y treigladau.

Ymestyn

Tasg i ymarfer defnyddio'r goddefol.

Ceir sgript bwletin newyddion yn Atodiad 1. Nid yw'r goddefol yn cael ei ddefnyddio yn y bwletin. Nod y dasg yw creu brawddegau goddefol gan ddefnyddio gwybodaeth o'r bwletin. Mae berfau i helpu'r dysgwyr yn Atodiad 2 (dylid rhoi copi i bob dysgwr).

Darllenwch y bwletin i'r dysgwyr, gan roi amser iddynt rhwng pob stori newyddion i greu'r brawddegau. Efallai y bydd angen i chi wneud y frawddeg gyntaf er mwyn esbonio'r dasg.

Dyma'r atebion:

Bwletin 1:

Llosgi	Cafodd/Mi gaeth llyfrgell yr ysgol ei llosgi
Achub	Cafodd/Mi gaeth tri aelod o staff eu hachub
Anafu	Cawson nhw/Mi gaethon nhw eu hanafu pan gwmpodd/syrthiodd rhan o'r nenfwd i lawr

Bwletin 2:

Achub	Cafodd/Mi gaeth dau ddyn eu hachub
Galw	Cafodd/Mi gaeth y Tîm ei alw ['eu galw' hefyd yn dderbyniol] am bump o'r gloch
Rhybuddio	Cawson nhw/Mi gaethon nhw eu rhybuddio i beidio â mentro i ben yr Wyddfa.

Bwletin 3:

Trechu	Cafodd/Mi gaeth yr Eryrod eu trechu
Cosbi	Cafodd/Mi gaeth Sam Williams ei gosbi am dacl wael
Beirniadu	Cafodd/Mi gaeth perfformiad yr Eryrod ei feirniadu / Cafodd/Mi gaeth yr Eryrod eu beirniadu

Cam 4: Gwyllo a Gwranddo

Mae dau ddarn cysylltiedig yma. Mae'r cyntaf yn adroddiad newyddion wedi'i symleiddio, yn sôn am farwolaeth Eileen Beasley ac yn rhoi hanes ei hymgyrch hi a'i gŵr. Mae copi o'r sgript yn Atodiad 3.

- i. Cyn gwranddo ar yr adroddiad, esboniwch ystyr yr eirfa. Yna, wrth wrando, dylid cylchu'r eirfa wrth glywed y geiriau.
- ii. Ar ôl gwranddo 2-3 gwaith, gofynnwch i bawb nodi arwyddocâd y rhifau, sef:

91	Oedran Eileen Beasley pan fu farw.
1952	Dyna pryd y dechreuodd yr ymgyrch
12	Aethon nhw o flaen llys dros ddwsin o weithiau
3	Cymerodd y bwmbelliaid eu heiddo dair gwaith
2	Roedd ganddyn nhw ddau o blant
1960	Dyna pryd y cawson nhw fil treth dwyieithog.

- iii. Wedyn, dylid mynd ymlaen i weithio mewn partneriaid i lenwi'r bylchau yn y tabl. Efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth i sillafu rhai o'r geiriau, e.e. cystadleuaeth.
- iv. Yr ail ddarn yw cyfweiliad (ffilm) â Trefor ac Eileen Beasley. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau gwranddo / gwyllo a gwranddo.
<http://www.bbc.co.uk/education/clips/z3fxpv4>

Nid oes llawer o eirfa gymhleth yma, ond bydd angen esbonio elfennau tafodieithol e.e. 'whar yng nghyfreth' a 'hala fe mas'. Gair diddorol hefyd yw bwmbelliaid, sy'n dod o'r Saesneg 'Bum-bailiff'.

Dafydd Iwan sy'n canu'r gân ar ddechrau'r eitem ('Daw Fe Ddaw yr Awr yn Ôl i Mi'). Mae hi'n cyfeirio at lawer o ddigwyddiadau allweddol yn hanes y Gymraeg (y Beasleys, Pont Trefechan ac ati). Byddai'n syniad da esbonio pwy yw Dafydd Iwan a rhoi ychydig o'i gefndir i'r dysgwyr, gan ei fod yn ffigwr Cymraeg mor adnabyddus.

Ar ôl sicrhau eu bod wedi deall y cyfweiliad, gofynnwch iddynt drafod yr ymadroddion sydd wedi'u nodi yn eu gwerslyfrau (mewn partneriaid) a cheisio esbonio eu hystyr. Ar ôl gadael iddynt geisio dyfalu, rhowch eich esboniad eich hun iddynt.

Ceir dau ymarfer yn seiliedig ar y darn – nodi lluosog geiriau ac ateb y cwestiwn.

Os oes gan y dysgwyr ddiddordeb mawr, gellid sôn wrthynt am lyfr Carreg Gwalch 'Darn Bach o Hanes', sef hanes Teulu'r Beasleys ar gyfer pobl ifainc yn eu harddegau. Mae nodiadau i helpu ar wefan Gwasg Carreg Gwalch - http://www.carreg-gwalch.com/UserFiles/File/darn_bach_o_bapur.pdf.

Cam 5: Siarad

Mae llawer o destunau trafod posib yn codi:

- Fasech chi'n protestio am unrhyw beth?
- Beth yw 'mynd â'r maen i'r wal'. All y dysgwyr feddwl am enghraifft pan wnaethant 'fynd â'r maen i'r wal'?
- Ydy'r dysgwyr yn derbyn biliau Cymraeg/dwyieithog? Ydyn nhw'n gofyn am unrhyw wasanaeth yn Gymraeg?
- Sut maen nhw'n teimlo wrth ofyn am rywbeth yn Gymraeg? Neu os nad ydyn nhw'n gofyn am bethau yn Gymraeg, tybed a ydyn nhw'n gofyn am rywbeth mewn fformat gwahanol e.e. print mawr? Pa mor hawdd yw hynny?
- **Mae'r gân yn y cefndir (gan Dafydd Iwan) yn dweud 'Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi'. Pa ddigwyddiadau pwysig dych chi'n eu cofio?** E.e. marwolaeth ffigwr eiconig, Wal Berlin yn dod i lawr ac ati...

Cam 6: Darllen 'Tanni Grey Thompson'

Mae'n ddarn syml, ond rhaid llenwi'r bylchau cyn medru darllen y darn. Mae'r bylchau i gyd yn profi'r goddefol. Rhowch amser i'r dysgwyr weithio mewn parau i lenwi'r bylchau cyn mynd ati i ddarllen y darn yn y ffordd arferol.

Cam 7: Siarad

Ceir yma gyfle i drafod pobl ddylanwadol yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Bydd yn ddiddorol gweld pa bobl sy'n ymddangos ar restrï mwy nag un grŵp. Dylid annog pobl i ddweud cymaint â phosib am y bobl hyn.

Uned 8 – Atodiad 1 – Ymestyn (Sgript)

Sgript Bwletin Newyddion [i'w darllen gan y tiwtor]

1. Roedd tân mewn ysgol yn Aberdâr neithiwr. Mae llyfrgell yr ysgol wedi llosgi'n ddifrifol. Aeth dau ddiffoddwr tân i mewn i'r ysgol i achub tri aelod o staff. Roedden nhw wedi cael anafiadau pan gwmpodd/syrthiodd rhan o'r nenfwd i lawr. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r diffoddwyr tân am ymateb yn gyflym ac yn ddewr.
2. Mae Tîm Achub Eryri wedi achub dau ddyn o ben yr Wyddfa. Roedd yn rhaid galw'r Tîm am bump o'r gloch ar ôl i un o'r dynion lithro a thorri ei goes. Roedd y dyn arall yn dioddef o hypothermia. Aeth ambiwlans â nhw i Ysbyty Gwynedd. Doedd y ddau ddyn ddim yn gwisgo dillad addas ar gyfer y tywydd oer ac roedd twristiaid eraill wedi eu rhybuddio nhw i beidio â mentro i ben yr Wyddfa.
3. Mae'r Teigrod wedi trechu'r Eryrod yn y bencampwriaeth bêl-droed yng Nghaerdydd. Enillodd y Teigrod o ddwy gôl i ddim, er bod Sam Williams y Capten wedi cael ei anfon o'r cae ar ôl tacl wael. Ianto Jones sgoriodd y gôl gyntaf, a Jac Evans yr ail. Roedd Richard Jenkins, Rheolwr yr Eryrod yn siomedig iawn gyda'r canlyniad ac mae cefnogwyr y tîm wedi beirniadu eu perfformiad gwael.

Uned 8 – Atodiad 2 – Ymestyn

Bwletin 1:

Llosgi

Achub

Anafu

Bwletin 2:

Achub

Galw

Rhybuddio

Bwletin 3:

Curo

Cosbi

Beirniadu

Uned 8 – Atodiad 3 – Sgript

Adroddiad Newyddion – marwolaeth Eileen Beasley

Dyma'r newyddion ar y deuddegfed o Awst, 2012

Bu farw Eileen Beasley, un o'r **ymgyrchwyr** cyntaf i fynd i'r llys i gael **statws cyfartal** i'r iaith Gymraeg.

Roedd Mrs Beasley yn 91 oed ac yn byw yn Henllan Amgoed ger Hendy-gwyn ar Daf yn Sir Gaerfyrddin.

Yn 1952 dechreuodd **ymgyrch** iaith Eileen a Trefor Beasley pan benderfynon nhw **wrthod** talu eu bil treth cyngor achos ei fod e'n Saesneg yn unig. Roedden nhw'n byw yn Llangennech ger Llanelli ar y pryd, lle'r oedd bron pawb yn siarad Cymraeg.

Aeth Eileen a Trefor o flaen llys dros ddwsin o weithiau. Daeth **bwmbeiliaid** i'w cartref dair gwaith a mynd â llawer o'u pethau i glirio'r **ddyled**. Roedd ganddyn nhw ddau o blant bach. Parodd yr achos am wyth mlynedd ond yn 1960 cawson nhw fil treth dwyieithog.

Uned 9 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Trefnu digwyddiad

Uned adolygu yw hon ac mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i adolygu patrymau iaith sydd wedi cael sylw dros yr unedau blaenorol ac yn ail-ymweld â rhai o'r eitemau geirfa ac idiomau a gododd yn yr unedau hynny. Bydd unedau adolygu'r cwrs yn cynnwys cyfle hefyd i aelodau'r dosbarth ddefnyddio'u Cymraeg wrth gyflawni rhywbeth ymarferol. Y dasg ymarferol yn yr uned hon yw trefnu digwyddiad codi arian. Wedi cwblhau gweithgareddau sy'n seiliedig ar destunau yn trafod digwyddiadau codi arian, gofynnir i'r dosbarth fynd ati go iawn i drefnu digwyddiad.

Cam 1: Siarad rhydd – trafod y newyddion

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i drafod yr hyn sydd yn y newyddion ar hyn o bryd. Dylid gofyn iddynt feddwl am dair stori ryngwladol, tair stori Brydeinig, tair stori Gymreig a nodi unrhyw beth lleol sy yn y newyddion. Dylid eu hannog i ddweud rhywbeth am bob stori a holi am fanylion.

Cam 2: Adolygu'r cymal enwol ac amserau amrywiol

Mae wyth brawddeg wedi eu hollti'n ddwy yn yr uned yn y cardiau yn Atodiad 1. Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer gweithgaredd pelmanism gyda'r cardiau. Wedi i'r paruau gael cyfle i weithio trwy'r cardiau, gofynnwch i bob pâr gyflwyno pob brawddeg yn ei thro i'r dosbarth cyfan. Efallai bod gwahanol gyfuniadau dilys yn bosibl, ond er gwybodaeth, mae'r brawddegau gwreiddiol wedi eu rhestru'n llawn isod. Pan fydd cyfuniadau gwahanol yn cael eu cynnig, trafodwch a ydynt yn bosibl yn ramadegol a/neu'n debygol o ran ystyr. Yn Llyfr y Dysgwr, ceir hanner cyntaf y frawddeg yn unig, gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r grid gyda'r ail hanner cywir fel bod cofnod ganddynt o'r brawddegau.

1. Bues i/Mi fues i yn Nhŷ Bwyta'r Hen Sgubor bythefnos yn ôl ac ro'n i'n meddwl bod y bwyd yn hyfryd.
2. Dw i'n mynd i'r Llew Coch bob nos Wener a dw i'n meddwl bod yr awyrgylch yn grêt yno.
3. Mae Dafydd yn hoffi mynd i'r Taj Mahal ac mae'n dweud bod y gwasanaeth yn ardderchog.
4. Aeth/Mi aeth Mair i'r Mochyn Pinc dydd Sadwrn ond doedd hi ddim yn meddwl bod y bwyd yn dda iawn.
5. Sa i wedi bod/Dw i ddim wedi bod yn y Rendezvous 'to ond dw i wedi clywed eu bod nhw'n gwneud pwdinau anhygoel!
6. Aeth/Mi aeth Dai ac Alun ma's/allan i Dafarn y Fuwch nos Sadwrn ond ro'n/roedden nhw'n teimlo ei bod hi'n dawel/ddistaw iawn yno.
7. Os nad wyt ti wedi cael te prynhawn yng Nghaffi Penbryn eto dw i'n meddwl ei bod hi'n hen bryd i ti fynd yno.
8. Maen nhw'n troi'r hen orsaf dân yn dŷ bwyta moethus a dwedodd Elin/ac mi ddudodd Elin ei bod hi wedi archebu bwrdd ar y noson agoriadol.

Fel cam i gloi'r gweithgaredd ac ymestyn y dosbarth, gellid gofyn iddyn nhw gyfieithu ail hanner y brawddegau, gan ymarfer y cymal enwol.

Cam 3: Aralleirio brawddegau

Mae pob un o'r ymadroddion sydd i'w gosod yn y bylchau yn yr ymarfer hwn wedi ymddangos yn un o unedau blaenorol y cwrs. Dywedwch hynny wrth y dysgwyr cyn darllen trwy'r ymadroddion a gofyn i barau drafod pa ymadrodd sy'n perthyn i ba frawddeg. Peidiwch â chynnig cyfieithiad neu ddiffiniad o unrhyw ymadrodd wrth eu cyflwyno gan mai eu sbarduno i gofio neu i ddod i gasgliad ynglŷn â'r ystyr yw pwrpas yr ymarfer (mae croeso, wrth gwrs, i chi esbonio'r termau 'aralleirio' a/neu 'ymadroddion'). Os ydych yn meddwl bod angen, gallech fynd dros y frawddeg gyntaf fel enghraifft cyn rhoi'r parau ar waith i drafod yr atebion a gallwch roi cymorth ac arweiniad i unrhyw bâr sy'n cael anhawster wrth fynd trwy'r ymarfer. Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r ymarfer, ewch dros y brawddegau gyda'r dosbarth cyfan, gan wahodd atebion gan wahanol barau wrth fynd trwyddynt. Holwch a ydy'r dysgwyr yn cofio ble mae'r ymadroddion wedi codi yn y cwrs cyn hyn.

Dyma'r atebion cywir:

1. Sefais/Mi sefais yno yn chwifio fy llaw i ffarwelio wrth i'r bws **fynd o'r golwg** yn y pellter.
2. Roedd hi'n **siarad dwli/lol**.
3. Dw i eisiau/isio **tynnu sylw** at waith arbennig Dafydd Morris yn y ryciau.
4. Byddi di'n/Mi fyddi di'n **magu hyder** wrth i ti ymarfer mwy.
5. Do'n i ddim yn gallu/medru gweithio gan fod y sŵn drilio o'r drws nesa'n **ddi-baid**.
6. Aeth Siân â **llond llaw** o losin/dda-da o'r twb.
7. Roedd e/o **bron â marw** eisiau dweud y newyddion da wrthoch chi.
8. Dw i'n methu **cael gwared â'r** malwod o'r ardd eleni.
9. Cafodd/Mi gaeth pawb bwdin toffi **heblaw am** Alun.
10. Ymweliad y Prif Weinidog oedd y **testun trafod** yn y ffatri.

Mae ymarfer tebyg i hwn yn rhan o'r papur Gwybodaeth o laith yn arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch.

I gloi, gofynnwch i bob dysgwyr nodi eu hoff ymadrodd a gofynnwch iddynt lunio brawddeg yn cynnwys yr ymadrodd hwnnw.

Cam 4: Darnau darllen - digwyddiadau codi arian

1. Rhannwch y dosbarth yn o leiaf dri grŵp (2-4 ym mhob grŵp) a dywedwch wrth bob grŵp pa un o'r darnau darllen mewn nhw'n mynd i weithio arno i ddechrau. Gofynnwch i'r grwpiau ddilyn y drefn ganlynol:
 - i. Un aelod o'r grŵp i ddarllen y darn tra bo'r lleill yn gwrando.
 - ii. Aelod arall o'r grŵp i ddarllen y cwestiynau sydd yn y tabl, y grŵp i drafod a chytuno ar ateb ar gyfer eu darn darllen nhw, os oes modd.
 - iii. Ailadrodd i. a ii. nes eu bod yn hapus â phob ateb yn y tabl ar gyfer eu darn darllen nhw.

2. Pan fydd pob grŵp wedi llenwi'r blychau perthnasol yn y tabl ar gyfer eu darn nhw, aildrefnwch y grwpiau fel bod o leiaf un aelod o bob un o'r grwpiau gwreiddiol ym mhob grŵp newydd. Yn y grwpiau newydd, gofynnwch iddynt holi'r cwestiynau sydd yn y tabl i'w gilydd a chofnodi'r atebion ar gyfer pob un o'r tri darn darllen yn ei dro.
3. Wedi iddynt orffen llenwi'r tabl, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau a nodir yn rhif 2. ar ôl y tabl yn eu grwpiau: 'Trafodwch ba weithgaredd oedd wedi codi fwya o arian? Pa un oedd fwya o hwyl? Pa un fyddech chi fwya tebygol o gymryd rhan ynddo?'

Dewch â'r dosbarth cyfan yn ôl at ei gilydd ac ewch dros ymateb pob grŵp i'r cwestiynau hyn. Mae cyfle yma i fodelu ac i ymarfer defnyddio'r cymal enwol – gyda phwyslais ac yn defnyddio 'taw/mai', e.e. 'Dyn ni/maen nhw'n credu taw'r diwrnod trwyn coch oedd fwya o hwyl; neu i gymharu gan ddefnyddio 'bod', e.e. 'Dw i'n meddwl bod y daith feiciau (wedi bod) yn fwy o hwyl na'r...'

4. Tynnwch sylw at y defnydd o **er mwyn** yn Narnau Darllen 2 a 3 a'i ystyr yma, ac yna gofynnwch i barau gwblhau'r pedair brawddeg a nodir o dan rif 3. Wedi iddynt gwblhau'r gwaith, gofynnwch i bob pâr am i) y frawddeg orau, a ii) y frawddeg fwya doniol sydd gyda nhw.
5. Esboniwch yr ystyr arall sydd i **er mwyn** a gofynnwch i'r parau nodi'r ffurfiau cywir gyda phob rhagenw yng nghwestiwn 4. Ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan wedi iddynt gael cyfle i'w cwblhau.

Cam 5: Siarad – digwyddiad codi arian dych chi wedi bod ynddo

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-5 i drafod digwyddiadau codi arian maen nhw wedi bod ynddynt. Cyn i'r grwpiau fynd ati, gallwch chi enghreifftio trwy sôn am ddigwyddiad yr ydych chi wedi bod ynddo, gan sicrhau eich bod yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi'u nodi yn y cwestiynau yn yr uned (a thynnu sylw'r dysgwyr at y ffaith eich bod wedi gwneud hynny - nid mynd trwy'r cwestiynau'n systematig gan ateb pob un yn ei dro yw'r bwriad yma). Rhowch gyfle iddynt ofyn cwestiynau i chi er mwyn cael gwybod mwy am y digwyddiad y sonioch chi amdano.

Cam 6: Deialog

Gofynnwch i barau ymarfer y ddeialog a cheisio cofio cymaint o'r sgrïpt ag y gallant. Wedyn, gofynnwch i'r parau fynd trwy'r ddeialog gan newid y rhannau sydd wedi eu tanlinellu. Os bydd perfformwyr da neu hyderus yn y dosbarth, gallwch eu gwahodd i lwyfannu cyflwyniad o'r ddeialog o flaen y dosbarth!

Arweiniwch drafodaeth gyda'r dosbarth cyfan er mwyn trefnu digwyddiad go iawn.

Cam 7: Trefnu digwyddiad codi arian

Mae canllaw ynghylch y materion sydd angen eu trafod yn yr uned. Penderfynwch chi ac aelodau'ch dosbarth ar natur a graddfa'r digwyddiad. Gall fod yn un bach iawn, hyd yn oed yn ddigwyddiad 'mewnol' i aelodau'r dosbarth, ond gorau oll os oes modd manteisio ar y cyfle i ddod i gysylltiad â rhagor o siaradwyr Cymraeg, yn gyd-dysgwyr, tiwtoriaid/aelodau staff eraill, teuluoedd, neu'r cyhoedd yn gyffredinol.

Eitem gyntaf y **gwaith cartref** ydy llunio eitem i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad, e.e. poster, taflen, hysbyseb, cyhoeddiad ar gyfer y radio neu'r teledu. Sicrhewch eich bod wedi dosrannu cyfrifoldeb dros lunio pob eitem sydd eisiau er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad. Does dim ots os bydd mwy nag un fersiwn yn cael ei chynhyrchu os bydd mwy o ddysgwyr nag sydd o wahanol fathau o gyhoeddiadau i weithio arnynt! Sicrhewch bod rhestr gyda chi o gyfryngau addas ar gyfer rhoi hysbys i ddigwyddiad a'r manylion cysylltu priodol, ee rhaglenni Radio Cymru/radio lleol, Heno, papur bro (os bydd y dyddiad yn caniatáu) . Rhowch wybod i drefnydd yn y Darparwr sy'n gyfrifol am gynnal y dosbarth beth yw'r trefniadau sydd ar y gweill gennych er mwyn gwirio bod popeth yn iawn ac er mwyn cael cyfle i rannu gwybodaeth yn ehangach.

Pob hwyl gyda'r trefniadau!

Uned 9, Atodiad 1

Bues i yn Nhŷ Bwyta'r Hen Sgubor bythefnos yn ôl	ac ro'n i'n meddwl bod y bwyd yn hyfryd
Mi fues i yn Nhŷ Bwyta'r Hen Sgubor bythefnos yn ôl	ac roeddwn i'n meddwl bod y bwyd yn hyfryd
Dw i'n mynd i'r Llew Coch bob nos Wener	a dw i'n meddwl bod yr awyrgylch yn grêt yno
Mae Dafydd yn hoffi mynd i'r Taj Mahal	ac mae'n dweud bod y gwasanaeth yn ardderchog
Aeth Mair i'r Mochyn Pinc dydd Sadwrn	ond doedd hi ddim yn meddwl bod y bwyd yn dda iawn
Mi aeth Mair i'r Mochyn Pinc dydd Sadwrn	
Sa i wedi bod yn y Rendezvous 'to Dw i ddim wedi bod yn y Rendezvous 'to	ond dw i wedi clywed eu bod nhw'n gwneud pwдинаu anhygoel
Aeth Dai ac Alun ma's i Dafarn y Fuwch nos Sadwrn	ond ro'n nhw'n teimlo ei bod hi'n dawel iawn yno
Mi aeth Dai ac Alun allan i Dafarn y Fuwch nos Sadwrn	ond roedden nhw'n teimlo ei bod hi'n ddistaw iawn yno
Os nad wyt ti wedi cael te prynhawn yng Nghaffi Penbryn eto	dw i'n meddwl ei bod hi'n hen bryd i ti fynd yno
Maen nhw'n troi'r hen orsaf dân yn dŷ bwyta	a dwedodd Elin ei bod hi wedi archebu bwrdd ar y noson agoriadol ac mi ddudodd Elin ei bod hi wedi archebu bwrdd ar y noson agoriadol

Uned 10 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Cymuned a ffrindiau

Nod yr uned yw adolygu graddau cyfartal a chymharol ansoddeiriau a thrafod cymunedau gwahanol.

Cam 1 – cyflwyno'r thema.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio â phartner ac edrych ar y llun, gan drafod beth sydd ynddo, a'r math o gymuned a adlewyrchir ynddo. Wedyn, gallwch roi cerdyn sgwrsio 1 i bawb (Atodiad 1), a gofyn iddynt drafod y cwestiynau arno. Gellir defnyddio'r ail gerdyn sgwrsio ar adeg arall e.e. cyn gwneud y dasg ar ddiwedd yr uned.

Cam 2 – ansoddeiriau'r radd gyfartal

- i. Atgoffwch y dysgwyr am y ffurf reolaidd: mor + ansoddair (treigladd meddal) + â (treigladd llaes). Atgoffwch nhw fod 'â' yn troi yn 'ag' o flaen llafariad (vowels) ac nad yw 'll' a 'rh' ddim yn treiglo ar ôl 'mor'.
- ii. Gofynnwch iddynt wneud y dril syml isod i ymarfer y patrwm. Mae'r dril yn eu gwrslyfrau. Yna, gofynnwch iddynt lenwi'r bylchau yn yr ymarfer.

Roedd ffair yr ysgol yn brysur	Doedd hi ddim mor brysur â hynny
Roedd ffair yr ysgol yn wag	
Roedd ffair yr ysgol yn dawel/ddistaw	
Roedd ffair yr ysgol yn llawn	
Roedd ffair yr ysgol yn llwyddiannus	

- iii. Dril syml arall:

Mae hi'n braf heddiw	Ddim mor braf â ddoe
Mae hi'n oer heddiw	
Mae hi'n wyntog heddiw	
Mae hi'n stormus heddiw ac ati	

Ceir un ymarfer arall yn y gwrslyfr.

- iv. Dysgwch yr ansoddeiriau afreolaidd: **da (cystal), drwg (cynddrwg), mawr (cymaint), bach (cyn lleied)**. Cewch eu hymarfer nhw un ar y tro trwy gael parau i ymarfer brawddegau gyda'i gilydd. Galwch allan ddau air (e.e. gwledydd, trefi, siopau, rhaglenni teledu) a gofyn i'r dysgwyr greu brawddegau, e.e. Coronation St ac Eastenders – 'Dyw Eastenders ddim cystal â Coronation Stree'. Yna, gwnewch y dril yma i ymarfer yr holl batrymau:

Fi yw'r/ydy'r chwaraewr gorau yn y tîm	Dwyt ti ddim cystal â John
Fi yw'r/ydy'r chwaraewr cyflymaf yn y tîm	Dwyt ti ddim mor gyflym â John

Fi yw'r/ydy'r chwaraewr mwya cystadleuol yn y tîm	Dwyt ti ddim mor gystadleuol â John
Fi yw'r/ydy'r chwaraewr pwysica yn y tîm	Dwyt ti ddim mor bwysig â John
Fe yw'r/Fo ydy'r chwaraewr gwaetha yn y tîm	Dyw e/Dydy o ddim cynddrwg â Bob
Fe yw'r/Fo ydy'r chwaraewr mwya esgeulus yn y tîm	Dyw e/Dydy o ddim mor esgeulus â Bob
Fe yw'r/Fo ydy'r chwaraewr tryma yn y tîm	Dyw e/Dydy o ddim mor drwm â Bob
Fe yw'r/Fo ydy'r chwaraewr mwya yn y tîm	Dyw e/Dydy o ddim cymaint â Bob

(Dril yn defnyddio'r benywaidd i ymarfer y treigladau).

Hi yw'r/ydy'r ferch dala yn y tîm	Dyw/Dydy hi ddim mor dal â Lisa
Hi yw'r/ydy'r ferch orau yn y tîm	Dyw/Dydy hi ddim cystal â Lisa
Hi yw'r/ydy'r ferch gyflyma yn y tîm	Dyw/Dydy hi ddim mor gyflym â Lisa
Hi yw'r/ydy'r ferch fwya penderfynol yn y tîm	Dyw/Dydy hi ddim mor benderfynol â Lisa

- v. Gofynnwch iddynt weithio mewn parau i lenwi'r bylchau yn y ddeialog yn eu gwerslyfrau, cyn dweud y ddeialog wrth ei gilydd. Darllenwch dros yr adran Help Llaw.

Cam 3 - Darllen

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gwnewch yr ymarferion sy'n seiliedig ar y gwaith, sef i) gwaith idiomaau ii) cyfieithu a iii) nodi geiriau sy'n cynnwys CYD. Efallai y bydd angen rhoi enghreifftiau e.e. cydweithio, cyd-destun, cydymdeimlo.

Cam 4 – Adolygu'r Radd Gymharol

Fel ymarfer syml i adolygu'r ffurfiau, gofynnwch i'r dosbarth sefyll yn nhrefn eu taldra. Bydd angen defnyddio'r radd gymharol i wneud hyn e.e. Dw i'n dalach na Bob ond dw i'n fyrrach na Siân. Wedi hynny, tynnwch sylw'r dosbarth at y ffurfiau afreolaidd a nodir yn yr adran Help Llaw. Mae nifer o gardiau ymhlith Cardiau Fflach CBAC sy'n dda iawn am ymarfer y radd gymharol. Gwnewch y dril isod:

Mae'n dda heddiw	Ydy, yn llawer gwell na ddoe
Mae'n ddrwg heddiw	
Mae'n braf heddiw	
Mae'n wlyb heddiw	
Mae'n llawn heddiw	
Mae'n hawdd heddiw	
Mae'n anodd heddiw	

Ymarfer y Radd Gymharol

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru. Rhaid iddynt lunio brawddegau yn cymharu dau beth â'i gilydd (mae'r geiriau yn eu gwerslyfrau). Er enghraifft: Caerdydd + Pontypridd

Mae Caerdydd yn fwy na Phontypridd.

Gallech wneud y dasg hon fel cystadleuaeth, gan roi marciau uchel i'r paru sy'n cynhyrchu brawddegau cywir ac ynddynt amrywiaeth o ansoddeiriau.

Ymarfer y Radd Gymharol

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, a gofynnwch iddynt edrych ar y rhestr o gyfleusterau cymunedol. Rhaid iddynt roi'r rhestr yn nhrefn eu blaenoriaeth. Byddant yn defnyddio'r radd gymharol a'r radd gyfartal wrth drafod trefn y rhestr. Yna, gofynnwch i bob grŵp esbonio'u dewisiadau.

Ymestyn

Ceir dau ymarfer ychwanegol, ymestynnol yma. Yn yr ymarfer cyntaf, gofynnir i'r dysgwyr lenwi'r bylchau gan ddefnyddio'r ffurfiau 'cyn' a gyflwynwyd yn fras yn yr adran Help Llaw. Ymarfer cyfieithu (eithaf heriol) yw'r ail ymarfer, sy'n defnyddio rhai ymadroddion a gyflwynwyd yn yr uned. Darperir atebion cywir i'r tasgau isod.

Atebion

1. Pam mae cyn lleied o bobl wedi dod i helpu i addurno'r neuadd?
 2. Mae John yn gystadleuol iawn, ond dyw e/dydy o ddim cynddrwg â ti.
 3. Os gwelwch yn dda, atebwch y llythyr cyn gynted â phosib.
 4. Dw i ddim eisiau/isio mynd cyn belled â'r Caribî i gael gwyliau yn yr haul.
 5. Byddi di/Mi fyddi di cyn gryfed â Mr Universe ar ôl yr holl godi pwysau yma.
 6. Mae hi cyn oered â Siberia yma heddiw.
 7. Roedd hi'n gêm wael, ond ddim cyn waethed â /cynddrwg â gêm yr wythnos diwethaf.
 8. Dyw/Dydy Erin ddim cyn daled ag Olwen, ond mae hi'n dalach na'i brawd.
-
1. Dw i ddim yn deall/dallt pam mae cynifer/ cymaint o bobl yn cwyno am ein cyfleusterau.
 2. Mae'n anos/anoddach cael gwirfoddolwyr ar ôl 5 o'r gloch.
 3. Mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth.
 4. Mae bwyd yn rhatach yma na'r archfarchnad.
 5. Maen nhw cyn waethed / cynddrwg â'i gilydd.
 6. Mae'r cae chwarae yn well nawr/rwan. Maen nhw wedi trwsio'r ffens.
 7. Dyw/Dydy Paul ddim cyn gryfed / mor gryf â'i dad.
 8. Mae fy rheolwr i eisiau/isio ateb cyn gynted â phosib.

Cam 5 – Gwrando

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau gwrando. Ar y gwrandawriad cyntaf, dylai'r dysgwyr gylchu'r geiriau newydd wrth eu clywed. Ar ôl yr ail wrandawriad, dylid ateb cwestiwn 1. Ar ôl y trydydd gwrandawriad, dylid ateb cwestiynau 2 a 3.

Cam 6 – Sgwrsio

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau yn y llyfr a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 7 – Tasg: Creu poster / hysbyseb papur bro i ddenu gwirfoddolwyr i weithio mewn siop elusen.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Os ydych yn gwneud y poster, rhowch ddigon o biniau ffelt, papur lliwgar, glud, siswrn ac ati i bob grŵp. Cyn dechrau'r dasg, efallai y byddai'n syniad da gwneud storom eirfa er mwyn nodi geirfa ddefnyddiol ar y bwrdd gwyn (*gwirfoddoli, sgiliau, manteision ac ati...*).

Rhowch ddigon o amser iddynt i wneud y poster. Byddai'n syniad da i chi fynd o gwmpas y grwpiau er mwyn sicrhau bod yr holl drafod yn digwydd yn Gymraeg. Yna, bydd pob grŵp yn cyflwyno'u poster ar ddiwedd y wers.

Uned 10 – Atodiad 1 – Cardiau Sgwrsio

Cerdyn sgwrsio - Cymuned (De Cymru)

- Beth dych chi'n hoffi am eich cymuned chi?
- Beth yw'r peth pwysica mewn cymuned?
- Beth hoffech chi ei newid am eich cymuned chi?
- Faint o'ch cymdogion dych chi'n eu nabod?
- Ydy'ch cymuned chi yn dod at ei gilydd ar achlysuron arbennig?
- Oes cyfarfodydd Gwarchod Cymdogaeth (*Neighbourhood Watch*) yn eich ardal chi?
- Dych chi erioed wedi helpu cymydog?

Cerdyn sgwrsio – Cymuned (De Cymru)

- Dych chi erioed wedi gwirfoddoli? Siaradwch am y profiad.
- Dych chi'n nabod rhywun sy wedi cael help gan wirfoddolwyr?
- Pa fath o waith gwirfoddol fasech chi'n ei fwynhau?
- Beth yw manteision gwirfoddoli?
- Ddylech chi wirfoddoli os dych chi'n gwneud hynny am resymau hunanol e.e. prynu'r pethau gorau o siop elusen neu gael mynediad am ddim i ddigwyddiad?

Uned 10 – Atodiad 1 – Cardiau Sgwrsio

Cerdyn sgwrsio - Cymuned (Gogledd Cymru)

- Be dach chi'n hoffi am eich cymuned chi?
- Be ydy'r peth pwysica mewn cymuned?
- Be fasech chi'n hoffi ei newid am eich cymuned chi?
- Faint o'ch cymdogion dach chi'n eu nabod?
- Ydy'ch cymuned chi yn dod at ei gilydd ar achlysuron arbennig?
- Oes cyfarfodydd Gwarchod Cymdogaeth (*Neighbourhood Watch*) yn eich ardal chi?
- Dach chi erioed wedi helpu cymydog?

Cerdyn sgwrsio – Cymuned (Gogledd Cymru)

- Dach chi erioed wedi gwirfoddoli? Siaradwch am y profiad.
- Dach chi'n nabod rhywun sy wedi cael help gan wirfoddolwyr?
- Pa fath o waith gwirfoddol fasech chi'n ei fwynhau?
- Be ydy manteision gwirfoddoli?
- Ddylech chi wirfoddoli os dach chi'n gwneud hynny am resymau hunanol e.e. prynu'r pethau gorau o siop elusen neu gael mynediad am ddim i ddigwyddiad?

Uned 10 – Atodiad 2 – Ymestyn

Ymestyn

Mae'r ffurfiau hyn o'r radd gymharol yn cael eu defnyddio mewn diarhebion ac ymadroddion:

mor bell â – cyn belled â	mor gryf â – cyn gryfed â
mor dal â – cyn daled â	mor oer â – cyn oered â
mor hir â – cyn hired â/cyhyd â	mor fyr â – cyn fyrred â
Mae 'cyn waethed â' hefyd yn cael ei ddefnyddio yn yr un ffordd â 'cynddrwg'	

Byddwn ni'n dysgu eu defnyddio nhw yn Uwch 2, ond triwch gofio **cyn belled â** a **cyn gynted â**

Faswn i ddim yn mynd cyn belled â hynny i ennill gwobr.

Dw i'n edrych ymlaen at glywed oddi wrthoch chi cyn gynted â phosib

Llenwch y bylchau yn y brawddegau hyn gan ddefnyddio ymadroddion sy'n cynnwys 'cyn' e.e. cyn belled, cynddrwg...

1. Pam mae o bobl wedi dod i helpu i addurno'r neuadd?
2. Mae John yn gystadleuol iawn, ond dyw e/dydy o ddim â ti.
3. Os gwelwch yn dda, atebwch y llythyr â phosib.
4. Dw i ddim eisiau/asio mynd â'r Caribî i gael gwyliau yn yr haul.
5. Byddi/Mi fyddi di â Mr Universe ar ôl yr holl godi pwysau yma.
6. Mae hi â Siberia yma heddiw.
7. Roedd hi'n gêm wael, ond ddim â gêm yr wythnos diwethaf.
8. Dyw/Dydy Erin ddim ag Olwen, ond mae hi'n dalach na'i brawd.

Cyfieithwch y brawddegau hyn.

1. I don't understand why so many people complain about our facilities.
2. It's more difficult to get volunteers after 5 o'clock.
3. Things are going from bad to worse.
4. Food is cheaper here than in the supermarket.

5. They are as bad as each other.
6. The playing field is better now. They have fixed the fence.
7. Paul isn't as strong as his father.
8. My manager wants an answer as soon as possible.

Uned 11 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Teulu a Ffrindiau

Nod yr uned yw adolygu gradd eithaf ansoddeiriau a thrafod teuluoedd a ffrindiau.

Cam 1 – Adolygu Uned 10 (y radd gymharol)

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i gymharu'r bwydydd yn y cwmwl geiriau, e.e. mae bananas yn iachach na sgloodion; mae cyrri yn boethach na bara... ac ati.

Cam 2: Storom Eirfa ar thema TEULU A FFRINDIAU

Gofynnwch i'r dysgwyr gynnig geirfa ar y thema – o leiaf 10. Nodwch nhw ar y bwrdd gwyn, a thrafodwch y geiriau gan esbonio ystyr unrhyw eirfa newydd. Mae hon yn thema sydd wedi cael ei thrafod ers lefel Mynediad felly rhaid chwilio am gyfleoedd i ymestyn ar unrhyw eirfa elfennol sy'n codi, e.e. ymarfer ffurfiau lluosog, mab > llysfab, mab bedydd ac ati, ynghyd â sicrhau bod geirfa ganddynt i drafod pob sefyllfa deuluol e.e. partneriaeth sifil, cyd-fyw, wedi ysgaru (mewn modd sensitif).

Cam 3: Darn Darllen

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, rhowch amser iddynt i ateb y cwestiynau.

*Ateb cwestiwn 4 yw Davies (mwy cyffredin) a Lewis (mwy anghyffredin)

Cwestiwn dewisol yw cwestiwn 5. Mae'r cenhedloedd wedi'u grwpio (terfyniadau –ig yn gyntaf, terfyniadau – aidd yn ail yng nghategori'r ansoddeiriau). Mae bwlch yng ngwaelod y tabl, rhag ofn bod cysylltiad â gwlad benodol gan aelodau o'r dosbarth. Dyma'r atebion:

Gwlad	Dyn	Menyw	Pobl	Iaith	Ansoddair
Cymru	Cymro	Cymraes	Cymry	Cymraeg	Cymreig
Lloegr	Sais	Saesnes	Saeson	Saesneg	Saesneg
Ffrainc	Ffrancwr	Ffrances	Ffrancwyr	Ffrangeg	Ffrenig
Iwerddon	Gwyddel	Gwyddeles	Gwyddelod	Gwyddeleg	Gwyddelig
Yr Eidal	Eidalwr	Eidales	Eidalwyr	Eidaleg	Eidalaidd
America	Americanwr	Americanes	Americanwyr	Saesneg	Americanaidd
Sbaen	Sbaenwr	Sbaenes	Sbaenwyr	Sbaeneg	Sbaenaidd
Yr Alban	Albanwr	Albanes	Albanwyr	Gaeleg/ Saesneg	Albanaidd

Cam 4: Siarad

Arweiniwch sgwrs am enwau a chyfenwau neu rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Rhai syniadau am gwestiynau:

Oes cyfenw diddorol gyda rhywun?/Oes gynnoch chi gyfenw diddorol?

Oes diddordeb gyda chi yn hanes eich teulu?/Oes gynnoch chi ddiddordeb yn hanes eich teulu?

Oes problem wedi codi oherwydd cyfenw / enw anghyffredin?/Oes 'na broblem wedi codi oherwydd cyfenw / enw anghyffredin?

Fasech chi'n hoffi cael enw / cyfenw gwahanol?

Gawsoch chi eich enwi ar ôl rhywun?/Gaethoch chi eich enwi ar ôl rhywun?

Ac unrhyw beth arall sy'n deillio o hynny...

Cam 5: Help Llaw Ansoddeiriau - Y Radd Eithaf

Cyn troi at yr Help Llaw, rhowch y brawddegau isod ar y bwrdd gwyn, fesul un, gan ofyn i'r dysgwyr ddisodli'r elfen a danlinellir bob tro. Gellir gwneud rhai o'r brawddegau fel dosbarth cyfan, a rhai fel gwaith pâr neu grwpiau o dri.

XX yw'r/ydy'r rhaglen orau ar y teledu
Fy nai yw'r ieuenga/ydy'r fenga yn fy nheulu i
Fy nhad yw'r/ydy'r hyna yn fy nheulu i
Chwaraeon oedd y pwnc hawsa i fi yn yr ysgol
Yr ystafell fyw yw'r/ydy'r ystafell leta yn fy nhŷ i
 Pa un yw/ydy'r tŷ mwya?

Categoreiddio nofelau ac aelodau'r teulu

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddynt edrych ar yr adran berthnasol yn eu gwrslyfrau (8 o nofelau ac 8 o aelodau'r teulu Rossi). Rhaid iddynt ddefnyddio'r manylion i ganfod pa nofel yw'r hira, byrra ac ati, a pha aelod o'r teulu Jones yw'r tala, tryma, byrra, hyna ac yn y blaen.

Darllenwch dros yr Help Llaw. Un peth a allai fod yn ddefnyddiol i'r dysgwyr fyddai meddwl am yr enw SIESTA neu FIESTA, er mwyn cofio – os yw gair Saesneg yn gorffen ag –EST, bod y gair Cymraeg yn gorffen ag –A.

Holiadur

Cyn i'r dysgwyr fynd ati i ofyn cwestiynau'r holiadur, dysgwch fod yr ansoddair yn treiglo ar ôl y ferf e.e. 'hoffi leia'. Yna, gofynnwch iddynt godi ar eu traed a gofyn y cwestiynau i dri aelod o'r dosbarth (nid y tri pherson sy'n eistedd agosaf atynt). Yn dibynnu ar allu a lleoliad y dosbarth yn y De, gellid tynnu sylw at y ffurf 'fynycha' yn ogystal ag 'amla'.

Ymestyn

Mae cyflwyniad i'r idiom 'Gorau po gynta...' yn yr Atodiad 1, ynghyd ag ymarfer i gadarnhau'r patrwm newydd.

Cam 6: Gwrando

Bydd y dysgwyr yn gwrando ar ddeialog (Atodiad 2) rhwng aelod o staff gwesty moethus, a menyw/dynes sy'n ceisio trefnu parti pen-blwydd i'w hen dad-cu/daid. Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau gwrando. Mae cwestiynau darllen a deall i'w hateb, yn ogystal ag ymarferion geirfa. Efallai y bydd angen rhoi enghraifft e.e. 'meddygfa' er mwyn helpu'r myfyrwyr gyda chwestiwn 6. Gellir chwarae'r darn eto ar ôl gwneud cwestiwn 7 – i'r dysgwyr wirio eu hatebion. Mae'r atebion cywir isod:

aelod **hyna'r** teulu

y dydd Gwener fyddai/fasai **orau**

Te p'nawn fyddai/fasai **orau**

yr **ieuenga/y fenga** yn flwydd

yr **hyna** yn gant

dim ond y **gorau** i fy hen dad-cu/daid

Ar ôl cwblhau'r cwestiynau, gallech sgwrsio am bynciau sy'n codi o'r darn gwrando, er enghraifft: Ydy'r dysgwyr wedi trefnu parti neu achlysur mawr fel Deborah yn y ddeialog? Fwynheuon nhw wneud hynny, neu oedden nhw'n teimlo dan bwysau? Os nad ydyn nhw wedi trefnu parti/achlysur, pwy o blith eu ffrindiau/teulu yw'r/ydy'r gorau am drefnu pethau fel hynny?

Cam 7: Sgwrsio

Rhannwch y dosbarth yn bartneriaid. Rhowch gopi o'r daflen sgwrsio iddynt (Atodiad 3). Pwysleiswch nad oes angen iddynt ofyn pob cwestiwn i'w gilydd. Sgwrsio'n naturiol am deuluoedd a ffrindiau yw'r nod.

Ar ôl iddynt ofyn y cwestiynau hyn, gofynnwch iddynt feddwl am ddau neu dri chwestiwn arall i'w hychwanegu at y rhestr. Gallant wedyn ymuno â phâr arall a gofyn y cwestiynau newydd i'w gilydd.

Uned 11 – Atodiad 1 – Ymestyn (De Cymru)

Ymestyn

Mae'r ymadroddion hyn yn defnyddio'r radd eithaf, ac maen nhw'n cael eu defnyddio'n aml yn Gymraeg:

Gorau po fwy e.e. Rhaid i ni godi llawer o arian, felly gorau po fwy o bobl fydd yn yr ocsiwn.

Gorau po gynta e.e. Gorau po gynta awn ni – maen nhw'n dweud bod eira ar y ffordd.

Gorau po leia e.e. Mae'n rhaid i fi adael yn gynnar felly gorau po leia o waith sy gyda fi.

Gorau po fyrra e.e. Gorau po fyrra yw'r fordaith – dw i'n teimlo'n sâl ar longau.

Nawr, meddyliwch chi am ymatebion i'r cwestiynau isod gan ddefnyddio 'Gorau po...'. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi:

1 Pryd hoffech chi adael? Gorau po gynta. Dw i eisiau gwely cynnar.

2 Faint o bobl hoffech chi eu gwahodd i'ch parti pen-blwydd?

3 Hoffech chi dorri eich gwallt yn fyr?

4. Dych chi'n hoffi llawer o sbeis yn eich bwyd?

5. Pryd gallwch chi ddechrau'r swydd ?

6. Pwy sy'n cael gwybod eich cyfrinach?

Uned 11 – Atodiad 1 – Ymestyn (Gogledd Cymru)

Ymestyn

Mae'r ymadroddion hyn yn defnyddio'r radd eithaf, ac maen nhw'n cael eu defnyddio'n aml yn Gymraeg:

Gorau po fwya e.e. Rhaid i ni godi llawer o bres, felly gorau po fwya o bobl fydd yn yr ocsiwn.

Gorau po gynta e.e. Gorau po gynta awn ni – maen nhw'n deud bod eira ar y ffordd.

Gorau po leia e.e. Mae'n rhaid i fi adael yn gynnar felly gorau po leia o waith sy gen i.

Gorau po fyrra e.e. Gorau po fyrra ydy'r fordaith – dw i'n teimlo'n sâl ar longau.

Rwan, meddylwch chi am ymatebion i'r cwestiynau isod gan ddefnyddio 'Gorau po...'. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi:

1 Pryd fasech chi'n hoffi gadael? Gorau po gynta. Dw i isio gwely cynnar.

.....

2 Faint o bobl fasech chi'n hoffi eu gwahodd i'ch parti penblwydd?

.....

3 Fasech chi'n hoffi torri eich gwallt yn fyr?

.....

4. Dach chi'n hoffi llawer o sbeis yn eich bwyd?

.....

5. Pryd fedrwch chi ddechrau'r swydd ?

.....

6. Pwy sy'n cael gwybod eich cyfrinach?

.....

Uned 11 – Atodiad 2 – Sgript Gwrando (De Cymru)

- Ifan: P'nawn da, Gwesty Min-y-Môr, Ifan yn siarad. Sut galla i'ch helpu chi?
- Deborah: P'nawn da. Dw i'n trefnu parti pen-blwydd i aelod hyna ein teulu ni, fy hen dad-cu. Bydd e'n gant oed ym mis Ebrill.
- Ifan: Cant oed? Mae angen parti arbennig iawn, felly!
- Deborah: Oes wir – **parti a hanner!** Felly dw i'n ffonio i weld ydy'r **neuadd fawr** ar gael ar benwythnos y Pasg.
- Ifan: Iawn, wrth gwrs... gadewch i fi edrych. Hmm. Mae priodas yma ar y dydd Sadwrn... Fyddai'r dydd Sul neu ddydd Gwener y Groglith yn iawn?
- Deborah: Y dydd Gwener fyddai orau, diolch.
- Ifan: Iawn. Pa fath o beth dych chi eisiau? Te prynhawn neu ginio?
- Deborah: Te prynhawn fyddai orau. Tua 3.00 o'r gloch?
- Ifan: Wrth gwrs. Dych chi'n disgwyl llawer o bobl? Fydd eisiau llawer o fordydd arnoch chi?
- Deborah: Bydd. **Gorau po fwya!** Mae deg o wyrion, dau ddeg pump o **orwyrion** ac un **gor-or-wŷr** gyda fe! Bydd 'na gant dau ddeg pump o bobl, o leia. Yr ieuenga'n flwydd oed, a'r hyna'n gant wrth gwrs!
- Ifan: Popeth yn iawn. Mae'r neuadd yn dal cant chwe deg o bobl.
- Deborah: Gwych. A beth am **fynediad** i gadeiriau olwyn? Mae'r ystafell ar y llawr gwaelod, yw hi? Mae 'na bedwar o'r **gwesteion** yn defnyddio cadeiriau olwyn...
- Ifan: Does dim eisiau i chi boeni am hynny. Mae'r gwesty'n hollol addas i gadeiriau olwyn. Dyn ni wedi rhoi rampiau wrth bob **mynedfa** ac mae lifft gyda ni.
- Deborah: Bydd eisiau sgrin fawr arnon ni hefyd. Dyn ni eisiau siarad â gefaill Tad-cu, Wncl Mostyn, sy'n byw yn Melbourne, Awstralia. Hoffen ni ddangos hen fideos a lluniau ar y sgrin hefyd. Fyddai hynny'n bosib?
- Ifan: Byddai wrth gwrs.
- Deborah: Cyn i fi anghofio... mae fy nwy gyfnither i'n figan... ac mae **alergedd cnau** gan un o'r plant lleia. Oes bwydlenni arbennig gyda chi?
- Ifan: Oes – peidiwch â phoeni. Gallwch chi **fwrw golwg** ar ein bwydlenni ar ein gwefan. Iawn, wel... y cam nesaf yw cael sgwrs gyda chi yma yn y gwesty. Ga i gymryd eich enw chi, a'ch rhif ffôn?
- Deborah: Deborah Lewis, 776482.
- Ifan: Diolch. Hefyd, bydd angen talu **blaendal** cyn gynted â phosib i gadw'r neuadd i chi. I logi'r ystafell... te prynhawn i 125 o bobl ... sgrin fawr... bydd hynny'n ... ddwy fil o bunnau.
- Deborah: Dwy fil?!
- Ifan: Ie, dwy fil. Ydy hynny'n broblem?
- Deborah: Nac ydy wrth gwrs. Dim ond y gorau i fy hen dad-cu! Galwa i heibio dros y penwythnos.

Uned 11 – Atodiad 2 – Sgript Gwrando (Gogledd Cymru)

Ifan: P'nawn da, Gwesty Min-y-Môr, Ifan yn siarad. Sut fedra i'ch helpu chi?

Deborah: P'nawn da. Dw i'n trefnu parti pen-blwydd i aelod hyna ein teulu ni, fy hen daid. Mi fydd o'n gant oed ym mis Ebrill.

Ifan: Cant oed? Mae angen parti arbennig iawn, felly!

Deborah: Oes wir – **parti a hanner!** Felly dw i'n ffonio i weld ydy'r **neuadd fawr** ar gael ar benwythnos y Pasg.

Ifan: Iawn, wrth gwrs... gadewch i mi edrych. Hmm. Mae priodas yma ar y dydd Sadwrn... Fasai'r dydd Sul neu ddydd Gwener y Groglith yn iawn?

Deborah: Y dydd Gwener fasai orau, diolch.

Ifan: Iawn. Pa fath o beth dach chi isio? Te prynhawn neu ginio?

Deborah: Te prynhawn fasai orau. Tua 3.00 o'r gloch?

Ifan: Wrth gwrs. Dach chi'n disgwyl llawer o bobl? Fyddwch chi angen llawer o fyrdau?

Deborah: Byddwn. **Gorau po fwya!** Mae gynno fo ddeg o wyrion, dau ddeg pump o **orwyrion** ac un **gor-or-wŷr!** Mi fydd 'na gant dau ddeg pump o bobl, o leia. Y fenga'n flwydd oed, a'r hyna'n gant wrth gwrs!

Ifan: Popeth yn iawn. Mae'r neuadd yn dal cant chwe deg o bobl.

Deborah: Gwych. A beth am **fynediad** i gadeiriau olwyn? Mae'r ystafell ar y llawr gwaelod, ydy hi? Mae 'na bedwar o'r **gwesteion** yn defnyddio cadeiriau olwyn...

Ifan: Does dim isio i chi boeni am hynny. Mae'r gwesty'n hollol addas i gadeiriau olwyn. Dan ni wedi rhoi rampiau wrth bob **myndfa** ac mae gynnon ni lifft.

Deborah: Mi fyddwn ni isio sgrin fawr hefyd. Dan ni isio siarad efo gefaill Taid, Wncl Mostyn, sy'n byw yn Melbourne, Awstralia. Mi fasen ni'n hoffi dangos hen fideos a lluniau ar y sgrin hefyd. Fasai hynny'n bosib?

Ifan: Basai, wrth gwrs.

Deborah: Cyn i mi anghofio... mae fy nwy gyfnither i'n figan... ac mae gan un o'r plant lleia **alergedd cnau**. Oes gynnoch chi fwydlenni arbennig?

Ifan: Oes – peidiwch â phoeni. Mi fedrwch chi **fwrw golwg** ar ein bwydlenni ar ein gwefan. Iawn, wel... y cam nesa ydy cael sgwrs efo chi yma yn y gwesty. Ga i gymryd eich enw chi, a'ch rhif ffôn?

Deborah: Deborah Lewis, 776482.

Ifan: Diolch. Hefyd, mi fydd angen talu **blaendal** cyn gynted â phosib i gadw'r neuadd i chi. I logi'r ystafell... te prynhawn i 125 o bobl ... sgrin fawr... mi fydd hynny'n ... ddwy fil o bunnau.

Deborah: Dwy fil?!

Ifan: Ia, dwy fil. Ydy hynny'n broblem?

Deborah: Nac ydy wrth gwrs. Dim ond y gorau i fy hen daid! Mi alwa i heibio dros y penwythnos.

Uned 11 – Atodiad 3 – Cerdyn sgwrsio

Cerdyn Sgwrsio: TEULU A FFRINDIAU (De Cymru)

- Dwedwch rywbeth am eich teulu neu'ch ffrindiau.
- Pwy sy wedi rhoi cyngor da i chi yn y gorffennol?
- Ydy eich anifail anwes yn aelod pwysig o'ch teulu chi?
- Oes rhaid i ffrindiau hoffi'r un pethau? Oes gyda chi ffrind gwahanol iawn i chi?
- Tasech chi'n gallu bod yn ffrind i berson enwog, pwy fasai'r person yna?

Uned 11 – Atodiad 3 – Cerdyn sgwrsio

Cerdyn Sgwrsio: TEULU A FFRINDIAU (Gogledd Cymru)

- Dwedwch rywbeth am eich teulu neu'ch ffrindiau.
- Pwy sy wedi rhoi cyngor da i chi yn y gorffennol?
- Ydy eich anifail anwes yn aelod pwysig o'ch teulu chi?
- Oes rhaid i ffrindiau hoffi'r un pethau? Oes gynnoch chi ffrind gwahanol iawn i chi?
- Tasech chi'n medru bod yn ffrind i berson enwog, pwy fasai'r person yna?

Uned 12 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Bwyd

Nod yr uned yw ymarfer a dysgu ffurfiau lluosog a thrafod bwyd.

Cam 1 – Adolygu Uned 11 (y radd eithaf)

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru a rhowch gopi o'r cardiau dinasoedd iddynt (Atodiad 1). Rhaid iddynt roi'r ddinas gywir ym mhob categori (yn eu gwerslyfrau). Dyma'r atebion:

Y ddinas hyna	Athen
Y ddinas ifanca	Lima
Y ddinas fwya	Athen
Y ddinas leia	Lwcsembwrg
Y ddinas fwya poblog	Lima
Y ddinas leia poblog	Lwcsembwrg
Y ddinas boetha yn yr haf	Rhufain
Y ddinas oera yn y gaeaf	Talinn

Er mwyn cael ymarfer llafar, gofynnwch i'r dysgwyr greu cwestiynau, e.e. Pa un yw/ ydy'r ddinas leia? Gellir gwneud hyn gyda pharau neu wrth fynd o gwmpas mewn cylch yn y dosbarth, yn dibynnu ar faint y dosbarth.

Cam 2 – Cyflwyno ffurfiau lluosog

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i wneud y ddeialog, sy'n sgwrs rhwng cyflwynydd teledu a ffermwr/ffermwraig. Ar ôl iddynt gael cyfle i wneud y ddwy ran, rhowch gopi o'r sgrïpt fylchog i bob pâr (Atodiad 2) a gofyn iddynt lenwi'r bylchau â'r ffurfiau lluosog cywir. Yna, gofynnwch iddynt lenwi'r bylchau yn y tabl yn eu gwerslyfrau. Dylech hefyd dynnu eu sylw at yr adran Help Llaw, ac esbonio unrhyw bwyntiau os oes angen. I orffen, ceir tabl syml i'w gwblhau. Dyma'r atebion:

Enw gwrwaidd	Yn Gymraeg?	Enw benywaidd?	Yn Gymraeg?
<i>student village</i>	pentref myfyrwyr	<i>bus station</i>	gorsaf fysiau
<i>cheque book</i>	llyfr sieciau	<i>bookshop</i>	siop lyfrau
<i>dishwasher</i>	peiriant golchi llestri	<i>sheep farm</i>	fferm ddefaid

Cam 3 – Sgwrsio

Cyn dechrau sgwrsio am y testun, sef bwyd, gwnewch y storom eirfa er mwyn ymestyn geirfa'r dysgwyr ar y thema ac i lenwi unrhyw fylchau yn eu geirfa e.e. geirfa byd coginio, offer cegin, maetholion (braster, fitaminau, mwynau) dietau arbennig (heb glwten, heb laeth, llysieuol), materion cyfoes (gordewdra, clefyd siwgr, alergeddau).

Nodwch unrhyw eiriau a gynigir ganddynt ar y bwrdd gwyn.

Mae dau gerdyn sgwrsio ar thema'r uned, sef 'Bwyd'. Efallai y bydd un neu ddau o'r cwestiynau'n ddigon i sbarduno sgwrs dda. Y nod yw cael sgwrs ddifyr a naturiol ar faterion sy'n codi o'r thema, yn hytrach na dilyn y cwestiynau'n gaeth. Felly, peidiwch â rhoi'r holl gwestiynau i'r dysgwyr os ydych yn credu y byddant yn rhoi atebion byr i bob un, yn lle sgwrsio.

Cam 4 – Gwyllo a Gwranddo

Bydd y dysgwyr yn gwyllo rhan o'r rhaglen 'Benthyg Teulu', [22.18 – 25.48] sy'n dangos ymweliad Supachai o Wlad Thai â'r Teulu Jones ym Mhen Llŷn. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a Gwranddo. I ddysgwyr yn y De, fallai y bydd angen tipyn o help ar y dysgwyr i ddeall ambell ran oherwydd bod Gillian yn siarad ag acen ogleddol. Dyma atebion y cwestiynau:

Allwch chi feddwl am eiriau Cymraeg eraill ar gyfer **ogleuo a nionyn?**

(Fersiwn y De yn unig) arogl a winwnsyn

Beth mae Supachai a Gillian yn ei wneud yn gyntaf?

Paratoi'r porc (tynnu'r croen)

O ble mae'r **cynhwysyn** cyfrinachol (secret ingredient) yn dod?

Gwlad Thai

Pryd mae lobsgóws yn cael ei fwyta fel arfer?

Yn y gaeaf

Enwch y cynhwysion sydd yn y pryd bwyd traddodiadol o Ben Llŷn:

Llaeth enwyn, tatws, cig moch ('becyn') a winwnsyn/ionyn.

Yna, gofynnir i'r dysgwyr feddwl am gyfleoliadau i gyd-fynd â'r geiriau isod. Mae'r cyntaf wedi'i wneud iddynt, a dyma rai awgrymiadau ar gyfer y geiriau eraill rhag ofn y byddant yn cael trafferth gwneud y dasg hon.

Lliain lliain bwrdd, lliain sychu llestri

Ilwy llwy bren, llwy de, llwy fwrdd

Peiriant peiriant golchi, peiriant sychu dillad, peiriant golchi llestri, peiriant coffi,

peiriant gwnïo, peiriant pobi bara

Cwpwrdd cwpwrdd llestri, cwpwrdd cornel, cwpwrdd dillad, cwpwrdd crasu dillad

Cam 5 – Darllen

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen.

Ar ôl sicrhau bod y dysgwyr yn deall y darn, gofynnwch iddynt wneud y tasgau yn eu gwerslyfrau, sy'n ymarfer y ffurfiau lluosog.

Cam 6 – Sgwrsio

Defnyddiwch unrhyw gwestiynau o'r cardiau sgwrsio nad ydych wedi eu defnyddio eisoes i sbarduno sgwrs ar thema'r uned.

Uned 1 – Atodiad 1 – Cardiau Dinasoedd



Enw: Athen
Sefydlu: 3,000 C.C.
Maint: 2,929 km²
Poblogaeth: 664,046
Tymheredd cyfartalog
haf: 29°C
Tymheredd cyfartalog
gaeaf: 10°C



Enw: Lima
Sefydlu: 1535
Maint: 2,672 km²
Poblogaeth: 8.52 miliwn
Tymheredd cyfartalog
haf: 28°C
Tymheredd cyfartalog
gaeaf: 12°C



Enw: Talinn
Sefydlu: 1248
Maint: 159.2km²
Poblogaeth: 443,893
Tymheredd cyfartalog
haf: 19°C
Tymheredd cyfartalog
gaeaf: -4.3°C



Enw: Rhufain
Sefydlu: 753 C.C.
Maint: 1,285 km²
Poblogaeth: 2.87 miliwn
Tymheredd cyfartalog
haf: 30°C
Tymheredd cyfartalog
gaeaf: 8°C



Enw: Dinas Lwcsembwrg
Sefydlu: 963 O.C.
Maint: 51.46 km²
Poblogaeth: 115,227
Tymheredd cyfartalog
haf: 22°C
Tymheredd cyfartalog
gaeaf: -1.6



Enw: Caerdydd
Sefydlu: 50 O.C.
Maint: 140.3 km²
Poblogaeth: 346,100
Tymheredd cyfartalog
haf: 16°C
Tymheredd cyfartalog
gaeaf: 4

Uned 12 – Atodiad 2 – Sgript fylchog (De Cymru)

Deialog: Byw yn y Wlad

- A. Bore da. Dw i yma heddiw ar fferm Dyffryn Glas gyda'r teulu Jones. Allwch chi ddweud wrtha i beth dych chi'n ei gynhyrchu yma?
- B. Llaeth yn bennaf. Mae cant dau ddeg o gyda ni. Ond dyn ni hefyd yn cadw 100 o , ac wedi cael 4 oen bach newydd yr wythnos yma.
- A. Dych chi'n brysur! Oes ar y fferm hefyd?
- B. Na, dyn ni ddim yn tyfu cnydau ond mae gardd gyda ni. Mae'r plant yn tyfu a
- A. Faint o sy gyda chi?
- B. Pump. Dau fab a thair merch.
- A. Ydyn nhw'n helpu gyda'r ?
- B. Ydyn, chwarae teg. Mae'r ferch hynaf yn mwynhau helpu gyda'r godro, ac mae'r ddwy arall yn cadw Y merched sy'n gofalu am y hefyd.
- A. Beth am y ?
- B. Maen nhw'n iau na'u Maen nhw'n wyth ac yn chwech oed, ac mae'n well gyda nhw fod tu fa's gyda'r a'r Dyn nhw ddim yn helpu llawer, a dweud y gwir!
- A. Diolch yn fawr iawn am siarad â fi.
- B. Croeso!

Uned 12 – Atodiad 2 – Sgript fylchog (Gogledd Cymru)

Deialog: Byw yn y Wlad

- C. Bore da. Dw i yma heddiw ar fferm Dyffryn Glas efo'r teulu Jones. Fedrwch chi ddeud wrtha i be dach chi'n ei gynhyrchu yma?
- D. Llefrith yn bennaf. Mae gynnon ni gant dau ddeg o Ond dan ni hefyd yn cadw 100 o , ac wedi cael 4 oen bach newydd yr wythnos yma.
- C. Dach chi'n brysur! Oes 'na ar y fferm hefyd?
- D. Na, dan ni ddim yn tyfu cnydau ond mae gynnon ni ardd Mae'r plant yn tyfu a
- C. Faint o sy gynnoch chi?
- D. Pump. Dau fab a thair merch.
- C. Ydyn nhw'n helpu efo'r ?
- D. Ydyn, chwarae teg. Mae'r ferch hyna yn mwynhau helpu efo'r godro, ac mae'r ddwy arall yn cadw Y merched sy'n gofalu am y hefyd.
- C. Be am y ?
- D. Maen nhw'n fengach na'u Maen nhw'n wyth ac yn chwech oed, ac mae'n well gynnyn nhw fod tu allan efo'r a'r Dydyn nhw ddim yn helpu llawer, a deud y gwir!
- C. Diolch yn fawr iawn am siarad efo fi.
- D. Croeso!

Uned 12 – Atodiad 3 – Cerdyn sgwrsio

Cerdyn Sgwrsio – Bwyd (De Cymru)

- O'ch chi'n gwrthod bwyta rhai bwydydd pan o'ch chi'n blentyn? Dych chi'n bwyta'r bwydydd hynny nawr?
- Dych chi'n gogydd da?
- Pa fwydydd dych chi'n eu coginio amla?
- Dych chi'n bwyta cig?
- Dych chi'n ystyried calorïau ac ati wrth ddewis eich bwyd?
- Faint o'r gloch dych chi fel arfer yn bwyta eich prydau bwyd?
 - Brecwast?
 - Cinio?
 - Swper?
- Dych chi wastad yn bwyta swper wrth y bwrdd?
- Dych chi'n bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd?
- Oes hoff gaffi gyda chi? Ble mae e? Pam dych chi'n ei hoffi?
- Dych chi'n hoffi blasu bwydydd a diodydd newydd?
- Dych chi'n bwyta allan yn aml? Ble dych chi'n mynd fel arfer, a gyda phwy?
- Ddylai bwydydd sothach fod ar werth mewn ysgolion?
- Pa mor aml dych chi'n siopa bwyd?
- Beth gawsoch chi i ginio ddoe?
- Pa bryd bwyd dych chi'n ei goginio orau?

Cerdyn Sgwrsio – Bwyd (De Cymru)

- Dych chi'n casáu unrhyw fwyd? Pam?
- Soniwch am bryd o fwyd cofiadwy iawn.
- Beth oedd y pryd diwetha wnaethoch chi ei goginio i rywun arall?
- Beth yw'r pryd bwyd druta dych chi wedi ei fwyta?
- Beth yw'r bwyd mwya anarferol dych chi wedi ei flasau? Oedd e'n blasu'n dda neu'n ddrwg?
- Disgrifiwch eich hoff fwyd.
- Tasech chi'n cael dewis eich pryd bwyd ola am byth, beth fyddai'r pryd?
- Dych chi wedi cael gwenwyn bwyd?
- Oes ryseitiau yn eich teulu chi, sy wedi cael eu pasio o genhedlaeth i genhedlaeth?
- Dych chi erioed wedi ffeindio rhywbeth ych-a-fi yn eich bwyd?
- Dych chi erioed wedi anfon bwyd yn ôl mewn bwyty?
- Oes alergedd bwyd gyda chi?
- Ydy bwytai yn rhoi gormod o fwyd ar ein platiau?
- Pa fwydydd sy'n dod ag atgofion melys yn ôl i chi?

Uned 12 – Atodiad 3 – Cerdyn sgwrsio

Cerdyn Sgwrsio – Bwyd (Gogledd Cymru)

- Oeddech chi'n gwrthod bwyta rhai bwydydd pan oeddech chi'n blentyn? Dach chi'n bwyta'r bwydydd hynny rwan?
- Dach chi'n gogydd da?
- Pa fwydydd dach chi'n eu coginio amla?
- Dach chi'n bwyta cig?
- Dach chi'n ystyried calorïau ac ati wrth ddewis eich bwyd?
- Faint o'r gloch dach chi fel arfer yn bwyta eich prydau bwyd?
 - Brecwast?
 - Cinio?
 - Swper?
- Dach chi wastad yn bwyta swper wrth y bwrdd?
- Dach chi'n bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd?
- Oes gynnoch chi hoff gaffi? Lle mae o? Pam dach chi'n ei hoffi?
- Dach chi'n hoffi blasu bwydydd a diodydd newydd?
- Dach chi'n bwyta allan yn aml? Lle dach chi'n mynd fel arfer, ac efo pwy?
- Ddylai bwydydd sothach fod ar werth mewn ysgolion?
- Pa mor aml dach chi'n siopa bwyd?
- Be gaethoch chi i ginio ddoe?
- Pa bryd bwyd dach chi'n ei goginio orau?

Cerdyn Sgwrsio – Bwyd (Gogledd Cymru)

- Dach chi'n casáu unrhyw fwyd? Pam?
- Soniwch am bryd o fwyd cofiadwy iawn...
- Beth oedd y pryd diwetha wnaethoch chi ei goginio i rywun arall?
- Be ydy'r pryd bwyd druta dach chi wedi ei fwyta?
- Be ydy'r bwyd mwya anarferol dach chi wedi ei flasu? Oedd o'n blasu'n dda neu'n ddrwg?
- Disgrifiwch eich hoff fwyd.
- Tasech chi'n cael dewis eich pryd bwyd ola am byth, be fasai'r pryd?
- Dach chi wedi cael gwenwyn bwyd?
- Oes ryseitiau yn eich teulu chi, sy wedi cael eu pasio o genhedlaeth i genhedlaeth?
- Dach chi erioed wedi ffeindio rhywbeth ych-a-fi yn eich bwyd?
- Dach chi erioed wedi anfon bwyd yn ôl mewn bwyty?
- Oes gynnoch chi alergedd bwyd?
- Ydy bwytai yn rhoi gormod o fwyd ar ein platiâu?
- Pa fwydydd sy'n dod ag atgofion melys yn ôl i chi?

Uned 13 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Byw heb...

Nod yr uned yw adolygu'r defnydd o arddodiaid a siarad am fyw heb nifer o bethau.

Cam 1: Bylchau unigol neu lluosog (adolygu'r uned ddiwethaf – ffurfiau lluosog)

Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch i bob pâr fynd trwy'r brawddegau sydd â bylchau ynddynt, gan drafod pa enwau allai gael eu gosod yn y bylchau ac ystyried ai ffurf unigol ynteu'r lluosog ddylai fod yno. Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r ymarfer, ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan, gan drafod y rhesymau dros ddefnyddio'r unigol/lluosog.

Cam 2: Lluosog mewn lluniau (adolygu ffurfiau lluosog)

Mae'r lluniau isod o Gardiau Fflach CBAC ar gyflwyniad Powerpoint ar eich cof bach (a/neu ar safle'r cwrs ar y Safle Rhyngweithiol). Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 neu 4 a gofyn i bob grŵp benodi un i gofnodi geiriau ar ddarn o bapur. Dangoswch y llun cyntaf a dwedwch bod ganddynt rhyw 20 eiliad i nodi o leiaf 5 enw lluosog sydd i'w gweld yn y llun. Does dim rhaid cadw'n ddeddfol at yr amseru, gallwch orffen y dasg ynghynt os gwelwch bod pawb wedi cael 5 enw yn gyflym iawn, neu ymestyn ychydig ar yr amser os ydy'r geiriau'n araf yn dod, ond peidiwch ymestyn gormod gan mai gweithgaredd hwyliog, sydyn yw hwn i fod – does dim ots os nad ydy pawb wedi cyrraedd eu cwota o enwau! Gofynnwch i bob grŵp pa enwau sydd ganddynt gan gadarnhau os ydynt yn gywir neu gywiro os nad ydynt. Nodwch unrhyw rai anarferol neu ble gall fod anhawster gyda'u sillafu ar y bwrdd gwyn. Ailadroddwch y dasg gyda'r ail lun, ond gan ofyn iddynt nodi 7 enw lluosog. Cynyddwch yr her i 9 enw gyda'r trydydd llun ac i 11 enw gyda'r pedwerydd.

Llun 1



Llun 2



Llun 3



Llun 4



Cam 3: Darllen – Allwn i byth fyw heb.../ Faswn i byth yn medru byw heb...

Dechreuwch trwy ofyn i aelodau'r dosbarth beth yw'r canlynol (un ar y tro) yn Gymraeg:

A period (of time), Lent, well-known, smooth, a keen Twitterer, captive, trivial

Maent wedi eu nodi yn yr eirfa ar ddechrau'r uned os bydd unrhyw anhawster!

Rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau o 3 a gofyn iddynt:

- i. ddarllen trwy'r darn darllen yn uchel, gan newid y darllenydd wrth symud o un o'r rhannau canlynol i'r nesaf: cyflwyniad, Rhodri Owen, Eleri Siôn, Tudur Owen.
- ii. Rhoi'r ticiau yn y grid (cwestiwn 1).
- iii. Chwilio am yr ymadroddion sy'n cyfateb i'r rhai yng Nghwestiwn 2 (efallai y bydd angen cymorth i esbonio ystyr yr ymadroddion).
- iv. Cwblhau rhediad yr arddodiad heb. Dyma'r atebion cywir disgwylidig:

hebdo i
 hebddot ti
 hebdo fe
 hebddi hi
 hebddon ni
 hebddoch chi
 hebddyn nhw

Trafodwch yr atebion i'r cwestiynau uchod gyda'r dosbarth cyn symud ymlaen i'r gweithgaredd siarad.

Cam 4: Siarad

Gofynnwch i bawb fynd trwy'r rhestr o bethau sydd wedi'u nodi yn yr uned a rhoi sgôr o 0 i 5 i bob un i ddynodi pa mor anodd fyddai hi iddyn nhw fyw hebddyn nhw (0 = dim trafferth o gwbl, 5 = allwn i byth fyw heb.../faswn i byth yn medru byw heb...). Wedi iddynt wneud hynny, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch iddynt drafod eu sgoriau a'r syniad o fyw heb y pethau hyn. Cyn iddynt ddechrau trafod, tynnwch sylw at y cwestiynau y gellir eu defnyddio wrth drafod sydd yn y blwch ar ddechrau'r gweithgaredd a rhowch enghraifft o'r math o ymateb a ddisgwylwch; e.e.:

'Dw i wedi rhoi sgôr o 5 i goffi – fel Rhodri Owen, allwn i byth fyw heb gael coffi cryf yn y bore i fy nihuno a gwella fy hwyliau. A dw i'n cael sawl dyshgled o goffi yn ystod y dydd i fy nghadw i i fynd. Heb goffi, dw i ddim yn meddwl baswn i'n gallu gwneud fy ngwaith a faswn i ddim yn berson neis iawn i fod gyda fe chwaith!

Mae modd estyn y drafodaeth ymhellach trwy ofyn a oes unrhyw beth sydd heb ei nodi yma na fydden nhw byth yn gallu byw hebdo.

Cam 5: Gwrando – Deialog Siân ac Eifion (Atodiad 1)

Dilynwch y camau canlynol gyda'r ddeialog:

- i. Chwaraewch y ddeialog trwyddi i ddechrau, heb osod unrhyw dasg.
- ii. Tynnwch sylw at y rhestr ganlynol o eiriau a gofyn iddynt wrando amdanynt wrth i chi chwarae'r ddeialog yr ail dro: **mynnu, melys, yn bendant, cliriach, cyflawni, rhuthro.**
- iii. Gofynnwch a oedd pawb wedi clywed pob un o'r geiriau uchod. Ar gyfer pob gair, holwch un o'r dysgwyr (un oedd wedi clywed y gair a rhywun gwahanol ar gyfer pob gair os oes modd) pwy ddwedodd y gair ac at ba bwrpas.
- iv. Gofynnwch i barau drafod cwestiwn 2. Wedi iddynt fynd trwy bob un o'r is-gwestiynau yma, gallwch ofyn i un o'r dysgwyr ddweud pwy mae e/hi'n meddwl sydd fwyaf prysur a pham mae'n dweud hynny. Wedyn gofynnwch ydy pawb yn cytuno ac os oes rhywun yn anghytuno gofynnwch pam, e.e. "Dych chi'n meddwl bod ____ yn fwy prysur na ____ felly? Pam dych chi'n dweud hynny?" Gallwch ailadrodd hyn ar gyfer pob un o'r is-gwestiynau.
- v. De Cymru yn unig - Chwaraewch y darn eto wedi i chi ofyn i bawb wrando am yr ymadroddion a nodir yng nghwestiwn 3. Yna, gofynnwch i barau gysylltu'r parau o ymadroddion cyn i chi wirio'r atebion gyda'r dosbarth cyfan.

Gofynnwch am enghreifftiau eraill pryd caiff yr ymadroddion hyn eu defnyddio, h.y:

- a. 'Ofnadw(y)' gydag ansoddair i olygu' iawn, iawn'!
- b. Cael bach clou.
- c. Bachu
- ch. Bobo
- d. Mynd o un i'r llall.

Cam 6: Tabl arddodiaid

Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch iddynt geisio ychwanegu dwy ferf at bob arddodiad yn y tabl a llenwi'r bylchau o ran sut mae'r arddodiaid yn rhedeg gyda phob rhagenw. Dyma rai berfau posibl all gael eu hychwanegu at y tabl:

De Cymru: â – siarad â, cysylltu â, ymaelodi â, ffarwelio â, mynd â, dod â
 Gogledd Cymru: â – mynd â, dod â
 am – chwilio am, sôn am, aros am, darllen am, ysgrifennu am, meddwl am
 ar – gwrando ar, blino ar, ymosod ar, syllu ar
 at – mynd at, anfon at, ysgrifennu at, synnu at
 i – rhoi i, dangos i, tueddu i, maddau i
 wrth – dweud/deud wrth

Cam 7: Siarad – cwestiynau sy'n dechrau gydag arddodiaid

Dosbarthwch gardiau â'r cwestiynau isod arnynt (Atodiad 2) – un i bob dysgwr. Gofynnwch i bawb godi ar eu traed a chrwydro'r dosbarth yn gofyn eu cwestiwn i bawb arall. Wedi gwneud hynny, gofynnwch i bob un yn ei dro beth oedd yr ateb mwya diddorol gawson nhw.

Cam 8: Ymarferion gydag arddodiaid

Ymarfer llafar ydy'r un cyntaf – rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch i un partner ddarllen y cwestiwn sydd ar y chwith a'r partner arall i ateb gyda brawddeg lawn, gan ddefnyddio rhagenw yn lle'r enw. Yn sgil hynny, bydd gofyn iddynt redeg yr arddodiaid. Mae'r un cyntaf wedi ei ysgrifennu'n llawn fel enghraifft.

Wedi cwblhau'r uchod, gofynnwch i'r parau ail-wneud yr ymarfer, gan newid yr elfen sydd wedi'i thanlinellu ym mhob cwestiwn. Rhowch enghraifft o sut gallai hyn weithio,

e.e. Oedd e/o'n gweiddi ar Ann?

Oedd. Roedd e/o'n gweiddi arni hi.

Gofynnwch i'r parau wedyn fynd trwy'r ymarfer llenwi bylchau ac ewch dros yr atebion. Gellir ychwanegu'r ymarfer hwn at y gwaith cartref os na fydd digon o amser i'w wneud yn y dosbarth.

Uned 13 – Atodiad 1 – Deialog (De Cymru)

Siân: Eifion! Sut wyt ti? Sa i wedi dy weld di ers misoedd.

Eifion: Haia Siân! Ro'n i'n bwriadu dy ffonio di, ond dw i wedi bod yn fishi ofnadw. Dw i'n mynd i gael coffi bach clou nawr cyn mynd i gyfarfod arall. Licet ti ddod gyda fi am ddysgled a sgwrs?

Siân: Sa i'n yfed coffi ar hyn o bryd, a dweud y gwir wrthot ti. Ond dof fi gyda ti 'ta beth i gael clonc.

YN Y CAFFI

Eifion: Reit 'te, beth ti'n moyn? Capuccino? Latte? Americano? Espresso?

Siân: So ti'n gwrandu dim arna i! Dw i newydd ddweud wrthot ti mod i ddim yn yfed coffi am gyfnod. Gaf fi de gwyrdd os gweli di'n dda?

Eifion: Te gwyrdd? Olreit 'te, os wyt ti'n mynnu. Cer i fachu'r ford 'na draw fan'na a dof fi draw atat ti.

YN DOD AT Y FORD

Eifion: Oê, dyma ni – espresso dwbl i fi a [*awgrym o droi ei drwyn*] the gwyrdd i ti. Dw i wedi cael bobo gacen i ni hefyd. Beth wyt ti'n moyn – chocolate chip neu brownie?

Siân: Dim un i fi, diolch – dw i ddim yn bwyta pethau melys chwaith ar hyn o bryd.

Eifion: Dim coffi, dim cacs! Beth yn y byd sydd wedi digwydd i ti, Siân Roberts?

Siân: Dw i wedi penderfynu mynd heb goffi a phethau melys am fis i lanhau'r corff. Ro'n i'n cael llawer gormod ohonyn nhw ac ro'n i'n teimlo'n dost. Dw i wedi mynd hebddyn nhw ers tair wythnos nawr a dw i'n teimlo llawer gwell. Efallai gwna i ddal i fyw hebddyn nhw ar ôl diwedd y mis; fydda i'n bendant ddim yn mynd yn ôl i yfed cymaint o goffi ag o'n i.

Eifion: Hmmm, gawn ni weld am hynny. Allwn i byth fyw heb fy nghoffi – mae rhaid i fi gael sawl dysgled yn ystod y dydd i fy nghadw i i fynd o un peth i'r llall. Ac wrth gwrs, mae rhaid cael rhywbeth bach melys gyda'r coffi bob tro.

Siân: A dweud y gwir wrthot ti, dw i'n gallu meddwl yn llawer cliriach ers rhoi'r gorau i'r coffi, dw i'n blino llai a dw i'n credu mod i'n cyflawni llawer mwy heb fod yn rhuthro o gwmpas fel ffwl drwy'r dydd.

Eifion: [*yn llowcio'r diferyn olaf o'i choffi*] Dwed ti, Siân! Nawr esgusoda fi, rhaid i fi frysio i gyrraedd y cyfarfod 'na mewn pryd! Roedd hi'n braf cael sgwrs 'da ti, mwynha'r te gwyrdd 'na nawr!

Siân: Ie, pob hwyl i ti Eifion. Wela i di eto cyn bo hir, gobeithio!

Uned 13 – Atodiad 1 – Deialog (Gogledd Cymru)

Siân: Eifion! Sut wyt ti? Dw i ddim wedi dy weld di ers misoedd.

Eifion: Haia Siân! Ro'n i'n bwriadu dy ffonio di, ond dw i wedi bod yn ofnadwy o brysur. Dw i'n mynd i gael coffi bach sydyn rwan cyn mynd i gyfarfod arall. Faset ti'n licio dod efo fi am banad a sgwrs?

Siân: Dw i ddim yn yfed coffi ar hyn o bryd, a dweud y gwir wrthat ti. Ond mi ddo i efo ti beth bynnag i gael sgwrs.

YN Y CAFFI

Eifion: Reit 'te, be t'isio? Capuccino? Latte? Americano? Espresso?

Siân: Dwyt ti ddim yn gwrandu arna i o gwbl! Dw i newydd ddeud wrthat ti mod i ddim yn yfed coffi am gyfnod. Ga i de gwyrdd os gweli di'n dda?

Eifion: Te gwyrdd? Olreit 'te, os wyt ti'n mynnu. Dos i fachu'r bwrdd 'na draw fan'cw ac mi ddo i draw atat ti.

YN DOD AT Y BWRDD

Eifion: Oê, dyma ni – espresso dwbl i fi a [awgrym o droi ei drwyn] the gwyrdd i ti. Dw i wedi cael cacen yr un i ni hefyd. Be t'isio – chocolate chip neu brownie?

Siân: Dim un i fi, diolch – dw i ddim yn bwyta pethau melys chwaith ar hyn o bryd.

Eifion: Dim coffi, dim cacennau! Be yn y byd sydd wedi digwydd i ti, Siân Roberts?

Siân: Dw i wedi penderfynu mynd heb goffi a phethau melys am fis i lanhau'r corff. Ro'n i'n cael llawer gormod ohonyn nhw ac ro'n i'n teimlo'n sâl. Dw i wedi mynd hebddyn nhw ers tair wythnos rwan a dw i'n teimlo llawer gwell. Ella gwna i ddal i fyw hebddyn nhw ar ôl diwedd y mis; fydda i'n bendant ddim yn mynd yn ôl i yfed cymaint o goffi ag o'n i.

Eifion: Hmmm, gawn ni weld am hynny. Faswn i byth yn medru byw heb fy nghoffi – mae rhaid i fi gael sawl panad yn ystod y dydd i fy nghadw i i fynd o un peth i'r llall. Ac wrth gwrs, mae rhaid cael rhywbeth bach melys efo'r coffi bob tro.

Siân: A deud y gwir wrthat ti, dw i'n medru meddwl yn llawer cliriach ers rhoi'r gorau i'r coffi, dw i'n blino llai a dw i'n teimlo mod i'n cyflawni llawer mwy heb fod yn rhuthro o gwmpas fel ffŵl drwy'r dydd.

Eifion: [yn llowcio'r diferyn olaf o'i choffi] Duda di, Siân! Rwan esgusoda fi, rhaid i mi frysio i gyrraedd y cyfarfod 'na mewn pryd! Roedd hi'n braf cael sgwrs efo ti, mwynha'r te gwyrdd 'na rwan!

Siân: Ia, pob hwyl i ti Eifion. Wela i di eto cyn bo hir, gobeithio!

Uned 13 – Atodiad 2 (De Cymru)

Ar ba sianel deledu dych chi'n edrych amla?

Ar ba orsaf radio dych chi'n gwranddo amla?

At bwy dych chi'n anfon cardiau Nadolig, os o gwbl?

Ym mha sir cawsoch chi eich geni?

Ym mha siop dych chi'n prynu bwyd amla?

**Ym mha wlad cafodd y dillad dych chi'n eu gwisgo
heddiw eu gwneud?**

**I bwy dych chi'n gweithio?/I bwy ro'ch chi'n gweithio
yn eich swydd ddiwetha?**

Am beth dych chi'n siarad gyda ffrindiau?

I ba wledydd yn Ewrop dych chi wedi bod?

O ble neu gan bwy prynoch chi'ch car diwetha?

Gan bwy cawsoch chi lythyr yr wythnos diwetha?

I ble byddwch chi'n mynd ar eich gwyliau nesa?

Uned 13 – Atodiad 2 (Gogledd Cymru)

Ar ba sianel deledu dach chi'n edrych amla?

Ar ba orsaf radio dach chi'n gwrando amla?

At bwy dach chi'n anfon cardiau Nadolig, os o gwbl?

Ym mha sir gaethoch chi eich geni?

Ym mha siop dach chi'n prynu bwyd amla?

**Ym mha wlad gaeth y dillad dach chi'n eu gwisgo
heddiw eu gwneud?**

**I bwy dach chi'n gweithio?/I bwy oeddech chi'n gweithio
yn eich swydd ddiwetha?**

Am be dach chi'n siarad efo ffrindiau?

I ba wledydd yn Ewrop dach chi wedi bod?

O le neu gan bwy brynoch chi'ch car diwetha?

Gan bwy gaethoch chi lythyr yr wythnos diwetha?

I le fyddwch chi'n mynd ar eich gwyliau nesa?

Uned 14 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu dechrau brawddeg/cwestiwn ag arddodiaid

Mae holiadur syml ar ddechrau'r Uned, ac ynddo gwestiynau sy'n dechrau ag arddodiaid. Gofynnwch i'r dysgwyr gerdded o gwmpas y dosbarth, i ofyn yr wyth cwestiwn i dri dysgwr. Y nod yw ymarfer y cwestiynau a sgwrsio. Nid oes ots os nad yw'r dysgwyr yn anfon cardiau post at bobl, nac ychwaith yn pleidleisio dros bobl mewn rhaglenni realaeth ar y teledu.

Cam 2

Storom Eirfa Dillad

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner i nodi o leiaf 10 eitem o eirfa yn ymwneud â dillad a ffasiwn. Mae lle iddynt nodi'r geiriau mwyaf defnyddiol yn eu gwrslyfrau. Gofynnwch am ddetholiad i'w nodi ar y bwrdd gwyn, gan ymestyn lle bynnag y bo modd.

Cam 3

Cerdyn Sgwrsio - Dillad

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch gopi o'r cerdyn sgwrsio cyntaf i bob pâr (Atodiad 1). Rhowch amser iddynt i drafod y cwestiynau ac ymhelaethu, ond pwysleiswch nad oes rhaid gofyn y cwestiynau i gyd. Y nod yw cael sgwrs fywiog ar y testun.

Cam 4



Gwyllo a Gwrando: Steffan Rhodri yn ymweld â ffatri Corgi yn Rhydaman.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a Gwrando.

i) Esboniwch yr eirfa sydd wedi'i nodi, a gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r geiriau wrth eu clywed.

ii) **Dyma atebion y cwestiynau (bydd y dysgwyr yn trafod ar lafar)**

1. **Esboniwch pam mae'r geiriau hyn yn codi yn y darn.**

cenhedlaeth

Mae 5 cenhedlaeth o'r un teulu wedi bod yn cynhyrchu tecstilau yn ffatri Corgi

John Rees Jones

Fe ddechreuodd y cwmni. Roedd e'n gwneud sanau i'r glowyr, i'w gwisgo i fynd i'r capel

Sir Benfro

Mae'r ffatri'n cael eu gwlan o'r rhan hon o Gymru.

10 awr

Dyna faint o amser mae'n ei gymryd i wau siwmpwr gyda'r peiriant gwau â llaw.

2. **Enwch 4 gwlad sy'n mewnforio cynnyrch Corgi**

Unrhyw 4 o'r rhain: Prydain, UDA, Japan, nifer o wledydd Ewrop, Rwsia, Canada, De Affrica (De'r Affrig a ddywedir yn y fideo), Corea ac Awstralia.

iii) Mae angen i'r dysgwyr baru'r idiomau (sydd yn y fideo) gyda'r diffiniad cywir.

Mae'r arddodiad cyfansawdd 'o'n cwmpas ni' a nodir yn y gwrslyfrau yn arwain at gam 5...

Cam 5

Arddodiaid Cyfansawdd

Trafodwch y cartwnau gyda'r dysgwyr, gan sicrhau eu bod yn deall ystyr pob un. Yna, gwnewch yr ymarfer sy'n seiliedig ar y cartwnau (newid person yr arddodiaid yn y cartwnau).

Cam 6

Driliau

- Mae'r ymarfer hwn yn y gwrslyfrau. Gallech wneud y brawddegau hyn fel dril gyda'r dosbarth ar ôl llenwi'r bylchau (heb edrych ar y llyfrau) trwy alw'r person a gofyn iddynt ymateb e.e.

Fi	Mae e/o wedi gwneud siwt ar fy nghyfer i
Ti	Mae e/o wedi gwneud siaced ar dy gyfer di
Y priodfab	Mae e/o wedi gwneud siwt ar gyfer y priodfab ac ati.

- Drilio 'O dy flaen'

Person 1

Dw i wedi pasio fy arholiadau i gyd
 Rwy'ti wedi pasio dy arholiadau i gyd
 Mae Elis wedi pasio ei arholiadau i gyd
 Mae Siân wedi pasio ei harholiadau i gyd
 'Dyn/Dan ni wedi pasio ein harholiadau i ni
 Dych/Dach chi wedi pasio'ch arholiadau i gyd
 Maen nhw wedi pasio eu harholiadau i gyd

Person 2

Mae dyfodol disglair o dy flaen di
 Mae dyfodol disglair o fy mlaen i
 Mae dyfodol disglair o'i flaen e/o
 Mae dyfodol disglair o'i blaen hi
 Mae dyfodol disglair o'n blaen ni/
 Mae dyfodol disglair o'ch blaen chi
 Mae dyfodol disglair o'u blaen nhw

- Drilio 'er mwyn'

Person 1

Dw i'n gwneud ymdrech er dy fwyn di
 Dw i'n gwneud ymdrech er mwyn Dafydd
 Dw i'n gwneud ymdrech er mwyn Nia
 Dw i'n gwneud ymdrech er ein mwyn ni
 Dw i'n gwneud ymdrech er mwyn y staff

Person 2

Paid â gwneud ymdrech er fy mwyn i!
 Paid â gwneud ymdrech er ei fwyn e/o!
 Paid â gwneud ymdrech er ei mwyn hi!
 Paid â gwneud ymdrech er ein mwyn ni!
 Paid â gwneud ymdrech er eu mwyn nhw!

- Ceir dril ymestynnol ychwanegol isod, ynghyd ag ymarfer ysgrifenedig.

Taclusa'r annibendod/blerwch o flaen y tŷ gwydr	Does dim annibendod o'i flaen e/o!
Taclusa'r annibendod/blerwch o gwmpas y tŷ gwydr	Does dim annibendod o'i gwmpas e/o!
Taclusa'r annibendod/blerwch yn ymyl y tŷ gwydr	Does dim annibendod yn ei ymyl e/o!
Taclusa'r annibendod/blerwch wrth ochr y tŷ gwydr	Does dim annibendod wrth ei ochr e/o!

Yna, yr un dril gyda gair benywaidd (ysgol) a gair lluosog (cypyrddau)

Taclusa'r annibendod/blerwch o flaen yr ysgol	Does dim annibendod o'i blaen hi!
	Does 'na ddim blerwch o'i blaen hi!

Cam 7

Y gwir, yr holl wir a'r gwir yn unig: Byd Ffasiwn

Gall y dysgwyr wneud y dasg yma mewn parau neu grwpiau, yn dibynnu ar faint y dosbarth.

Rhowch amser iddynt i drafod y ffeithiau isod. Yna, rhaid iddynt gyflwyno eu casgliadau i'r dosbarth. Nodir yr atebion cywir isod, ynghyd ag ychydig o ffeithiau ychwanegol, er gwybodaeth.

1. Cafodd yr hetiau Cymreig cyntaf eu gwneud o ffwr ceffylau du. ✗ *Cafodd rhai hetiau eu gwneud o ffwr afanc ond roedd y rhan fwyaf yn cael eu gwneud o ffelt neu sidan.*
 2. Yn oes y Frenhines Elisabeth I, roedd pobl yn mynd yn sâl achos eu bod nhw'n gwisgo colur wedi ei wneud o blwm. ✓ *Y ddelfryd oedd croen gwelw, trwyn cul, aeliau tenau a gwallt golau.*
 3. Yn 2016, cafodd un o ffrogiau Marilyn Monroe ei gwerthu am 4.8 miliwn o ddoleri. ✓ *Dyna'r ffrog wisgodd hi i ganu pen-blwydd hapus i John F. Kennedy.*
 4. Roedd y Frenhines Victoria yn gwrthod gwisgo dillad isaf cotwm. Roedd yn rhaid iddi gael dillad isaf sidan bob amser. ✗ *Roedd hi'n gwisgo dillad isaf cotwm. Yn 2016, cafodd pâr o'i nicers eu gwerthu am £12,250.*
 5. Mae lycra yn cael ei wneud o fandiau lastig wedi eu hailgylchu. ✗ *Nac ydy. Mae'n ddeunydd artiffisial, sy'n gryfach na rwber naturiol.*
 6. Y defnydd druta yn y byd yw gwlan y ddafad vucana o Beriw. ✓ *Dim ond bob tair blynedd mae'r defaid hyn yn gallu cael eu cneifio. Mae eu gwlan yn costio rhwng \$1,800 - \$3,000 y llath felly byddai sgarff yn costio tua \$20,000.*
 7. Yn yr Hen Aifft, roedd dynion a menywod yn gwisgo colur a gwallt gosod. ✓
 8. Yn y 1920au roedd y gantores jazz Vera Louise yn enwog am wisgo cot o ffwr llygod bach. ✗ *Does dim y fath berson â Vera Louise!*
 9. Mae UDA yn gwario mwy ar ddillad nag unrhyw wlad arall yn y byd. ✗ *Yn ôl ystadegau 2016, Awstralia sy'n gwario fwy ar ddillad (wedyn Canada, wedyn Japan. U.D.A sydd yn y 5ed safle).*
 10. Roedd gwallt milwyr Celtaidd yn wyn ac yn bigog. ✓ *Yn ôl haneswyr Rhufeinig, roedd milwyr Celtaidd yn rhoi calch ar eu gwalltiau, fel mae pobl yr oes yma yn defnyddio mousse neu gel.*
- Mae'r gystrawen 'wedi ei wneud o...' yn codi'n aml yn y cwis. Gallech ddod â chasgliad o ddillad neu wrthrychau amrywiol i'r dosbarth, a gofyn i'r dysgwyr ddyfalu o ba ddefnydd y cawsant eu gwneud gan ymarfer y gystrawen, e.e.:
Mae hwn wedi'i wneud o sidan / Mae'r sanau wedi'u gwneud o wlan ac ati.

Ar ôl y dasg hon, ceir ymarfer cydleoiliadau'n seiliedig ar y ffeithiau. Dyma rai syniadau rhag ofn y bydd angen rhoi rhagor o enghreifftiau:

het	ffrog	dillad	gwallt	cot
het haul het briodas	ffrog briodas ffrog wen ffrog barti ffrog hir	dillad ail law dillad gwaith dillad gorau	gwallt gosod gwallt cyrliog gwallt syth	cot law cot ysgol cot orau cot fawr cot o baent

Cam 8



Gwranddo

Ceir pedwar clip byr. Byddai'n syniad da chwarae pob un yn unigol a'u hailchwarae yn ôl yr angen. Yn ogystal â'r eirfa a nodir, efallai y bydd angen esbonio rhai geiriau / ynganiadau tafodieithol e.e. 'yn dôl' yn lle 'yn ôl', yn narn gwranddo Owain Jones.

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau ar y darnau.

Yna, rhannwch y dosbarth yn 4 grŵp. Gofynnwch i bob grŵp wrando ar un clip eto, a meddwl am ddau gwestiwn i'r lleill eu hateb ar y clip hwnnw. Gall y dysgwyr wrando ar y clip ar eu ffonau / llechi os oes WiFi yn yr ystafell ddosbarth. Fel arall, bydd angen i chi fynd o gwmpas pob grŵp gyda'ch cyfarpar chi, i chwarae'r clip iddynt.

Os yw eich dosbarth yn fach, gallech rannu'r dysgwyr yn 2 grŵp a rhoi dau glip yr un iddynt.

Ar ôl i bawb ateb cwestiynau ei gilydd, gallech arwain sgwrs am wallt, e.e. Ydyn nhw'n mwynhau mynd i salon trin gwallt? Ydy cael gwallt taclus yn bwysig? Ydyn nhw'n hapus i wario llawer o arian ar eu gwalltiau? Ac ati. Efallai y bydd rhywbeth arall wedi codi o wrando ar y darnau.

Atodiad 1 - Y De



Cardiau Sgwrsio Ffasiwn

- | |
|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Dych chi'n prynu dillad newydd yn aml? • Oes rhywun yn dod gyda chi i roi cyngor i chi? • Beth yw'r dilledyn drutaf dych chi erioed wedi ei brynu? • Dych chi'n mwynhau siopa yn y sêls? • Dych chi erioed wedi prynu dillad ail-law? • Pryd a ble wnaethoch chi brynu'r dillad dych chi'n eu gwisgo nawr? Pam wnaethoch chi eu prynu nhw? • Dych chi'n dilyn syniadau ffasiwn ar y we? |
| <ul style="list-style-type: none"> • Ydy dillad yn effeithio ar sut 'dyn ni'n ymddwyn? • Ydy hi'n iawn i athrawon wisgo dillad anffurfiol? • O'ch chi'n gwisgo gwisg ysgol? Dych chi'n credu bod gwisg ysgol yn syniad da? • Pryd oedd y tro diwethaf i chi wisgo dillad smart iawn? Pam? • Os oes cod gwisg ar gyfer digwyddiad, dych chi'n dilyn y cod? • Faint o amser dych chi'n ei dreulio yn paratoi i fynd: <ul style="list-style-type: none"> - I'r gwaith? - Allan gyda ffrindiau? - I achlysur arbennig? |
| <ul style="list-style-type: none"> • Dych chi'n prynu dillad newydd yn aml? • Oes rhywun yn dod gyda chi i roi cyngor i chi? • Beth yw'r dilledyn drutaf dych chi erioed wedi ei brynu? • Dych chi'n mwynhau siopa yn y sêls? • Dych chi erioed wedi prynu dillad ail-law? • Pryd a ble wnaethoch chi brynu'r dillad dych chi'n eu gwisgo nawr? Pam wnaethoch chi eu prynu nhw? • Dych chi'n dilyn syniadau ffasiwn ar y we? |
| <ul style="list-style-type: none"> • Ydy dillad yn effeithio ar sut 'dyn ni'n ymddwyn? • Ydy hi'n iawn i athrawon wisgo dillad anffurfiol? • O'ch chi'n gwisgo gwisg ysgol? Dych chi'n credu bod gwisg ysgol yn syniad da? • Pryd oedd y tro diwethaf i chi wisgo dillad smart iawn? Pam? • Os oes cod gwisg ar gyfer digwyddiad, dych chi'n dilyn y cod? • Faint o amser dych chi'n ei dreulio yn paratoi i fynd: <ul style="list-style-type: none"> - I'r gwaith? - Allan gyda ffrindiau? - I achlysur arbennig? |

Atodiad 1 - Y Gogledd



Cardiau Sgwrsio Ffasiwn

- Dach chi'n prynu dillad newydd yn aml?
- Oes na rywun yn dŵad efo chi i roi cyngor i chi?
- Be ydy'r dilledyn druta dach chi erioed wedi'i brynu?
- Dach chi'n mwynhau siopa yn y sêls?
- Dach chi erioed wedi prynu dillad ail-law?
- Pryd a lle wnaethoch chi brynu'r dillad dach chi'n eu gwisgo rŵan? Pam wnaethoch chi eu prynu nhw?
- Dach chi'n dilyn ffasiwn ar y we?

- Ydy dillad yn effeithio ar sut dan ni'n ymddwyn?
- Ydy hi'n iawn i athrawon wisgo dillad anffurfiol?
- Oeddech chi'n gwisgo gwisg ysgol? Dach chi'n meddwl bod gwisg ysgol yn syniad da?
- Pryd oedd y tro diwetha i chi wisgo dillad smart iawn? Pam?
- Os oes 'na god gwisg ar gyfer digwyddiad, dach chi'n dilyn y cod?
- Faint o amser dach chi'n ei dreulio yn paratoi i fynd:
 - I'r gwaith?
 - Allan efo ffrindiau?
 - I achlysur arbennig?

- Dach chi'n prynu dillad newydd yn aml?
- Oes na rywun yn dŵad efo chi i roi cyngor i chi?
- Be ydy'r dilledyn druta dach chi erioed wedi'i brynu?
- Dach chi'n mwynhau siopa yn y sêls?
- Dach chi erioed wedi prynu dillad ail-law?
- Pryd a lle wnaethoch chi brynu'r dillad dach chi'n eu gwisgo rŵan? Pam wnaethoch chi eu prynu nhw?
- Dach chi'n dilyn ffasiwn ar y we?

- Ydy dillad yn effeithio ar sut dan ni'n ymddwyn?
- Ydy hi'n iawn i athrawon wisgo dillad anffurfiol?
- Oeddech chi'n gwisgo gwisg ysgol? Dach chi'n meddwl bod gwisg ysgol yn syniad da?
- Pryd oedd y tro diwetha i chi wisgo dillad smart iawn? Pam?
- Os oes 'na god gwisg ar gyfer digwyddiad, dach chi'n dilyn y cod?
- Faint o amser dach chi'n ei dreulio yn paratoi i fynd:
 - I'r gwaith?
 - Allan efo ffrindiau?
 - I achlysur arbennig?

Atodiad 2



YMESTYN

Cyfieithwch

1. Who sat next to you (ti) on the bus?
2. He's preparing a special meal for me.
3. They've argued with the people who live in the flat above them.
4. You shouldn't interrupt him when he's speaking.
5. She thinks that everyone is against her.
6. The lorry was in front of them.
7. They should go after you (chi).
8. They were quarreling in front of us.
9. The mess in the bathroom? I don't know anything about it. (ynghylch)
10. I think that the vote will go in our favour.

Atebion

1. Who sat next to you on the bus?
Pwy oedd yn eistedd ar dy bwys di/yn dy ymyl di ar y bws?
2. He's preparing a special meal for me.
Mae e'n/o'n paratoi pryd bwyd arbennig ar fy nghyfer i.
3. They've argued with the people who live in the flat above them.
Maen nhw wedi cweryla gyda'r bobl/ffraeo efo'r bobl sy'n byw yn y fflat uwch eu pen(nau).
4. You shouldn't interrupt him when he's speaking.
Ddylet ti ddim torri ar ei draws e/o pan mae e'n/o'n siarad.
5. She thinks that everyone is against her.
Mae hi'n meddwl / credu bod pawb yn ei herbyn hi.
6. The lorry was in front of them.
Roedd y lorri o'u blaen (blaenau) nhw.
7. You should go after him.
Dylet/Mi ddylet ti fynd ar ei ôl e/o.
8. They were quarreling in front of us.
Ro'n/Roedden nhw'n cweryla/ffraeo o'n blaenau ni.
9. The mess in the bathroom? I don't know anything about it.
Yr annibendod/Y blerwch yn yr ystafell ymolchi? Dw i ddim yn gwybod dim byd yn ei gylch.
10. I think that the vote will be in our favour.
Dw i'n meddwl bydd y bleidlais o'n plaid ni.

Uned 15 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu Ansoddeiriau Cyfansawdd

Cyn y wers, torrwyd y cardiau jig-so ansoddeiriau cyfansawdd sydd yn Atodiad 1.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru. Rhowch gopi o'r cardiau jig-so iddynt. Mae angen cadw'r cardiau yn eu colofnau priodol. Rhaid iddynt roi'r cardiau gyda'i gilydd i ffurfio brawddegau ystyrlon (sy'n cynnwys ansoddeiriau cyfansawdd). Cyn torri'r cardiau, byddwch wedi gweld y brawddegau cyfan. Ar ôl rhoi digon o amser iddynt i wneud y gwaith, trafodwch y brawddegau gyda'r dysgwyr gan sicrhau fod pawb wedi defnyddio'r ansoddeiriau cyfansawdd yn gywir.

Cam 2

Cyflwyno thema 'Amser'

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch gopi o'r siart PYE gwag i bawb (Atodiad 2). Gofynnwch iddynt rannu'r siart yn unol â sut maen nhw'n rhannu eu hamser a gadael i'r siart arwain at siarad rhydd gyda'r partner. Yna, os oes amser, gall y partneriaid adrodd yn ôl am eu siartiau o flaen y dosbarth.

Cam 3

**Cynigir nifer o ddriliau posib isod, ond dylid dewis a dethol.
Does dim rhaid cyflwyno'r cyfan.**

Driliau Rhifolion

i. Oedran (mae'r dril yn eu gweryslyfrau)

- Cyn dechrau'r dril, pwysleiswch fod blwyddyn yn fenywaidd, felly rhaid defnyddio ffurfiau benywaidd y rhifolion wrth sôn am oedran dynion a menywod.

- Esboniwch bod deugain, hanner cant, trigain a phedwar ugain yn cael eu defnyddio'n aml iawn o hyd, ond bod siaradwyr Cymraeg rhugl fel arfer yn defnyddio'r dull modern (tri deg un, pedwar deg un, pum deg un ac ati) ar gyfer rhifau sydd ddim yn diweddu â sero.

Mae Rhys yn ddwy ar bymtheg oed	Deunaw y flwyddyn nesal!
Mae Nia'n ugain oed y flwyddyn nesal!
Mae Mali'n dri deg naw y flwyddyn nesal!
Mae Gethin yn bum deg naw y flwyddyn nesal!
Mae Gwilym yn saith deg naw y flwyddyn nesal!
Mae Efa yn naw deg naw y flwyddyn nesal!

ii. amser

- Esboniwch: os byddwn ni'n defnyddio enw gyda rhif ac yn defnyddio'r dull traddodiadol, mae'r enw yn dod ar ôl yr elfen gyntaf e.e.

12.25 Pum munud ar hugain wedi deuddeg

£25 Pum punt ar hugain

Yn y dril isod, rhaid tynnu 2 funud oddi ar amser y person diwethaf, gan ddechrau o 24 munud:

Mae pedair/pedwar munud ar hugain o'r gêm ar ôl	Mae dwy/dau funud ar hugain o'r gêm ar ôl
Mae ugain munud o'r gêm ar ôl	Mae deunaw munud o'r gêm ar ôl
Mae un funud/munud ar bymtheg o'r gêm ar ôl	Mae pedair/pedwar munud ar ddeg o'r gêm ar ôl
Mae deuddeg munud o'r gêm ar ôl	Mae deg munud o'r gêm ar ôl
Mae wyth munud o'r gêm ar ôl	Mae chwe munud o'r gêm ar ôl
Mae pedair/pedwar munud o'r gêm ar ôl	Mae dwy/dau funud o'r gêm ar ôl
Mae'r gêm ar ben!	

iii. amser

Dylech addasu'r dril hwn yn unol â'r flwyddyn, er mwyn sicrhau eich bod yn dechrau ar 25.

Maen nhw'n briod ers 1993

Ers pum mlynedd ar hugain!

Maen nhw'n briod ers 1994

Ers pedair blynedd ar hugain!

Maen nhw'n briod ers 1995..... ac ati

Cam 4

Ymarfer yn Llyfr y Dysgwyr

Ceir dau ymarfer yn y cwrslyfr.

Cam 5



Gwrando (Bwletin Newyddion sy'n cynnwys rhifolion)

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau gwrando.

Yna:

- i) Gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r geiriau yn eu gwrslyfrau pan fyddant yn eu clywed.
- ii) Ceir cwestiynau i'w hateb ar y cynnwys (gweler yr atebion isod).
 1. Beth fydd yn digwydd yn y ganolfan dechnoleg newydd yn Abertawe?
Bydd cyrsiau cyfrifiadureg am ddim yn cael eu cynnal yn y ganolfan.
 2. Beth achosodd y ddamwain?
Llithrodd y bws mini ar iâ ar y ffordd.
 3. Pa fath o gêm sy'n digwydd ym Madrid heno?
Gêm bêl-droed gyfeillgar rhwng Cymru a Sbaen sy'n digwydd ym Madrid.
 4. Sut bydd y ras yn helpu'r gymuned leol?
Bydd yn codi arian at elusennau lleol.
- iii) Rhowch gopi o'r sgript fylchog i'r dysgwyr (Atodiad 3). I ymarfer y rhifolion, gofynnwch iddynt lenwi'r bylchau gyda ffigurau. Mae'n ddarn heriol felly byddai'n syniad da gwrando ar y penawdau fesul un er mwyn rhoi cyfle iddynt lenwi'r bylchau. Ceir copi o'r sgript isod:
Mae hi'n wyth munud ar hugain wedi saith. Dyma grynodedeb o'r prif straeon.
Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd dwy filiwn ar bymtheg o bunnoedd yn cael eu rhoi i ddatblygu hen adeilad yn nociau Abertawe i fod yn ganolfan dechnoleg. Yn ôl y Gweinidog Addysg, bydd y ganolfan yn darparu cyrsiau cyfrifiadureg am ddim. Y nod yw dysgu pawb i ddefnyddio technoleg ddiweddar yr unfed ganrif ar hugain.

Yn Aberhonddu, cafodd deunaw o bobl ifanc eu hanafu ar yr A470 yn oriau mân y bore. Roedden nhw'n teithio ar fws mini i Gaerdydd ar gyflymder o drigain milltir yr awr pan lithrodd y bws ar iâ. Cafodd deuddeg ohonyn nhw eu cludo i Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ond chafodd neb eu hanafu'n ddifrifol. Mae gyrwyr yn cael eu rhybuddio i yrru'n ddiogel yn yr ardal ac i gadw at gyflymder o ddim mwy na deugain milltir yr awr.

Heddiw bydd rheolwr tîm pêl-droed Cymru'n cyhoeddi'r un dyn ar ddeg a fydd yn wynebu Sbaen mewn gêm gyfeillgar ym Madrid heno. Byddwn ni'n darlledu'n fyw o stadiwm Santiago Bernabéu am bum munud ar hugain i wyth, a bydd y gic gynta am wyth o'r gloch.

I gloi, mae tri chant a hanner o redwyr wedi ymgynnull yn y Bala, yn barod ar gyfer Marathon y Berwyn. Byddan nhw'n dechrau'r chwe milltir ar hugain yng nghanol y dref, gan obeithio torri'r record ar gyfer y ras hyd yn hyn, sef dwy awr a saith munud ar hugain. Yn ôl trefnwyr y ras, bydd y digwyddiad yn dod â thros ddeg mil ar hugain o bunnoedd i elusennau lleol.

iv) Yn olaf, ceir ymarfer ar y gair **ymgynnull**. Gofynnir i'r dysgwyr feddwl am eiriau eraill sy'n dechrau ag ym-. Rhai enghreifftiau posib yw: ymosod, ymarfer, ymolchi, ymateb, ymarferol...

Cam 6

Sut dych chi'n gwastraffu amser?

Rhannwch y dysgwyr yn barau. Gofynnwch iddynt drafod a nodi yr hyn maen nhw'n ei wneud pan fydd hysbysebion ar y teledu e.e. siarad â'r teulu, gwneud paned o de, newid y sianel...

Yna, rhowch yr enghreifftiau i gyd ar y bwrdd gwyn. Gallech ofyn i'r dysgwyr roi tic wrth y pethau maen nhw'n eu gwneud.

Os byddant wedi mwynhau'r ymarfer, gallech fynd ymlaen i drafod ffyrdd o wastraffu amser ar adegau eraill e.e. aros am y bws, mewn maes awyr / gorsaf drenau, yn y salon trin gwallt.

Cam 7



Darllen – Iaith y Rhifau

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Ar ôl ei ddarllen, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y thri phwynt pwysicaf – dylid annog y dysgwyr i beidio â dibynnu ar y sgript i wneud hyn.

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y gweithgareddau iaith.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach newydd ar gyfer y gwaith siarad.

Cam 8



Gwyllo a Gwrando (Yr Hen Galan).

Bydd angen darllen y ddau baragraff o ragymadrodd cyn mynd ati i wneud y dasg, er mwyn esbonio cefndir y fideo. Yna, dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a Gwrando.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r eirfa. Yna, rhowch amser iddynt i ateb y cwestiynau hyn:

Faint o'r gloch dechreuon nhw ganu?

9.00

Beth yw enw'r fferm mae'r plant yn ymweld â hi?

Fferm Tŷ Mawr

Pwy sy'n byw yno?

Mam-gu Efa

Beth yw'r calennig mae'r plant yn ei gael?

Losin a siocled.

Gwrandewch ar y bachgen yn canu. Sut mae e'n dweud lonawr 13?

Y trydydd dydd ar ddeg o'r flwyddyn

Mae Bessie yn dweud ei bod hi wedi rhoi calennig i 22 o blant. Bydd hi'n rhoi calennig i 40 o blant cyn diwedd y dydd. Ysgrifennwch hyn yn y ffordd draddodiadol.

Dau blentyn ar hugain

Deugain plentyn / deugain o blant

Yn ôl Bessie, sut roedd yr Hen Galan yn wahanol o'r blaen?

Roedd llawer mwy o deithio dros yr ardal i gyd, o un tŷ i'r llall (*trafaelu* yw'r gair tafodieithol a ddefnyddir gan Bessie. Esboniwch fod *trafaelio* a *trafaelu* yn cael eu defnyddio ar lafar, ond mai *teithio* yw'r gair ysgrifenedig safonol).

Cam 9

Siart PYE 2

Rhowch gopi arall o'r siart PYE iddynt, ond gofynnwch iddynt feddwl am sut y byddent yn treulio eu hamser 10 mlynedd yn ôl. Pa ffactorau sydd wedi newid? Ydyn nhw'n gweithio nawr, neu wedi ymddeol? Ar y diwedd, gofynnwch iddynt gymharu'r ddau siart PYE. Rhowch ddigon o gyfle iddynt i siarad yn rhydd.

Cam 10

Nid oes gwaith gramadeg ymestynnol oherwydd fod cynnwys ieithyddol yr uned hon yn newydd ac yn heriol. Ond, ceir darn gwrando ychwanegol yn gysylltiedig â thema amser, sef esboniad gan Ifor ap Glyn o darddiad ac ystyr y geiriau *cloch* a *cloc*.

Dyma ddarn gwrando eithaf heriol sy'n cyd-fynd â'r thema 'Amser'.

Wrth gyflwyno'r darn i'r dysgwyr, pwysleiswch nad oes angen iddynt ddeall pob gair ac mai deall yr ystyr yn fras sy'n bwysig.

Esboniwch ystyr y geiriau a nodir yn eu taflen (Atodiad 4). Nid oes angen esbonio popeth yn fanwl (e.e. nid oes angen esbonio'n union beth yw 'cywydd', dim ond dweud ei fod yn fesur barddonol).

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwrando. Yna, rhowch amser iddynt ateb y cwestiynau. Maen nhw'n gwestiynau anodd felly mae atebion bras yn dderbyniol.

1. **Beth ydy rhif yr eitem yma?**
Un ar bymtheg
2. **Yn ôl y plentyn yn Ysgol Talwrn, Ynys Môn, beth sy'n digwydd ar ôl canu'r gloch?**
Mae amser chwarae wedi gorffen neu mae amser cinio'n dechrau.
3. **Ble yn Lloegr maen nhw hefyd yn troi c yn ch?**
Lerpwl
4. **Ers pryd 'dyn ni'n defnyddio'r gair cloc yn Gymraeg?**
Dros 600 mlynedd
5. **Beth ydy barn y bardd Dafydd ap Gwilym am y cloc?**
Dydy e/o ddim yn ei hoffi achos ei fod e'n/o'n swllyd
6. **Sut oedd y clociau cynhara yn wahanol i'n clociau ni?**
Doedd dim bysedd arnyn nhw – dim ond cloch tu fewn.

7. O ba iaith mae'r Gymraeg wedi cael y gair cloc?

Saesneg (cafodd y Saesneg y gair o'r Iseldireg, a'r Iseldireg y gair o'r Lladin).

8. Beth sy'n cysylltu'r geiriau cloch a cloc?

Maen nhw wedi dod o'r un gair Lladin (clocca).

Atodiad 1 – Cardiau jig-so (De Cymru)

Dw i'n hoffi	eistedd	ar bwys y ffenest	ar y bws
Ddylet ti ddim	torri	ar ei thraws hi	o hyd
Rhedodd Rhys i ffwrdd	a rhedodd ei dad	ar ei ôl e	yn gyflym iawn
Mae Iolo wedi paratoi	gwledd	ar ei chyfer hi	i ddathlu ei llwyddiant
Ewch	i'r dosbarth	o fy mlaen i	achos fy mod i'n rhedeg yn hwyr
Roedd gwenyn	o'i gwmpas e	yn yr ardd	ac roedd ofn arno
Mae mwg yn dod	allan o'r ffenest	uwch dy ben di	Ffonia 999!
Dylet ti	wisgo siwt a thei	er eu mwyn nhw	i greu argraff dda
Nhw sy'n cystadlu	yn ein herbyn ni	yn y rownd nesa	yn y cwis
Oes lle i mi	eistedd	yn dy ymyl di	yn y theatr?

Atodiad 1 - Cardiau jig-so (Gogledd Cymru)


Dw i'n hoffi	eistedd	wrth ochr y ffenest	ar y bws
Ddylet ti ddim	torri	ar ei thraws hi	o hyd
Mi redodd Rhys i ffwrdd	ac mi redodd ei dad	ar ei ôl o	yn gyflym iawn
Mae lolo wedi paratoi	gwledd	ar ei chyfer hi	i ddathlu ei llwyddiant
Cerwch	i'r dosbarth	o fy mlaen i	achos fy mod i'n rhedeg yn hwyr
Roedd 'na wenwyn	o'i gwmpas o	yn yr ardd	ac roedd gynno fo ofn
Mae mwg yn dŵad	allan o'r ffenest	uwch dy ben di	Ffonia 999!
Mi ddylet ti	wisgo siwt a thei	er eu mwyn nhw	i greu argraff dda
Nhw sy'n cystadlu	yn ein herbyn ni	yn y rownd nesa	yn y cwis
Oes 'na le i mi	eistedd	yn dy ymyl di	yn y theatr?

Atodiad 2



Amser Hamdden

Ar y siart isod, nodwch faint o'ch amser hamdden dych/dach chi'n ei roi i'r pethau hyn: teulu, gwaith tŷ, garddio, diddordebau, cymdeithasu, ymlacio, gwaith gwirfoddol, arall.



Atodiad 3 – Bwletin Newyddion



Mae hi'n Dyma grynodedb o'r prif straeon.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd £ yn cael eu rhoi i ddatblygu hen adeilad yn nociau Abertawe i fod yn ganolfan dechnoleg. Yn ôl y Gweinidog Addysg, bydd y ganolfan yn darparu cyrsiau cyfrifiadureg am ddim. Y nod yw dysgu pawb i ddefnyddio technoleg ddiweddara yr

Yn Aberhonddu, cafodd o bobl ifanc eu hanafu ar yr A470 yn oriau mân y bore. Roedden nhw'n teithio ar fws mini i Gaerdydd ar gyflymder o milltir yr awr pan lithrodd y bws ar iâ. Cafodd ohonyn nhw eu cludo i Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ond chafodd neb eu hanafu'n ddifrifol. Mae gyrwyr yn cael eu rhybuddio i yrru'n ddiogel yn yr ardal ac i gadw at gyflymder o ddim mwy na milltir yr awr.

Heddiw bydd rheolwr tîm pêl-droed Cymru'n cyhoeddi'r a fydd yn wynebu Sbaen mewn gêm gyfeillgar ym Madrid heno. Byddwn ni'n darlledu'n fyw o stadiwm Santiago Bernabéu am, a bydd y gic gynta am wyth o'r gloch.

I gloi, mae o redwyr wedi ymgynnull yn y Bala, yn barod ar gyfer Marathon y Berwyn. Byddan nhw'n dechrau'r yng nghanol y dref, gan obeithio torri'r record ar gyfer y ras hyd yn hyn, sef Yn ôl trefnwyr y ras, bydd y digwyddiad yn dod â thros £ i elusennau lleol.

Mae hi'n Dyma grynodedb o'r prif straeon.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd £ yn cael eu rhoi i ddatblygu hen adeilad yn nociau Abertawe i fod yn ganolfan dechnoleg. Yn ôl y Gweinidog Addysg, bydd y ganolfan yn darparu cyrsiau cyfrifiadureg am ddim. Y nod yw dysgu pawb i ddefnyddio technoleg ddiweddara yr

Yn Aberhonddu, cafodd o bobl ifanc eu hanafu ar yr A470 yn oriau mân y bore. Roedden nhw'n teithio ar fws mini i Gaerdydd ar gyflymder o milltir yr awr pan lithrodd y bws ar iâ. Cafodd ohonyn nhw eu cludo i Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu ond chafodd neb eu hanafu'n ddifrifol. Mae gyrwyr yn cael eu rhybuddio i yrru'n ddiogel yn yr ardal ac i gadw at gyflymder o ddim mwy na milltir yr awr.

Heddiw bydd rheolwr tîm pêl-droed Cymru'n cyhoeddi'r a fydd yn wynebu Sbaen mewn gêm gyfeillgar ym Madrid heno. Byddwn ni'n darlledu'n fyw o stadiwm Santiago Bernabéu am, a bydd y gic gynta am wyth o'r gloch.

I gloi, mae o redwyr wedi ymgynnull yn y Bala, yn barod ar gyfer Marathon y Berwyn. Byddan nhw'n dechrau'r yng nghanol y dref, gan obeithio torri'r record ar gyfer y ras hyd yn hyn, sef Yn ôl trefnwyr y ras, bydd y digwyddiad yn dod â thros £ i elusennau lleol.

Atodiad 4



Gwranddo

Byddwch chi'n gwranddo ar lfor ap Glyn yn trafod dau air Cymraeg, sef cloch a cloc.

Yn gyntaf, gwrandewch am y geiriau hyn:

dyddio yn ôl	oes y mynachlogydd	offeryn soniarus
ychydig yn feirniadol	ansawdd	Lladin
cywydd	abaty	a fenthyciwyd
	dallt	

1. Beth ydy rhif yr eitem yma?

.....

2. Yn ôl y plentyn yn Ysgol Talwrn, Ynys Môn, beth sy'n digwydd ar ôl canu'r gloch?

.....

3. Ble yn Lloegr maen nhw hefyd yn troi *c* yn *ch*?

.....

4. Ers pryd 'dyn/dan ni'n defnyddio'r gair *cloc* yn Gymraeg?

.....

5. Beth ydy barn y bardd Dafydd ap Gwilym am y cloc?

.....

6. Sut oedd y clociau cynhara yn wahanol i'n clociau ni?

.....

7. O ba iaith mae'r Gymraeg wedi cael y gair *cloc*?

.....

8. Beth sy'n cysylltu'r geiriau cloch a *cloc*?

.....

Uned 16 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu Rhifolion

Seilir yr wybodaeth yn y gweithgaredd ar erthygl yn Cymru Fyw, BBC Cymru ar 23 Mawrth 2017.

Dosbarthwch gopi o'r cerdyn – Pa ganran o bobl Cymru...? - sy yn Atodiad 1 i bob pâr. Rhaid i'r parau ddyfalu'r canrannau yn ôl Cyfrifiad 2011. Mae'r atebion isod:

Gwlad enedigol

Wedi'u geni yng Nghymru	73
Wedi'u geni yn Lloegr	21
Wedi'u geni yng ngweddill y DU	1
Wedi'u geni y tu allan i'r DU	5

Gwaith (oedolion oed gwaith)

Cyflogedig, llawn amser	54
Cyflogedig, rhan amser	21
Hunan gyflogedig	13
Di-waith	7
Myfyriwr llawn amser	5

Y Gymraeg

Yn rhugl ac yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu	14.5
Yn gallu deall Cymraeg llafar	5.5
Cyfuniad o sgiliau, e.e. ddim yn gallu ysgrifennu	6.5
Dim sgiliau o gwbl yn y Gymraeg	73.5

Oedran

Dan 16	18
16-24	12
25-44	25
45-64	25.5
65+	19.5

Os dymunwch, gellir rhoi pwyntiau i'r pâr sy'n dyfalu agosaf bob tro a'i droi'n gwis.

Gofynnwch i'r dosbarth a oes unrhyw ystadegyn sy'n eu synnu a gellir cynnal trafodaeth. Mae'n bosib iawn y bydd cwestiwn yn codi sut y dylai dysgwyr eu categorio eu hunain, gan na fydden nhw efallai'n teimlo'n gwbl hyderus i ddweud eu bod yn rhugl.

Yna, gwnewch yr un ymarferiad ar gyfer y bobl yn y dosbarth. Y cam cyntaf yw gofyn i barau greu cwestiynau uniongyrchol o'r categorïau uchod:
 Ble cawsoch chi eich geni?/Lle gaethoch chi eich geni?
 Dych/Dach chi'n gweithio?
 Dych/Dach chi'n siarad Cymraeg?
 Beth/Faint yw'ch oedran chi? / Be/Faint ydy'ch oed chi?
 Rhaid i'r dosbarth holi ei gilydd a chofnodi'r atebion yn unol â'r dewisiadau uchod. Wedyn bydd modd gweithio allan pa mor gynrychioladol yw'r dosbarth o boblogaeth Cymru.

Ewch ymlaen i drafod yr ystadegau ar gyfer y byd – yr ail gerdyn yn Atodiad 1. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i wneud hyn. Er mwyn amrywiaeth ar yr uchod, gellwch chi alw'r atebion allan ar ôl rhoi cyfle ar gyfer trafod, yn hytrach na gofyn i bawb alw allan eu hatebion:

Pa ganran o bobl y byd..?

Man geni

America Ladin a'r Caribi	9
Affrica	16
Asia	60
Ewrop	10
Gogledd America	5

Iaith Gyntaf

Tseinëeg	12
Sbaeneg	6
Saesneg	5
Hindi	4
Arabeg	3
Arall	70

Llythrennedd

Yn gallu darllen ac ysgrifennu	86
Ddim yn gallu darllen ac ysgrifennu	14

Oedran

0-14	25
15-64	66
65+	9

Trydan

Trydan ar gael	82
Dim trydan	18

Er diddordeb, dyma'r ystadegau ar gyfer yr ieithoedd o dan Arall – Bengali 3, Portiwgaleg 3, Rwsieg 2, Siapanaeg 2, Arall 60.

Gellid gofyn i barau ystyried a oes unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng Cymru a gweddill y byd. Yr ystadegyn amlwg yw bod canran llawer uwch o bobl dros 65 oed yng Nghymru.

Fel cam olaf, gellid rhoi dwy funud i barau a gofyn iddyn nhw restru'r holl bethau yn ein bywydau pob dydd na fydden ni'n gallu eu gwneud heb drydan.

Cam 2

Y tro cynta

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod profiadau personol o dan y thema 'y tro cynta'. Cyfle i ymestyn siarad rhydd yw hwn a dylid annog cymaint â phosib o siarad a sgwrsio. Gellid gofyn i bob grŵp adrodd un neu ddwy o storïau yn ôl i weddill y dosbarth. Gellid hefyd ofyn i bawb ddewis un categori arall o'u dewis personol (ond gan osgoi gadael cartref a mynd dramor gan eu bod yn codi yn hwyrach yn yr uned.)

Cam 3

Trefnolion

Er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cofio'r trefnolion (yn enwedig y ffurfiau benywaidd a gwrywaidd), gwnewch ymarfer disodli cyflym i atgyfnerthu'r rheolau. Rhaid i'r dysgwyr newid y trefnolion. Ceir enghraifft o enw gwrywaidd (tro) a benywaidd (blwyddyn).

Dw i'n cofio'r tro cynta i fi/i mi fynd yno.
Ro'n i yn yr ail flwyddyn ar y pryd.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer cyfieithu yn y cwrslyfr. Mae'r brawddegau'n gofyn am gyfieithu trefnolion hyd at 'degfed' felly mae'r gwaith iaith yn hawdd ond mae'n gyfle i ailgylchu geirfa'r cwrs.

Yna, bydd yn werth mynd dros y trefnolion o 'unfed ar ddeg' hyd at 'unfed ar ddeg ar hugain'. Gellir gwneud y rhifolion traddodiadol yn gyntaf er mwyn adolygu, ac yna troi at y trefnolion. Gofynnwch i bobl ddweud pryd mae eu penblwyddi nhw. Os ydych chi am gael chwistrelliad o egni i'r wers a digon o gyfle ar gyfer ailadrodd, gofynnwch i'r dosbarth drefnu eu hunain yn rhes yn ôl dyddiad eu pen-blwydd. Maent yn sefyll mewn rhes ac yn holi'r person tu ôl neu tu blaen, 'Pryd mae'ch pen-blwydd chi?'. Rhaid symud ar hyd y rhes yn unol â'r ateb – lonawr ar un pen a Rhagfyr yn y pen arall.

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer yn y cwrslyfr. Yna, er mwyn ennyn ymateb llafar heb ddibynnu ar y gair ysgrifenedig, gwnewch y dril isod:

Ydy'r cwrs yn cwpl/gorffen ar y degfed? Nac ydy, ar yr unfed ar ddeg

Ydy'r cwrs yn cwpl/gorffen ar y trydydd ar hugain?

Ydy'r cwrs yn cwpl/gorffen ar y degfed ar hugain?

Ydy'r cwrs yn cwpl/gorffen ar y pedwerydd ar ddeg? ayb

Mae poster trefnolion yn y Pecyn Adnoddau i Diwtoriaid.

Yn olaf, atgoffwch y dysgwyr o drefn y geiriau pan fyddwn ni'n defnyddio rhifolion:

pum munud ar hugain, hynny yw bod yr 'enw' yn dod ar ôl yr elfen gyntaf yn y rhif. Nodwch fod yr un peth yn wir am drefnolion. Eto, gellir cael ymarfer disodli hawdd, e.e.:

y drydedd salm ar hugain

Mae'n debyg taw'r ymarfer mwyaf defnyddiol yw canrifoedd. Felly, ceir ymarfer **Pa ganrif?** yn y cwrslyfr. Nodir y flwyddyn, rhaid i'r dysgwyr nodi'r ganrif. Mae pob blwyddyn yn ddyddiad arwyddocaol yn hanes Cymru:

1282	Lladdwyd Llywelyn Ein Llyw Olaf
1861	Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol gynta
1999	Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol
1588	Cyfieithwyd y Beibl i'r Gymraeg
2016	Cymru'n cyrraedd rownd gyn-derfynol Pencampwriaeth Ewrop (pêl-droed)

Yna, rhannwch y dosbarth yn drioedd i wneud 'Cwis y Canrifoedd':

Ym mha ganrif roedd Brwydr Hastings?	(yr unfed ganrif ar ddeg - 1066)
Ym mha ganrif y cerddodd Neil Armstrong ar y lleuad?	(yr ugeinfed ganrif - 1969)
Ym mha ganrif daeth y Rhufeiniaid i Brydain?	(y ganrif gynta)
Ym mha ganrif roedd Oes Fictoria?	(y bedwaredd ganrif ar bymtheg)
Ym mha ganrif y ganwyd Shakespeare?	(yr unfed ganrif ar bymtheg - 1564)
Ym mha ganrif daeth De Cymru'n faes glo pwysig?	(y bedwaredd ganrif ar bymtheg)
Ym mha ganrif lluniwyd cyfreithiau Hywel Dda?	(y ddegfed ganrif)
Ym mha ganrif arweiniodd Owain Glyndŵr wrthryfel?	(y bymthegfed ganrif)

Ceir cyflwyniad PowerPoint a luniwyd i gyd-fynd â Gwyl 'Ar Lafar' 2017. Rhaid dyfalu ym mha ganrif y peintiwyd y lluniau gwahanol. Mae'r cyflwyniad gyda'r unedau cyfoes ar y Safle Rhyngweithiol o dan Ar Lafar -

<https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/gwersi-cyfoes/>.

Cam 4



Gwranddo

Mae'r bwletin newyddion hanesyddol yn nodi 5 peth a ddigwyddodd am y tro cyntaf. Ceir copi o'r sgrïpt yn Atodiad 2. Ceir ymarfer cyfieithu syml er mwyn cadarnhau gwaith rhifolion a threfnolion. Mae'r storïau yn y bwletin i gyd yn dod o wefan Cymru Fyw. Os gellwch gyrchu'r we yn y dosbarth, mae modd chwilio am y stori mae'r dosbarth eisiau gwybod mwy amdani ar wefan Cymru Fyw.

Cam 5



Darllen

Darllenwch y darn yn unol â'r canllawiau cyffredinol ac ar ôl gwneud yr ymarferion, anogwch gymaint â phosib o siarad rhydd ar y pwnc.

Cam 6

Gwylïo a Gwranddo (Mynd dramor am y tro cynta)

Y tro cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr wylïo'r darnau heb unrhyw gwestiynau. Gofynnwch i bawb ddweud un peth a ddeallon nhw wrth wrando. Mae'n bosib iawn y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer llenwi'r grid. Dylid llenwi'r grid yr ail dro. Ar ôl gwranddo am y trydydd tro, dylid annog siarad rhydd ar y pwnc. Gofynnwch i grwpiau bach greu 5 cwestiwn yr un ac yna dylid cyfnewid y cwestiynau

Atodiad 1 – Adolygu Rhifolion



Pa ganran o bobl Cymru.....?

Gwlad enedigol

Wedi'u geni yng Nghymru
 Wedi'u geni yn Lloegr
 Wedi'u geni yng ngweddill y DU
 Wedi'u geni y tu allan i'r DU

Gwaith

Cyflogedig, llawn amser
 Cyflogedig, rhan amser
 Hunan gyflogedig
 Di-waith
 Myfyriwr llawn amser

Y Gymraeg

Yn rhugl ac yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu
 Yn medru deall Cymraeg llafar
 Cyfuniad o sgiliau, e.e. ddim yn gallu/medru ysgrifennu
 Dim sgiliau o gwbl yn y Gymraeg

Oedran

Dan 16
 16-24
 25-44
 45-64
 65+

Pa ganran o bobl y byd.....?

Man geni

America Ladin a'r Caribi
 Affrica
 Asia
 Ewrop
 Gogledd America

Iaith Gyntaf

Tseinëeg
 Sbaeneg
 Saesneg
 Hindi
 Arabeg
 Arall

Llythrennedd

Yn gallu/medru darllen ac ysgrifennu
 Ddim yn gallu darllen ac ysgrifennu

Oedran

0-14
 15-64
 65+

Trydan

Trydan ar gael
 Dim trydan

Atodiad 2 – Bwletin Newyddion Hanesyddol – Y Tro Cyntaf



I ddatlu pedwar cant a hanner o flynyddoedd ers cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth wedi cyhoeddi fersiwn digidol am y tro cyntaf i nodi'r achlysur.

Mae defaid yn dychwelyd i ben y Gogarth yn Llandudno am y tro cyntaf ers 2001. Mae'r ffermwr yn gobeithio bydd dod â'r defaid yn ôl yn arwain at blanhigion prin yn ffynnu yno unwaith eto.

Cynhaliodd y Gymdeithas Origami Brydeinig ei chynhadledd gyntaf erioed yng Nghymru yn Abertawe. Origami yw'r grefft o greu gwrthrychau allan o bapur. Yn ystod y gynhadledd, bu'r cynadleddwyr yn creu modelau origami'n ymwneud â Chymru.

Cafodd darnau arian papur gwerth £6, £7 a £9 eu gwerthu mewn ocsiwn am y tro cyntaf yn Llundain. Mae'r darnau papur hyn yn dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif ac yn dod o Fanc Caerfyrddin.

Mae technoleg ynni solar arloesol yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yng Nghymru ar Ynys Echni, ar arfordir Caerdydd. Y gobaith yw y bydd y dechnoleg yn cynnig ateb i ardaloedd sy'n cael eu taro gan drychinebau naturiol fel corwyntoedd yn y dyfodol.

Uned 17 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Trefnu taith

Uned adolygu yw hon ac mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i adolygu patrymau iaith sydd wedi cael sylw dros yr unedau blaenorol ac yn ail-ymweld â rhai o'r eitemau geirfa ac idiomau a gododd yn yr unedau hynny. Mae unedau adolygu'r cwrs yn cynnwys cyfle hefyd i aelodau'r dosbarth ddefnyddio'u Cymraeg wrth gyflawni rhywbeth ymarferol. Y dasg ymarferol yn yr uned hon yw trefnu taith. Wedi cwblhau gweithgareddau sy'n seiliedig ar destunau yn trafod teithiau, anogir y dosbarth i fynd ati go iawn i drefnu taith.

Cam 1

Aralleirio brawddegau

Mae pob un o'r ymadroddion sydd i'w gosod yn y bylchau yn yr ymarfer hwn wedi ymddangos yn un o unedau blaenorol y cwrs. Dywedwch hynny wrth y dysgwyr cyn darllen trwy'r ymadroddion a gofyn i barau drafod pa ymadrodd sy'n perthyn i ba frawddeg. Peidiwch â chynnig cyfieithiad neu ddiffiniad o unrhyw ymadrodd wrth eu cyflwyno gan mai eu sbarduno i gofio neu i ddod i gasgliad ynglŷn â'r ystyr yw pwrpas yr ymarfer (mae croeso, wrth gwrs, i chi esbonio'r termau 'aralleirio' a/ neu 'ymadroddion'). Os ydych yn meddwl bod angen, gallech fynd dros y frawddeg gyntaf fel enghraifft cyn rhoi'r parau ar waith i drafod yr atebion a gallwch roi cymorth ac arweiniad i unrhyw bâr sy'n cael anhawster wrth fynd trwy'r ymarfer. Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r ymarfer, ewch dros y brawddegau gyda'r dosbarth cyfan, gan wahodd atebion gan wahanol barau wrth fynd trwyddynt. Holwch a ydy'r dysgwyr yn cofio ble mae'r ymadroddion wedi codi yn y cwrs cyn hyn.

Dyma'r atebion cywir:

1. Nid fi wnaeth y llanast; ces i/mi ges i fai ar gam.
2. Mae hi yma ers tridiau.
3. Mae galw mawr am weithwyr sydd â sgiliau technoleg gwybodaeth da.
4. Wnei di fwrw golwg dros fy ffurflen gais a dweud beth wyt ti'n feddwl?
5. Gorau po gynta yr ei di er mwyn osgoi'r traffig.
6. Rhaid i chi fynd i'r swyddfa rywbryd yn ystod y dydd.
7. 'Dyn/Dan ni wedi casglu £5,000 tuag at Plant Mewn Angen hyd yn hyn.
8. Aeth/Mi aeth perfformiad y tîm o ddrwg i waeth ar ôl yr egwyl.
9. Peidiwch â thorri ar ei draws e/o!
10. Dw i'n gwybod bod pêl-droedwyr yn eich plith chi.

Cam 2

Ceir dau ymarfer i adolygu arddodiaid cyfansawdd (llenwi bylchau) ac ansoddeiriau (cyfieithu).

Cam 3



Darn darllen – Dewch am dro

1. Tabl Pobloedd, eu hieithoedd a'u pethau – tynnwch sylw at y geiriau Rhufeiniaid a Rhufeinig sydd yn y darn darllen gan esbonio eu bod yn cyfeirio at bobl Rhufain (neu'r ymerodraeth gynt) a'u pethau! Esboniwch hefyd fod yr enw ar bobl sy'n perthyn i wlad neu genedl yn gorffen â'r terfyniad '-iaid' neu'r terfyniad '-wyr'. Esboniwch hefyd mai'r terfyniadau mwyaf cyffredin ar yr ansoddeiriau sy'n disgrifio rhywbeth sy'n perthyn i genedl yw '-ig' neu '-aidd' ac mai '-eg' yw'r terfyniad arferol ar enw iaith. Defnyddiwch enghreifftiau wrth esbonio, a chyfeiriwch at eithriadau e.e. 'Saeson', 'Gwyddelod'. Gwnaed ymarfer gyda Ffrainc a Sbaen yn Uned 11 felly nhw sy'n dod gyntaf yn y tabl er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth.

Rhowch barau neu grwpiau bach ar waith i gwblhau'r tabl. Wedi i bawb gael cyfle i drafod a chwblhau'r tabl, ewch dros yr atebon.

Dyma'r atebion cywir:

Gwlad/Cenedl	Pobl	Iaith	Pethau
Ffrainc	Ffrancwyr	Ffrangeg	Ffrenig
Yr Almaen	Almaenwyr	Almaeneg	Almaenig
Sbaen	Sbaenwyr	Sbaeneg	Sbaenaidd
Gwlad y Basg	Basgwyr	Basgeg	Basgaidd
Llydaw	Llydawyr	Llydaweg	Llydewig
(Unol Daleithiau) America	Americanwyr	Saesneg	Americanaidd
Rhufain	Rhufeiniaid	Lladin (neu Eidaleg erbyn heddiw!)	Rhufeinig

2. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Wedi i bawb gael cyfle i ddarllen y darn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 neu 4. Sicrhewch fod un aelod o bob grŵp yn cael ei benodi'n ysgrifennydd a bod pensil neu feiro a darn gwag o bapur ganddo/ganddi. Dywedwch y byddan nhw'n cael munud i gyflawni tasg, a phan fydd pawb yn barod, gosodwch y dasg, sef rhestru (ar eu papur) cymaint ag y gallant o enwau lluosog sy'n ymddangos yn y darn darllen. Pan fydd y munud ar ben, gofynnwch iddynt gyfnewid papurau â grŵp arall. Ewch dros yr atebion trwy ofyn i bawb yn ei dro gynnig gair oedd wedi'i nodi gan y grŵp sydd wedi cyfnewid papur â nhw, cadarnhewch a yw'n gywir ai peidio ac os ydyw, dyfarnwch farc i bob grŵp oedd wedi nodi'r enw hwnnw. Y grŵp â'r marc uchaf sy'n ennill.

Dyma restr o'r holl enwau lluosog sydd yn y darn:

cyfrinachau	mapiau	sgiliau	teithiau/teithiau cerdded
meddygon	pobl	llwybrau	canrifoedd
blynyddoedd	Rhufeiniaid	milltiroedd	gweddillion
olion	cerrig	llefydd	lluniau
cromlechi	plant	hanesion	arweinyddion

Mae'n bosib y bydd rhai yn nodi 'eraill' yma felly gellir egluro mai ansoddair lluosog yw e yn hytrach nag enw.

3. Tynnwch sylw at y ffaith fod Gareth wedi bod yn 'llefarydd' ar ran Sefydliad Prydeinig y Galon ac esboniwch bod yr ymadrodd 'Dywedodd llefarydd ar ran' yn un cyffredin mewn bwletinâu newyddion. Gofynnwch wedyn i barau fynd ati i adrodd brawddegau i'w gilydd yn dechrau â 'Dywedodd llefarydd ar ran....' ac yn cynnwys y cyfuniadau mwyaf tebygol o sefydliad a neges o'r tabl sydd yn yr uned, e.e. 'Dywedodd llefarydd ar ran Heddlu Dyfed-Powys eu bod wedi arestio tri dyn yn Aberystwyth neithiwr'. Ewch dros y brawddegau gyda'r dosbarth cyfan, gan weld a gafwyd unrhyw gyfuniadau annisgwyl.
4. Gofynnwch i'r parau drafod beth yw cromlech a thynnu lluniau. Gofynnwch iddynt ddangos eu lluniau ac os byddwch wedi clywed rhywrai'n cynnig esboniadau da, gofynnwch iddynt eu rhannu â gweddill y dosbarth. Gallwch ddangos y lluniau sydd yn Atodiad 1 a'u cymharu â gwaith artistig y dysgwyr. Efallai y gallwch gynnig gwobr i'r llun 'gorau'. Gellir cael hyd i wybodaeth am gromlechi yma: <https://cy.wikipedia.org/wiki/Cromlech>
5. Ewch dros y cwestiynau trafod cyn gosod y dysgwyr mewn grwpiau bach i drafod. Gwrandewch am gyfraniadau diddorol i'r trafodaethau ac wedi i'r grwpiau orffen trafod, tynnwch sylw'r dosbarth cyfan at y rheiny, gan ymestyn y drafodaeth os oes diddordeb pellach.

Cam 4



Gwyllo a Gwranddo

Dangoswch y clip fideo heb osod unrhyw dasg i ddechrau. Yna dywedwch eich bod am iddynt nodi tri pheth pwysig mae'r siaradwr yn eu nodi mewn perthynas â threfnu teithiau. Dangoswch y darn eto a rhoi cyfle iddynt nodi tri pheth. Trafodwch yr atebion sydd wedi'u rhoi gyda'r dosbarth cyfan cyn trafod a ydy'r math o deithiau y sonnir amdanynt ar y fideo yn apelio at aelodau'r dosbarth.

Cam 5



Siarad – taith gofiadwy

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-5 i drafod teithiau cofiadwy maen nhw wedi bod arnynt. Cyn i'r grwpiau fynd ati, gallwch chi enghreifftio trwy sôn am daith y buoch chi arni, gan sicrhau eich bod yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi'u nodi yn y cwestiynau yn yr uned (a thynnu sylw'r dysgwyr at y ffaith eich bod wedi gwneud hynny - nid mynd trwy'r cwestiynau'n systematig gan ateb pob un yn ei dro yw'r bwriad yma). Rhowch gyfle iddynt ofyn cwestiynau i chi er mwyn cael gwybod mwy am y daith y sonioch chi amdani.

Cam 6

Deialog

Gofynnwch i barau ymarfer y ddeialog a cheisio cofio cymaint o'r sgript ag y gallant. Wedyn, gofynnwch i'r parau fynd trwy'r ddeialog gan newid y rhannau sydd wedi eu tanlinellu. Os bydd perfformwyr da neu hyderus yn y dosbarth, gallwch eu gwahodd i lwyfannu cyflwyniad o'r ddeialog o flaen y dosbarth!

Cam 7

Trefnu taith

Arweiniwch drafodaeth gyda'r dosbarth cyfan er mwyn trefnu taith go iawn. Mae canllaw ynghylch y materion sydd angen eu trafod yn yr uned. Penderfynwch chi ac aelodau'ch dosbarth pa fath o daith dych chi am fynd arni. Gall fod yn daith gerdded leol, neu'n daith i rywle ar fws neu fws mini (efallai fod cyfle i wahodd dysgwyr a siaradwyr Cymraeg eraill). Gallai hyd yn oed gynnwys arhosiad dros nos yn rhywle. Gan fod elfen o ymchwilio a chael cynigion o ran pris ac ati, bydd angen rhannu cyfrifoldeb dros gysylltu â chwmnïau/lleoliadau i ddysgwyr gwahanol a chael opsiynau pendant i'w hystyried yn y dosbarth nesaf. Gellid mynd ati i roi cynllun a phris at ei gilydd ar gyfer mwy nag un opsiwn i'w hystyried.

Bydd angen i chi gadarnhau pa weithdrefnau bydd rhaid i chi eu dilyn gyda threfnydd y Darparwr sy'n gyfrifol am gynnal eich dosbarth.

Pob hwyl gyda'r trefniadau a'r teithio!

Atodiad 1



Uned 18 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1

Gêm Kahoot – adolygu trefnolion

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o 2-5 dysgwr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen). Dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i <https://kahoot.com/> a gwasgu'r ddolen 'Sign up' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('sign in') unrhyw bryd.

Mae'r gêm Trefnolion ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://play.kahoot.it/#/k/c8d469b0-aca0-4df0-a6c3-d86df65f3a16>

Cyfres o ddeg cwestiwn sydd yma gydag atebion aml-ddewis. Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu 'Play', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sydd yn gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gem, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y cwestiynau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu ar un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar ddiwedd y 10 cwestiwn, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coronï'n bencampwyr!

Y ffordd orau i chi ddod i ddeall sut bydd y gêm yn gweithio ydy trwy roi cynnig arni eich hunan ymlaen llaw gyda chyfrifiadur a dyfais symudol! Mae canllaw Kahoot ar sut i chwarae yma: <https://kahoot.uservoice.com/knowledgebase/articles/949450-how-to-host-and-play-a-kahoot>

Cam 2

Y Cymal Enwol

- i) Mae deialog yn y gwर्सlyfr, sy'n cynnwys enghreifftiau o 'y' yn cael ei ddefnyddio yn y cymal enwol. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru, i wneud y ddeialog gyda'i gilydd. Ar ôl i bawb gael cyfle i wneud dwy ran y ddeialog, trafodwch hi gyda'r dosbarth gan dynnu sylw at y cymalau enwol sy'n defnyddio 'y'.
- ii) Tynnwch sylw'r dosbarth at yr adran Help Llaw ac esboniwch bod 'y' yn cael ei ddefnyddio gyda ffurfiau'r dyfodol a'r amodol. Yna, gwnewch y driliau isod. Mae'r cyntaf yn eu gwर्सlyfrau:
1. Yn gyntaf, rhannwch y dosbarth yn bartneriaid a gofynnwch iddynt lenwi'r bylchau yn y golofn dde. Yna, gofynnwch iddynt wneud y dril gyda'i gilydd, heb edrych yn eu gwर्सlyfrau.

De Cymru

Partner 1

Falle taw dy fai di yw e
 Falle taw fy mai i yw e
 Falle taw ei fai e yw e
 Falle taw ei bai hi yw e
 Falle taw ein bai ni yw e
 Falle taw eu bai nhw yw e

Partner 2

Dw i'n credu y dylwn i ymddiheuro
 Dw i'n credu y dylet ti ymddiheuro
 Dw i'n credu ymddiheuro
 Dw i'n credu ymddiheuro
 Dw i'n credu ymddiheuro
 Dw i'n credu ymddiheuro

Gogledd Cymru

Partner 1

Ella mai dy fai dy ydy o
 Ella mai fy mai i ydy o
 Ella mai ei fai o ydy o
 Ella mai ei bai hi ydy o
 Ella mai ein bai ni ydy o
 Ella mai eu bai nhw ydy o

Partner 2

Dw i'n meddwl y dylwn i ymddiheuro
 Dw i'n meddwl y dylet ti ymddiheuro
 Dw i'n meddwl ymddiheuro
 Dw i'n meddwl ymddiheuro
 Dw i'n meddwl ymddiheuro
 Dw i'n meddwl ymddiheuro

- iii) Dril syml i ymarfer defnyddio 'y' gyda'r dyfodol. Y tiwtor sy'n arwain y dril, gan symud o gwmpas y dosbarth i gael ymateb. Rhaid i'r ymatebwyr feddwl am dywydd i ymateb i osodiadau'r tiwtor.

Y Tiwtor

Dw i'n gwybod dy fod ti eisiau/isio garddio fory

Dw i'n gwybod ei bod hi eisiau/isio rhoi dillad ar y lein

Dw i'n gwybod bod y plant eisiau/isio pwll padlo yn yr ardd

Dw i'n gwybod eich bod chi eisiau/isio mynd i hwylio

Dw i'n gwybod dy fod ti eisiau/isio hedfan barcud

Dw i'n gwybod ei fod e/o eisiau/isio sglefrio ar y llyn

Dw i'n gwybod eich bod chi eisiau/isio ymarfer sgïo

Dw i'n gwybod eu bod nhw ddim eisiau/isio chwarae criced

Y Dysgwyr

Gobeithio y bydd hi'n braf

Gobeithio y bydd hi'n sych / wyntog

Gobeithio y bydd hi'n dwym/boeth

Gobeithio y bydd hi'n wyntog

ac ati...

- iv) Dril i ymarfer rhediad 'bydd'

Partner 1

Dyma dy gartref newydd

Dyma ei gartref newydd

Dyma ei chartref newydd

Partner 2

Dw i'n credu/meddwl y bydda i'n hapus fan hyn

Dw i'n credu/meddwl y bydd e'n hapus fan hyn

ac ati

- v) Mae ymarfer ysgrifenedig i'w wneud ar ôl cwblhau'r driliau, sef set o frawddegau amser dyfodol a set amodol. Dylid esbonio mai'r ferf dyl- sydd angen ei defnyddio yn y set amodol, fel yr enghraifft gyntaf.

- vi) Ceir dau ymarfer 'ymateb' yn y cwrslyfr.

- vii) Ceir ymarfer mwy heriol yn cymysgu ffurfiau 'bod' ac 'y'.

- viii) Ceir ymarfer cyfieithu yn cymysgu 'bod' ac 'y'.

Cam 3

Sgwrsio

I gyflwyno'r thema – 'Does unman yn debyg i gartre/Does 'na unlle'n debyg i adre' – rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch gopi o'r cardiau sgwrsio cyntaf iddynt (Atodiad 1). Nid oes rhaid iddynt siarad am bob pwynt ar y cerdyn; sbardun yn unig ydyw, er mwyn hwyluso sgwrsio naturiol.

Cam 4



Gwyllo a Gwranddo

Bydd y dysgwyr yn gwyllo rhan o'r rhaglen 'Adre', lle mae Nia Parry yn ymweld â chartref y bardd Aneirin Karadog ym Mhontyberem.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a Gwranddo.

Yn y lle cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr roi cylch o gwmpas y geiriau isod pan fyddant yn eu clywed. Efallai y bydd angen treulio ychydig o amser yn esbonio rhai ohonynt e.e. cadair farddol. Gallech hefyd dynnu sylw'r dysgwyr at y gair 'bord'. Dyna mae Aneirin yn ei ddweud yn lle 'bwrdd'.

Gawn ni fynd i fusnesu?	cyntedd	cyfyng	mae'n gywilydd
gwneuthurwr	mwythau	arbed lle	cleientiaid
daearyddiaeth	braid yn aeafol	lolfâ lôn	cadair farddol
gyda'r bwriad	gorlifo	cynganeddu	

Dyma atebion y cwestiynau:

1. Pa fath o fwrdd sy gyda nhw/gynnyn nhw? Pam?
Bwrdd sy'n plygu er mwyn arbed lle.
2. Beth mae Laura, gwraig Aneirin, yn ei wneud yn y lolfa?
Rhoi gwersi yoga i gleientiaid.
3. Beth yw/ydy canolbwynt y lolfa?
Y tân coed.
4. I ba gyfeiriad mae'r ardd yn ei wynebu? Beth sy'n dda am hynny?
Mae'n wynebu'r de. Y fantais yw bod yr ardd yn cael haul y rhan fwyaf o'r dydd.
5. Yn ôl Sisial, pwy sydd ddim yn cael eistedd yn y gadair farddol?
Y ci, y gath a'r babi.
6. Pa fath o offer sy mewn bocsys yn swyddfa Aneirin?
Offer gwersylla (campion yw'r gair a ddefnyddir gan Aneirin a Laura).
7. Pa fath o lyfrau yw/ydy rhai Laura?
Llyfrau yoga a theithio.
8. Beth sydd ar y poster yn swyddfa Aneirin?
Poster o gerdd a ysgrifennodd Aneirin pan oedd yn fardd plant.

Ar ôl cwblhau'r cwestiynau a gwirio'r atebion, gallech arwain trafodaeth ar unrhyw beth sy'n codi'n naturiol o'r darn e.e. mae Aneirin yn sôn am ei 'lolfa lôn' neu'r *mancave*. Oes gan rywun yn y dosbarth sied neu ystafell arbennig lle maen nhw'n gweithio neu'n dilyn hobi arbennig? Pa mor bwysig iddyn nhw yw'r ystafell honno?

Cam 5**Paratoi at y darn darllen**

Cyn mynd ati i wneud y darn darllen, gofynnwch i bawb godi ar eu traed, a cherdded o gwmpas gan sgwrsio a phawb i lenwi'r tabl. Gadewch i'r tabl arwain at sgwrsio rhydd, naturiol.

Cam 6



Darn Darllen

Bydd y dysgwyr yn darllen addasiad o ran o'r nofel *Yn y Tŷ Hwn* gan Siân Northey. Mae'n ddarn eithaf heriol a bydd y berfau amherffaith yn newydd iddynt, e.e. 'crwydrai', ond pwysleisiwch nad oes angen iddynt ddeall pob gair. Mwynhau darn bach o lenyddiaeth yw'r nod, a dysgu rhywfaint o eirfa newydd sy'n ymwneud â'r thema.

Dylai'r gweithgaredd blaenorol helpu'r dysgwyr i ddeall geirfa'r darn, ond esboniwch y geiriau eraill iddynt cyn mynd ati i ddarllen. Byddai hefyd yn syniad da iddynt ddarllen y darn yn fras cyn y wers.

Pan fyddwch yn sicr bod y dysgwyr wedi deall y darn yn dda, gofynnwch iddynt wneud yr ymarfer geirfa. Yna, rhowch nhw i weithio mewn parau i geisio dod o hyd i'r ymadroddion Cymraeg sy'n cyfateb i'r ymadroddion Saesneg a nodir yn eu gwerslyfrau.

Cam 7

Disgrifio ystafelloedd

Ar ôl cwblhau tasgau'r darn darllen a sgwrsio am unrhyw beth sy'n codi'n naturiol o'r darn, gofynnwch i'r dysgwyr fynd i weithio â phartner a rhowch Atodiad 3 iddynt. Ceir darluniau manwl o 4 ystafell wahanol yn yr atodiad. Bydd Partner 1 yn dewis llun ac yn disgrifio'r ystafell ynddo e.e. 'Mae'r llenni'n batrymog. Mae sofffa fawr yn y gornel...' ac ati. Yna, bydd Partner 2 yn dewis llun gwahanol ac yn gwneud yr un fath.

Ar ôl cael digon o gyfle i drafod y lluniau, gofynnwch i bawb feddwl am ystafell yn eu cartrefi a nodi 10 peth sydd yn yr ystafell. Yna, gofynnwch iddynt drafod yr ystafell a'i disgrifio'n fanwl i'w partner. Gellir defnyddio Atodiad 4.

Cyn gwneud y tasgau hyn, gallech wneud storom eirfa i gyflwyno geirfa ddefnyddiol e.e. patrymog, blodeuog ac ati.

Cam 8

Sgwrsio

Mae cerdyn sgwrsio melyn ychwanegol. Gallech hefyd ofyn i'r dysgwyr feddwl am gwestiynau eraill, a symud i siarad â phartner gwahanol.

Os oes gennych gopi o Adran gan Gwyneth Glyn, byddai'n braf galleu ei chwarae i'r dosbarth i gloi neu yn y cefndir tra byddan nhw'n sgwrsio.

Atodiad 1 – Cardiau Sgwrsio Fy Nghartref (De Cymru)



- Disgrifiwch eich cartref.
- Ers pryd dych chi'n byw yn eich cartref presennol?
- Dych chi wedi newid eich cartref mewn unrhyw ffordd?
- Ble hoffech chi fyw, a pha fath o dŷ fasai eich tŷ delfrydol?
- Dych chi'n hoffi treulio amser gartref?

- Dych chi'n mwynhau cael pobl i aros yn eich cartref?
- Ydy cadw'r tŷ yn lân ac yn daclus yn bwysig i chi, neu dych chi'n teimlo'n fwy cyfforddus gydag ychydig o annibendod?
- Os dych chi'n rhannu tŷ gyda phobl eraill, sut dych chi'n penderfynu pwy sy'n gwneud tasgau o gwmpas y tŷ?
- Pa dasgau dych chi ddim yn hoffi eu gwneud?

- Disgrifiwch eich cartref.
- Ers pryd dych chi'n byw yn eich cartref presennol?
- Dych chi wedi newid eich cartref mewn unrhyw ffordd?
- Ble hoffech chi fyw, a pha fath o dŷ fasai eich tŷ delfrydol?
- Dych chi'n hoffi treulio amser gartref?

- Dych chi'n mwynhau cael pobl i aros yn eich cartref?
- Ydy cadw'r tŷ yn lân ac yn daclus yn bwysig i chi, neu dych chi'n teimlo'n fwy cyfforddus gydag ychydig o annibendod?
- Os dych chi'n rhannu tŷ gyda phobl eraill, sut dych chi'n penderfynu pwy sy'n gwneud tasgau o gwmpas y tŷ?
- Pa dasgau dych chi ddim yn hoffi eu gwneud?

Atodiad 1 - Cardiau Sgwrsio Fy Nghartref (Y Gogledd)




- Disgrifiwch eich cartref.
- Ers pryd dach chi'n byw yn eich cartref presennol?
- Dach chi wedi newid eich cartref mewn unrhyw ffordd?
- Lle hoffech chi fyw, a pha fath o dŷ fasai eich tŷ delfrydol?
- Dach chi'n hoffi treulio amser gartref?

- Dach chi'n mwynhau cael pobl i aros yn eich cartref?
- Ydy cadw'r tŷ yn lân ac yn daclus yn bwysig i chi, neu dach chi'n teimlo'n fwy cyfforddus efo ychydig o flerwch?
- Os dach chi'n rhannu tŷ efo pobl eraill, sut dach chi'n penderfynu pwy sy'n gwneud y tasgau o gwmpas y tŷ?
- Pa dasgau dach chi ddim yn hoffi eu gwneud?

- Disgrifiwch eich cartref.
- Ers pryd dach chi'n byw yn eich cartref presennol?
- Dach chi wedi newid eich cartref mewn unrhyw ffordd?
- Lle hoffech chi fyw, a pha fath o dŷ fasai eich tŷ delfrydol?
- Dach chi'n hoffi treulio amser gartref?

- Dach chi'n mwynhau cael pobl i aros yn eich cartref?
- Ydy cadw'r tŷ yn lân ac yn daclus yn bwysig i chi, neu dach chi'n teimlo'n fwy cyfforddus efo ychydig o flerwch?
- Os dach chi'n rhannu tŷ efo pobl eraill, sut dach chi'n penderfynu pwy sy'n gwneud y tasgau o gwmpas y tŷ?
- Pa dasgau dach chi ddim yn hoffi eu gwneud?

Atodiad 2



Atodiad 3 – Disgrifio Ystafelloedd



1. Meddyliwch am ystafell yn eich tŷ chi. Ysgrifennwch 10 peth sy yn yr ystafell. Wedyn, siaradwch am yr ystafell yma gyda'ch/efo'ch partner.

1.

.....

2.

.....

3.

.....

4.

.....

5.

.....

6.

.....

7.

.....

8.

.....

9.

.....

10.

.....

Uned 19 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu 'y' gyda'r cymal enwol

Rhowch y dysgwyr i weithio mewn parau. Bydd y parau'n edrych ar y cyngherddau yn y blwch yn eu gwrslyfrau. Rhaid iddynt greu brawddegau am y bobl eraill yn y dosbarth gan ddefnyddio 'y' gyda'r cymal enwol e.e. 'Dyn/ Dan ni'n meddwl y basai XX yn dewis mynd i gyngerdd clasurol'. Rhowch bwynt am bob ateb cywir. Gall hyn wedi arwain at sgwrsio rhydd e.e. "Pryd oedd y tro diwethaf aethoch chi i un o'r cyngherddau hyn?" ac ati.

Cam 2



Siarad am y thema (cerddoriaeth)

Byddwch wedi gofyn i'r dysgwyr ddod â gwrthrych i'r wers er mwyn trafod eu hoff albwm neu berfformiwr, sef yr albwm ei hun neu lun o'r hoff artist cerddorol neu fand. Os yw'r dosbarth yn fach, gall y dysgwr ddangos y gwrthrych i bawb a dweud gair bach amdano, ac esbonio pam mai hwn yw ei hoff albwm / band / artist. Os yw'r dosbarth yn weddol fawr, rhowch y dosbarth mewn grwpiau i wneud hyn. Efallai y bydd angen nodi geirfa newydd ar y bwrdd gwyn. Dylai hyn arwain at sgwrsio rhydd am gerddoriaeth, atgofion ieuencid ac ati.

Cam 3

Cyflwyno'r patrwm - Pwyslais gyda'r Cymal Enwol

- i) Yn hytrach na dril llafar arferol, ceir sleidiau PowerPoint ac arnynt ddarluniau o wahanol bobl o fyd cerddoriaeth: cantores opera, drymiwr, DJ, arweinydd cerddorfa, trombonydd, gitarydd, tiwniwr piano, feiolinydd, clarinetydd, telynor/telynores.



I ddechrau, esboniwch fod enwau offerynwyr fel arfer yn gorffen ag –ydd e.e. pianydd, organydd ac ati, ond bod ambell un yn wahanol e.e. trympedwr, drymiwr, telynor/telynores.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau. Dangoswch y sleid gyntaf a dywedwch: Dw i'n credu taw cantores opera yw hi/Dw i'n meddwl mai cantores opera ydy hi. Yna, symudwch i'r sleid nesaf a gofynnwch bâr ddilyn yr un patrwm ('Dyn ni'n credu taw drymiwr yw e/Dan ni'n meddwl mai drymiwr ydy o.')

- ii) Wedi hynny, gofynnwch iddynt wneud y ddau ymarfer yn eu gwrslyfrau. Dylai'r ail ymarfer arwain at siarad rhydd gyda'r partner.

iii) Cwis Gwrando

I atgyfnerthu'r patrwm ymhellach, rhannwch y dosbarth yn dimau.

Ceir sampl o 10 offeryn yn y cwis gwrando. Chwaraewch y clip sain i gyd. Rhaid i'r timau nodi'r offeryn sy'n cael ei ganu yn eu tyb hwy. Ar y diwedd, gofynnwch i'r timau adrodd yn ôl e.e.: 'Dyn ni'n credu taw trombon yw rhif un/Dan ni'n meddwl mai trombon ydy rhif un'. Rhowch farc am bob ateb cywir, ac efallai, gwobr fach i'r tîm llwyddiannus.

Atebion:

1. Trombôn
2. Piano
3. Harpsicord
4. Telyn
5. Gitâr drydan
6. Organ geg
7. Feiolin
8. Sacsoffon
9. Ffliwt
10. Bas dwbl

Cam 4

Gwyllo a gwrando

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/37312399>

Bydd y dysgwyr yn gwyllo fideo am fachgen 13 oed o'r enw Gwydion Rhys a gafodd ei ddewis i arwain Cerddorfa y BBC yng ngŵyl y Proms yn y Parc.



1. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando. Yna gofynnwch i'r dysgwyr wrando am y geiriau hyn:

tant	nodyn	curiad	paratodau	gweithdy
ochr yn ochr		annog	soddgrwth	anelu am yr
uchelfannau				

* Gallech esbonio fod *cello* yn derm derbyniol yn hytrach na soddgrwth.
2. Dyma'r atebion cywir ar gyfer y bylchau.
 - i. Hwn yw'r/ydy'r ugeinfed tro i wyl y Proms yn y Parc gael ei chynnal.
 - ii. Mae Gwydion Rhys yn dair ar ddeg oed.
 - iii. Mae tri deg pum mil o bobl wedi gwyllo'r fideo ar y we.
3. Dyma atebion y cwestiynau:
 - i. Pam doedd Gwydion Rhys ddim eisiau/isio arwain y gerddorfa i ddechrau?
Roedd e'n/o'n nerfus.
 - ii. Ydy'r digwyddiad wedi bod yng ngogledd Cymru o'r blaen?
Nac ydy. Hwn yw'r tro cynta.
 - iii. Beth mae'r Proms yn ei wneud, yn ôl Anwen Rees?
Denu pobl i wrando ar gerddoriaeth o bob genre a dod â phobl at ei gilydd.
 - iv. Beth yw/ydy prif ddiddordeb Gwydion Rhys?
Cerddoriaeth glasurol yw prif ddiddordeb Gwydion Rhys.
 - v. Pa offerynnau mae e'n/o'n eu chwarae?
Mae e'n/o'n chwarae'r piano a'r soddgrwth.

Cam ychwanegol posib fyddai rhannu'r dosbarth yn grwpiau, a gofyn iddynt feddwl am wyth cwestiwn yn seiliedig y fideo. Yna, bydd angen i grŵp gwahanol ateb y cwestiynau hynny.

Yn olaf, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau hyn, neu unrhyw beth arall sy'n codi o'r darn gwrando: O'ch/Oeddech chi'n chwarae offeryn pan o'ch chi'n/oeddech chi'n iau? Oedd gyda chi/gynnoch chi hobi neu ddiddordeb dych/dach chi ddim yn ei ddilyn erbyn hyn? Dych/Dach chi'n difaru rhoi'r gorau i unrhyw hobi?

Cam 5



Darllen

Bydd y dysgwyr yn darllen erthygl am y band Cymraeg chwedlonol o'r chwedegau, Y Blew.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn paruau i edrych ar y pum brawddeg sy'n seiliedig ar gynnwys y darn. Rhaid iddynt benderfynu a ydynt yn wir neu'n gau, gan ddefnyddio brawddeg bwysleisiol i ateb:

- i. The Summer of Love oedd haf 1967. *Dw i'n meddwl taw/mai The Summer of Love oedd haf 1967.*
- ii. Cerddoriaeth jazz oedd hoff gerddoriaeth pobl y gogledd. *Dw i ddim yn meddwl taw/mai cerddoriaeth jazz oedd hoff gerddoriaeth pobl y gogledd.*
- iii. Un record wnaeth Y Blew. *Dw i'n meddwl taw/mai un record wnaeth Y Blew.*
- iv. Dafydd Evans oedd prif leisydd Y Blew. *Dw i ddim yn meddwl taw/mai Dafydd Evans oedd prif leisydd Y Blew.*
- v. Maes X yw enw'r ardal i bobl ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol. *Dw i ddim yn meddwl taw/mai Maes X yw enw'r ardal i bobl ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol.*

Gorau oll os bydd y dysgwyr yn ymhelaethu, e.e. Dw i ddim yn meddwl taw/mai Dafydd Evans oedd prif leisydd Y Blew. Dw i'n meddwl taw/mai Mal Pate oedd y prif leisydd.

Ceir ymarfer cyfieithu syml, sydd hefyd yn gofyn iddynt ymarfer y treigladd meddal. Efallai cyn gwneud yr ymarfer y byddai'n werth trafod y geiriau 'cyngerdd' a 'llwyfan' hefyd. Gallech esbonio eu bod yn eiriau gwrywaidd gan amlaf ond mewn rhai ardaloedd yn y de, eu bod yn fenywaidd e.e. 'y gyngerdd', y 'llwyfan hon'.

Cam 6



Gwyllo a gwrando ychwanegol

<https://www.youtube.com/watch?v=CHF2xWII94Q>

Ceir fideo o Kizzy Crawford yn siarad am ei cherddoriaeth, a'i fersiwn hi o'r gân werin Gymraeg, 'Dafydd y Garreg Wen'.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando. Dyma atebion y cwestiynau.

1. Ble cafodd/Lle gaeth Kizzy Crawford ei magu?
Yn Aberaeron
2. Ar ba fath o gerddoriaeth roedd hi'n gwrando pan oedd hi'n ifanc?
Cerddoriaeth werin a cherddoriaeth draddodiadol Gymraeg.
3. Beth wnaeth ei hysbrydoli hi i gyfansoddi caneuon?
Clywed Gwyneth Glyn yn canu.
4. Sut dysgodd hi 'Dafydd y Garreg Wen'?
Gwrandawodd hi ar CD o ganeuon Cymraeg.
5. Pam roedd hi'n hoffi fersiwn Bryn Terfel o'r gân?
Roedd hi'n hoffi'r ffordd roedd Bryn Terfel yn defnyddio'r geiriau.
6. Beth roedd hi eisiau ei wneud yn ei fersiwn hi?
Roedd hi eisiau creu yr un teimlad gyda'r geiriau.

Ar ôl i'r dosbarth gael cyfle i ateb y cwestiynau a (gobeithio) mwynhau'r gân, gallech sgwrsio am unrhyw beth sy'n codi'n naturiol o'r dasg e.e. gwahanol fersiynau o ganeuon, canu gwerin.

Ceir rhagor o wybodaeth am 'Dafydd y Garreg Wen' yma, rhag ofn y byddai o ddiddordeb i rai aelodau o'r dosbarth. https://cy.wikipedia.org/wiki/Dafydd_y_Garreg_Wen

Cam ychwanegol posib, yn yr un modd â darn Gwyllo a gwrando 1, fyddai rhannu'r dosbarth yn grwpiau, a gofyn iddynt feddwl am wyth cwestiwn yn seiliedig ar y fideo. Yna, bydd angen i grŵp gwahanol ateb y cwestiynau hynny.

Cam 7

Gweithgaredd cloi (dewisol)

Os oes amser ar ddiwedd y wers, byddai'n syniad da gwneud gweithgaredd i adolygu geirfa'r unedau blaenorol e.e. *hangman* neu gêm y 'bag geiriau' a esbonnir yng nghanllawiau Uned 4.

Uned 20 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu Uned 19

Chwaraewch gêm o 'Pwy ydw i?'. Bydd angen papur 'post it' arnoch. Ysgrifennwch enw canwr/cantores/band adnabyddus, a'i roi ar dalcen un o'r dysgwyr. Bydd angen i'r dysgwr ofyn cwestiynau i'r dosbarth i ddarganfod pwy yw'r person neu'r band ar ei dalcen e.e. "Ydw i'n chwarae'r gitâr?" "Ydw i'n dod o America?" Yna, ac ôl cael digon o gliwiau, gall fentro dweud "Dw i'n credu taw/Dw i'n meddwl mai... ydw i." Gadewch i'r dysgwyr roi 'post it' ar eich talcen chithau hefyd.

Ar ôl i bawb gael cyfle i ofyn cwestiynau, gallwch arwain ychydig o sgwrsio rhydd am unrhyw bobl neu fandiau a ddewiswyd yn y gêm.

Cam 2

Pwyslais

- i) Tynnwch sylw'r dosbarth at yr adran Help Llaw. Ceir tabl yno, yn dangos brawddegau sy'n pwysleisio'r goddrych. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng y goddrych (*subject*) a'r gwrthrych (*object*). Yna, gofynnwch iddynt danlinellu'r goddrych yn y brawddegau isod (sydd yn y gweryslyfrau):
1. Mae John yn prynu car newydd o'r garej yn Aberdâr.
 2. Mae Liz yn mynd i weld ffilm yn y sinema heno.
 3. Mae'r teulu'n gweryslla wrth y llyn ar hyn o bryd.

Wedyn, gofynnwch iddynt ail-ysgrifennu'r brawddegau gan bwysleisio'r goddrych. Esboniwch mai **sy** sy'n dilyn y goddrych mewn brawddegau pwyslais yn yr amser presennol.

- ii) Tasg ychwanegol ymestynnol: Ar ôl iddynt wneud hynny'n gywir, gofynnwch iddynt bwysleisio elfen arall o'r frawddeg, a bod angen defnyddio **mae** i wneud hynny e.e.:

Mynd i weld ffilm yn y sinema mae Liz heno/Yn y sinema mae Liz yn mynd i weld ffilm heno/Heno mae Liz yn mynd i weld ffilm yn y sinema

iii) Ymarfer y gwahaniaeth rhwng **mae** ac **yw/ydy**

Esboniwch fod drysu rhwng **mae** ac **yw** yn gamgymeriad cyffredin:

... Yn y siop yw/ydy e **X**

Yn y siop mae e **✓**

Mae **yw** yr un peth â =

Morgan yw/ydy e

Nyrs yw e

Merch yw/ydy hi

Nofel yw/ydy hi

Ond... Ar y trydydd llawr **mae** o

Mewn swyddfa **mae** hi

Yn y ddesg mae'r ffeil

Gofynnwch gwestiynau i'r dosbarth i ymarfer hyn gan ddefnyddio gwrthrychau, e.e.

Tiwtor: Beth yw hwn?/Be ydy hwn?

Dosbarth: Llyfr yw e/Llyfr ydy o

Tiwtor: Ble mae e/Lle mae o?

Dosbarth: Dan y bwrdd mae e/o

Rhowch y dosbarth i eistedd mewn cylch, ac eisteddwch gyda nhw. I ddechrau, dywedwch ffaith anghywir am aelod o'r dosbarth e.e. "Mae Jane yn byw yng Nghaerdydd." Rhaid i'r person nesaf ati gywiro'r frawddeg gan ddefnyddio pwyslais e.e. "Nac ydy. Yn Abertawe mae hi'n byw." Dylid mynd o gwmpas y cylch fel hyn – mae'n debyg y bydd angen i'r tiwtor greu'r frawddeg anghywir bob tro er mwyn sicrhau llwyddiant y gweithgaredd.

I gadarnhau'r cyfan, gwnewch y cwis cwestiynau pwyslais, sydd yn y gwerslyfrau. Gellir gweithio mewn paru. Esboniwch nad cael yr ateb cywir sy'n bwysig, ond defnyddio'r pwyslais yn briodol wrth ateb.

iv) Darllen y deialogau.

Edrychwch ar yr eirfa i sicrhau bod pawb yn ei deall. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch iddynt ddarllen y ddwy ddeialog (fel y maent).

Yr ail dro, rhaid i'r dysgwyr bwysleisio'r elfennau a danlinellwyd. Gwrandewch arnynt i sicrhau eu bod yn gwneud hyn yn gywir.

v) Ceir cyfres o ddriliau isod i'w defnyddio yn ôl yr angen:

Mae pump yn y swyddfa.
Mae saith yn y swyddfa.
Mae tri yn y swyddfa.
Mae pedwar yn y swyddfa.
Mae chwech yn y swyddfa.
Mae dau yn y swyddfa.

Ond pedwar sy'n cael cyfweliad.

John sy'n trefnu'r ystafell?

Ie, John sy'n trefnu'r ystafell.
Ie, Siân sy'n gweithio ar y ddesg groeso.
Ie, Mari sy'n agor y cyfarfod.
Ie, Dafydd sy'n dweud diolch ar y diwedd.
Ie, Jac sy'n clirio'r ystafell.
Ie, Jac sy'n cloi'r adeilad.

John sy'n trefnu'r ystafell?
Siân sy'n gweithio ar y ddesg
groeso?
Mari sy'n agor y cyfarfod?
Dafydd sy'n dweud diolch
ar y diwedd?
Jac sy'n clirio'r ystafell?
Jac sy'n cloi'r adeilad?

Nage, nid John sy'n trefnu'r ystafell y tro 'ma.

Cam 3



Darllen: Lleisiau o lawr y ffatri

Bydd y dysgwyr yn darllen darn am Eirlys Lewis, a fu'n gweithio mewn gwahanol ffatrioedd yn Rhydaman a Chaerdydd.

Dylid defnyddio'r wybodaeth yn y darn i gwblhau'r brawddegau canlynol (mae atebion eraill yn bosib):

1. Ym mhentref Garnswllt ger Rhydaman cafodd Eirlys Lewis ei geni.
2. Yn ffatri Pullman Flexolators cafodd hi ei swydd gyntaf.
3. Tasg beryglus oedd dipio metel mewn asid i'w lanhau.
4. Dim ond ffedog a menyg oedd ar gael i ddiogelu'r gweithwyr.
5. Gwaith Eirlys yn Vandevell oedd gweithio gyda'r/efo'r peiriannau mawr trwm.
6. Ffermio wnaeth Eirlys ar ôl priodi.

Wedi hynny, mae cyfle i'r dysgwyr drafod y math o swyddi y byddent wedi mwynhau eu gwneud, petaent wedi cael y cyfle. Wedyn, rhaid cwblhau'r frawddeg:

Taswn i wedi cael y cyfle pan o'n i'n ifanc, baswn/mi faswn i wedi ...

Yn olaf, dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr siarad yn rhydd am bwnc sy'n codi yn y darn e.e. Beth oedd eich swydd gynta chi? O'ch/Oeddech chi'n ei mwynhau?

Pwnc arall posib fyddai gwahaniaethu ar sail rhyw, gan fod Eirlys yn derbyn cyflog is na'i brawd. Gellid trafod p'un ai a yw pethau wedi newid, ac a oes pwysau hyd heddiw ar ferched a bechgyn i ddewis meysydd gwaith penodol.

Cam 4



Gwylio a gwrando: Cyfweiliad am swydd

Bydd y dysgwyr yn gwylio fideo o dri chyfweiliad am swydd cynorthwy-ydd dosbarth. Cyn cychwyn, gofynnwch i barau feddwl am eirfa sy'n berthnasol i waith cynorthwy-ydd dosbarth mewn ysgol. Gellid hefyd ofyn iddynt i gyd feddwl am ddau gwestiwn y bydden nhw'n ei ofyn mewn cyfweiliad.

Y dasg gwylio a gwrando yw nodi manylion am y tri ymgeisydd yn y tabl yn eu gwerslyfrau. Yna, dylent drafod pwy sy'n haeddu cael y swydd, a pham.

I gloi, gellid cynnal cyfweiliadau yn y dosbarth – am y swydd hon neu am swydd arall.

Dylai'r dasg hon arwain at ddigon o siarad rhydd am gyfweiliadau, a phrofiadau da a drwg y mae pobl wedi'u cael wrth ymgeisio am swyddi. Ceir copi o sgript y deialogau yn Atodiad 1.

Nid yw'r actorion yn dilyn union eiriad y sgript, felly ni ddylid rhoi copïau i'r dysgwyr.

Atodiad 1 (Fersiwn y De)



Cyfweliad Hannah Lewis

Panelwr 1: Bore da Hannah. Beth am ddechrau trwy ddweud ychydig amdanoch chi'ch hunan, ac esbonio pam dych chi eisiau'r swydd yma? Pam hoffech chi weithio fel cynorthwy-ydd dosbarth?

Hannah: Bore da. Fy enw i yw Hanna Lewis. Dw i'n 35 oed a dw i'n gweithio mewn meithrinfa ar hyn o bryd. Dw i eisiau'r swydd yma achos fy mod i'n mwynhau gweithio gyda phlant bach. Dw i hefyd eisiau gweithio mewn ysgol Gymraeg i ymarfer fy Nghymraeg bob dydd. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 5 mlynedd. A, basai oriau gwaith y swydd yma yn fy siwtio i.

Panelwr 2: Y cwestiwn nesaf: beth yw eich profiad chi o weithio gyda phlant ifanc?

Hannah: Wel, fel dwedais i, dw i'n gweithio mewn meithrinfa ar hyn o bryd. Dw i heb weithio mewn ysgol o'r blaen, ond dw i wedi bod yn gwirfoddoli yn ysgol fy mab, i helpu rhai o'r plant i ddarllen.

Panelwr 3: Allwch chi ddweud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Hannah: Mae gyda fi ddeg TGAU A-C, Lefel A Ffiseg, Cemeg a Mathemateg a gradd mewn Ffiseg. Ond ar ôl cael fy mhiant, sy'n wyth ac yn bedair oed, penderfynais i newid cyfeiriad. Do'n i ddim eisiau mynd yn ôl i weithio mewn **labordy**. Felly gwnes i Ddiploma Gofal, Dysgu a **Datblygiad** Plant a chael swydd ran amser mewn meithrinfa. Gwnes i Ddiploma arall yn y gwaith felly mae'r cymwysterau cywir gyda fi i weithio mewn ysgol.

Panelwr 2: Fy nghwestiwn i yw: pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y cyfnod sylfaen?

Hannah: Mae angen cadw diddordeb plant bach, a gadael iddyn nhw symud o gwmpas. Felly, basai gwneud rhywbeth tu fas, fel chwilio am lythrennau a rhifau ar yr iard, yn hwyl i'r plant.

Panelwr 1: Diolch yn fawr. Wel dyna'n cwestiynau ni. Oes cwestiwn gyda chi i ni?

Hannah: Mae diddordeb gyda fi mewn gweithio â phlant ag Anghenion **Addysgol Arbennig**. Oes cyfle i hyfforddi i wneud hyn yn y gwaith?

Panelwr 3: Oes wrth gwrs. Mae hyfforddiant a datblygu staff yn bwysig iawn yn Ysgol y Ffynnon.

Hannah: Ardderchog. Diolch yn fawr.

Panelwr 1: Diolch yn fawr i chi, Hannah. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Hannah: Diolch yn fawr.

Cyfweliad Rhun Jones

Panelwr 1: Iawn, fe ddechreuwn ni. I ddechrau, wnewch chi ddweud ychydig amdanoch chi'ch hunan, ac esbonio pam dych chi eisiau'r swydd yma? Pam hoffech chi weithio fel cynorthwy-ydd dosbarth?

Rhun: Fy enw i yw Rhun Jones. Dw i'n ddau ddeg dau, a dw i newydd gwblhau cwrs gradd Addysg. Dw i'n chwilio am swydd ddysgu ond does dim swyddi athrawon ar gael ar hyn o bryd felly meddyliais i y basai'n dda imi wneud y gwaith yma.

Panelwr 2: Y cwestiwn nesaf: beth yw eich profiad chi o weithio gyda phlant ifanc?

Rhun: Fel dw i newydd ddweud, mae gyda fi radd Addysg, ac i gael honna roedd yn rhaid i fi dreulio tair blynedd yn astudio addysg a chyfnodau hir ar brofiad gwaith mewn ysgolion. Felly, mae gyda fi lawer iawn o brofiad. Athro Uwchradd dw i eisiau bod – mae'n llawer gwell gyda fi blant oedran Uwchradd – a dw i'n uchelgeisiol iawn. Hoffwn i fod yn **bennaeth ysgol** yn y pen draw. Ond mae'n rhaid dechrau'n rhywle ac mae bod yn gynorthwy-ydd dosbarth yn well na dim!

Panelwr 3: Allwch chi ddweud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Rhun: Mae gyda fi gymwysterau da iawn. Ces i A a dwy B yn fy lefel A ac fe ges i 2:1 yn fy ngradd.

Panelwr 2: Fy nghwestiwn i yw: pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y cyfnod sylfaen?

Rhun: Ym... wel, mae dysgu trwy chwarae yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd ond dw i'n credu bod angen trefn. Mae angen eistedd wrth ddesg ac ymarfer ysgrifennu a darllen. Y pethau traddodiadol. Does dim amynedd gyda fi i chwarae gyda phlant.

Panelwr 1: Diolch yn fawr. Wel dyna'n cwestiynau ni. Oes cwestiwn gyda chi i ni?

Rhun: Oes; fyddwch chi'n gallu rhoi cyflog uwch i fi achos fy ngradd a'r sgiliau sydd gyda fi?

Panelwr 3: Na fyddwn, ddim yn y lle cyntaf.

Rhun: Dyna siomedig. Dw i'n meddwl y byddwch chi'n lwcus iawn i gael rhywun fel fi yn y swydd.

Panelwr 1: Diolch yn fawr i chi, Rhun. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Rhun: Hwyl fawr.

Cyfweliad Manon Davies

Panelwr 1: Iawn, fe ddechreuwn ni. I ddechrau, wnewch chi ddweud ychydig amdanoch chi'ch hunan, ac esbonio pam dych chi eisiau'r swydd yma? Pam hoffech chi weithio fel cynorthwy-ydd dosbarth?

Manon: Fy enw i yw Manon Davies. Dw i'n ddau ddeg wyth oed a dw i'n gweithio mewn caffi yn y dref. Mae'r swydd sydd gyda fi'n eithaf diflas a dw i'n teimlo ei bod hi'n bryd i fi wneud rhywbeth gwahanol. Ro'n i'n mynd i wneud **prentisiaeth** i fod yn fecanic eleni ond anfonais i fy nghais yn rhy hwyr. Felly basai'r swydd yma'n iawn am y tro. Dw i'n lico plant.

Panelwr 2: Da iawn – mae hynny'n bwysig. Y cwestiwn nesaf: beth yw eich profiad chi o weithio gyda phlant ifanc?

Manon: Wel a dweud y gwir, sa i wedi bod yn agos i ysgol ers tua deuddeg mlynedd. Gadawais i'r ysgol pan o'n i'n 16 oed. Ond ro'n i'n joio'r ysgol a dw i'n siwr y bydda i'n hapus yn y swydd yma.

Panelwr 3: Allwch chi ddweud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Manon: Mae gyda fi 8 TGAU A-C. Mae tystysgrif hylendid bwyd gyda fi, achos mod i'n gweithio mewn caffi.

Panelwr 2: Fy nghwestiwn i yw: pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y cyfnod sylfaen?

Manon: Y peth pwysig yw mwynhau, siwr o fod, ie? Felly digon o redeg o gwmpas a chwarae 'tag' a phethau fel'na. Dyna o'n i'n lico ei wneud yn yr ysgol, beth bynnag.

Panelwr 1: Diolch yn fawr. Wel dyna'n cwestiynau ni. Oes cwestiwn gyda chi i ni?

Manon: Oes. Mae parti plu Siân, fy ffrind i, jyst cyn y Pasg. Ni'n mynd am wythnos i Ibiza. Mae'n iawn i fi gymryd wythnos bant, yw hi?

Panelwr 3: Wel... ahem... does dim angen trafod hynny ar hyn o bryd, ddim tan y byddwn ni'n **penodi**. Ond fel arfer dyw hi ddim yn bosib cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Manon: O, dyna drueni.

Panelwr 1: Diolch yn fawr i chi, Manon. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Manon: Diolch yn fawr.

Atodiad 1 (Gogledd)



Cyfweliad Hannah Lewis

Panelwr 1: Bore da Hannah. Be am ddechra trwy ddeud ychydig amdanoch chi'ch hun, ac esbonio pam dach chi isio'r swydd yma? Pam lliciech chi weithio fel cynorthwy-ydd dosbarth?

Hannah: Bore da. Fy enw i ydy Hanna Lewis. Dw i'n 30 oed a dw i'n gweithio mewn meithrinfa ar hyn o bryd. Dw i isio'r swydd yma achos fy mod i'n mwynhau gweithio efo plant bach. Dw i hefyd isio gweithio mewn ysgol Gymraeg i ymarfer fy Nghymraeg bob dwrnod. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 5 mlynedd. A, basai oriau gwaith y swydd yma yn fy siwtio i.

Panelwr 2: Y cwestiwn nesaf: be ydy'ch profiad chi o weithio efo plant ifanc?

Hannah: Wel, fel dudes i, dw i'n gweithio mewn meithrinfa ar hyn o bryd. Dw i heb weithio mewn ysgol o'r blaen, ond dw i wedi bod yn gwirfoddoli yn ysgol fy mab, i helpu rhai o'r plant i ddarllen.

Panelwr 3: Allwch chi ddeud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Hannah: Mae gen i ddeg TGAU A-C, Lefel A Ffiseg, Cemeg a Mathemateg a gradd mewn Ffiseg. Ond ar ôl cael fy mhlant, sy'n wyth ac yn bedair oed, mi wnes i benderfynu newid cyfeiriad. Do'n i ddim isio mynd yn ôl i weithio mewn **labordy**. Felly mi wnes i Ddiploma Gofal, Dysgu a **Datblygiad** Plant a chael swydd ran amser mewn meithrinfa. Mi wnes i Ddiploma arall yn y gwaith felly mae'r cymwysterau cywir gen i i weithio mewn ysgol.

Panelwr 2: Fy nghwestiwn i ydy: pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y cyfnod sylfaen?

Hannah: Mae angen cadw diddordeb plant bach, a gadael iddyn nhw symud o gwmpas. Felly, basai gwneud rhywbeth tu allan, fel chwilio am lythrennau a rhifau ar yr iard, yn hwyl i'r plant.

Panelwr 1: Diolch yn fawr. Wel dyna'n cwestiynau ni. Oes gynnoch chi gwestiwn i ni?

Hannah: Mae gen i ddiddordeb mewn gweithio efo plant ag Anghenion **Dysgu Ychwanegol**. **Oes** 'na gyfle i hyfforddi i wneud hyn yn y gwaith?

Panelwr 3: Oes wrth gwrs. Mae hyfforddiant a datblygu staff yn bwysig iawn yn Ysgol y Ffynnon.

Hannah: Ardderchog. Diolch yn fawr.

Panelwr 1: Diolch yn fawr i chi, Hannah. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Hannah: Diolch yn fawr.

Cyfweliad Rhun Jones

Panelwr 1: Iawn, fe ddechreuwn ni. I ddechrau, wnewch chi ddeud ychydig amdanoch chi'ch hun, ac esbonio pam dach chi isio'r swydd yma? Pam liciech chi weithio fel cynorthwy-ydd dosbarth?

Rhun: Fy enw i ydy Rhun Jones. Dw i'n ddau ddeg dau, a dw i newydd orffen cwrs gradd Addysg. Dw i'n chwilio am swydd ddysgu ond does 'na ddim swyddi athrawon ar gael ar hyn o bryd felly meddyliais i y basai'n dda imi wneud y gwaith yma.

Panelwr 2: Y cwestiwn nesaf: be ydy'ch profiad chi o weithio efo plant ifanc?

Rhun: Fel dw i newydd ddeud, mae gen i radd Addysg, ac i gael honna roedd rhaid i mi dreulio tair blynedd yn astudio addysg efo cyfnodau hir ar brofiad gwaith mewn ysgolion. Felly, mae gen i lawer iawn o brofiad. Dw i isio bod yn Athro Uwchradd – mae'n llawer gwell gen i blant oed Uwchradd – a dw i'n uchelgeisiol iawn. Liciwn i fod yn **bennaeth ysgol** yn y pen draw. Ond mae'n rhaid dechra'n rhwla ac mae bod yn gynorthwy-ydd dosbarth yn well na dim!

Panelwr 3: Allwch chi ddeud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Rhun: Mae gen i gymwysterau da iawn. Mi ges i A a dwy B yn fy lefel A ac mi ges i 2:1 yn fy ngradd.

Panelwr 2: Fy nghwestiwn i ydy: pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y cyfnod sylfaen?

Rhun: Ym... wel, mae dysgu trwy chwarae yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd ond dw i'n meddwl bod angen trefn. Mae isio i blant ista wrth ddesg ac ymarfer sgwennu a darllan. Y petha traddodiadol. Does gen i ddim digon o 'mynadd i chwarae efo plant.

Panelwr 1: Diolch yn fawr. Wel dyna'n cwestiynau ni. Oes gynnoch chi gwestiwn i ni?

Rhun: Oes; fyddwch chi'n medru rhoi cyflog uwch i fi achos fy ngradd i a'r sgiliau sydd gen i?

Panelwr 3: Na fyddwn, ddim yn y lle cyntaf.

Rhun: Dyna siomedig. Dw i'n meddwl y basach chi'n lwcus iawn i gael rhywun fel fi yn y swydd.

Panelwr 1: Diolch yn fawr i chi, Rhun. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Rhun: Hwyl fawr.

Cyfweliad Manon Davies

Panelwr 1: Iawn, fe ddechreuwn ni. I ddechrau, wnewch chi ddeud ychydig amdanoch chi'ch hun, ac esbonio pam dach chi isio'r swydd yma? Pam licioch chi weithio fel cynorthwy-ydd dosbarth?

Manon: Fy enw i ydy Manon Davies. Dw i'n ddau ddeg wyth oed a dw i'n gweithio mewn caffi yn y dre. Mae'r swydd sydd gen i'n reit ddiflas a dw i'n teimlo ei bod hi'n bryd i fi wneud rhwbath gwahanol. Ro'n i'n mynd i wneud **prentisiaeth** i fod yn fecanic 'leni ond wnes i anfon fy nghais yn rhy hwyr. Felly basai'r swydd yma'n iawn am y tro. Dw i'n licio plant.

Panelwr 2: Da iawn – mae hynny'n bwysig. Y cwestiwn nesaf: be ydy eich profiad chi o weithio efo plant ifanc?

Manon: Wel a deud y gwir, dw i heb fod yn agos i'r ysgol ers rhyw ddeuddeg mlynedd. Mi adawais i'r ysgol pan o'n i'n 16 oed. Ond ro'n i'n enjoio'r ysgol a dw i'n siŵr y bydda i'n hapus yn y swydd yma.

Panelwr 3: Allwch chi ddeud rhywbeth am eich cymwysterau chi?

Manon: Mae gen i 8 TGAU A-C. Mae gen i dystysgrif hylendid bwyd, achos mod i'n gweithio mewn caffi.

Panelwr 2: Fy nghwestiwn i ydy: pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i blant yn y cyfnod sylfaen?

Manon: Y peth pwysig ydy mwynhau, ia ddim? Felly digon o redag o gwmpas a chwarae 'tag' a phetha fel'na. Dyna o'n i'n licio 'i neud yn yr ysgol, beth bynnag.

Panelwr 1: Diolch yn fawr. Wel dyna'n cwestiynau ni. Oes gynnoch chi gwestiwn i ni?

Manon: Oes. Mae parti plu Siân, fy ffrind i, jyst cyn y Pasg. Dan ni'n mynd am wythnos i Ibiza. Mae'n iawn i fi gymryd wythnos i ffwr', yndi?

Panelwr 3: Wel... ahem... does dim angen trafod hynny ar hyn o bryd, ddim tan y byddwn ni'n penodi. Ond fel arfer dydi hi ddim yn bosib cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Manon: O, biti!

Panelwr 1: Diolch yn fawr i chi, Manon. Byddwn ni mewn cysylltiad.

Manon: Diolch yn fawr.

Uned 21 – Canllaw i'r Tiwtor

Cam 1



Siarad Rhydd

Mae'n bwysig iawn mewn Dosbarth Uwch meithrin yr arfer o drafod pynciau cyfoes. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach, a gofyn iddynt drafod gyda'i gilydd yr hyn sy'n digwydd yn y newyddion ar hyn o bryd: un stori ryngwladol, un stori Brydeinig, un stori Gymreig, ac un stori leol.

Cam 2

Adolygu brawddegau pwysleisiol

Rhowch set o gardiau i bob pâr (Atodiad 1). Ar un ochr ceir cwestiwn a gair allweddol i'w gynnwys yn yr ateb. Ar yr ochr arall ceir yr ateb cywir. Mae'r dysgwyr yn cymryd tro i ateb a gofyn y cwestiynau. Pwrpas y gweithgaredd yw cynhyrchu ateb sy'n pwysleisio'r gair allweddol ar y cerdyn.

Ble/Lle mae dy deulu di'n byw?

Caerfyrddin

Pwy sy'n cyhoeddi'r llyfr?

Y Lolfa

Beth yw/Be ydy enw'r rheolwr newydd?

Sam

Est ti i'r dosbarth tecstilau neithiwr?

X Ffrangeg

Adeiladwr yw/ydy dy dad di?

X Trydanwr

Ble/Lle mae mab Jac erbyn hyn?

Y Wladfa

Pwy sy'n dysgu gwyddoniaeth?

Yng Nghaerfyrddin mae fy rheulu'n byw

Y Lolfa sy'n cyhoeddi'r llyfr

Sam yw enw'r rheolwr newydd

Naddo, i'r dosbarth Ffrangeg es i

Nage/Naci, trydanwr yw e/ydy o

Yn Y Wladfa mae e/o

Pat Williams
Cot pwy yw hon?/ Côt pwy ydy hon?
Dafydd

Pat Williams sy'n dysgu gwyddoniaeth
Cot Dafydd yw hi/Côt Dafydd ydy hi

Cam 3

Cyflwyno'r Amodol Cryno

- i) Atgoffwch y dysgwyr eu bod nhw eisoes wedi defnyddio ffurfiau cryno yr amodol yn Uned 4 ac ar gyrsiau blaenorol (dylwn i/mi ddylwn i, hoffwn i/mi hoffwn i, gallwn i/mi fedrwn i).

Gwnewch dril syml i'w hatgoffa o'r patrwm:

Tiwtor: Dw i'n oer
Mae Rob yn oer
Dych chi'n oer
'Dyn/Dan ni'n oer
Maen nhw'n oer

Dysgwyr: Dylet ti/Mi ddylet ti wisgo het
Dylai fe/Mi ddylai fo wisgo het

Dril arall i adolygu 'gallwn i/mi fedrwn i' ac i ymarfer y rhagenwau. Cyn gwneud y dril hwn, byddai'n syniad da cynnal dril cyflym yn disodli 'yn **fy** lle i', e.e. mae'r tiwtor yn galw 'Fi' a'r dosbarth yn dweud 'Yn fy lle i,' 'Fe' → 'Yn ei le e/o' ac yn y blaen.

Tiwtor: Dw i ddim yn gallu/medru
mynd â'r ci am dro
Dyw/Dydy Jac ddim yn gallu/medru bwydo'r pysgod
Dyw/Dydy Sali ddim yn gallu/medru mynd â'r gath at y milfeddyg
'Dyn/Dan ni ddim yn gallu/medru rhoi bath i'r ci
Dyw/Dydy'r plant ddim yn gallu/medru edrych ar ôl y bochdew

* Gallech ddefnyddio anifeiliaid eraill yma, a gwneud storom eirfa i gyflwyno enwau Cymraeg anifeiliaid anwes mwy anghyffredin.

- ii) Ar ôl esbonio bod modd i ferfau eraill ddefnyddio'r un patrymau, gwnewch y driliau isod, sydd yn eu gwर्सlyfrau.

Taswn i'n eistedd yn y cefn... Welet ti ddim llawer o'r cyngerdd
 Tasai Mair yn eistedd yn y cefn ...
 Tasai Nasir yn eistedd yn y cefn ...
 Tasen ni'n eistedd yn y cefn ...
 Tasai'r plant yn eistedd yn y cefn ...

Cyflwynwch y ferf MEIDDIO i'r dysgwyr. Mae'n ferf newydd iddynt, fwy na thebyg, ond mae'n ferf a ddefnyddir yn aml yn yr amodol.

Dw i'n mynd ar streic Feiddiet ti ddim
 Mae e'n/o'n mynd ar streic
 Mae hi'n mynd ar streic
 'Dyn/Dan ni'n mynd ar streic
 Maen nhw'n mynd ar streic

iii) Wedi hynny, atgoffwch y dysgwyr bod rhaid defnyddio 'bod wedi' wrth ddefnyddio ffurfiau'r amodol yn y gorffennol. Gallech wneud driliau tebyg i hyn:

Dw i eisiau/isio mynd i'r tŷ bach Dylet/Mi ddylet ti fod wedi mynd cyn hyn
 Mae e/o eisiau/isio mynd i'r tŷ bach
 Mae hi eisiau/isio mynd i'r tŷ bach
 Mae'r plant eisiau/isio mynd i'r tŷ bach
 Maen nhw eisiau/isio mynd i'r tŷ bach ...

Dril yn defnyddio 'hoffi':

Welaist/Welest ti'r Tŵr Eiffel Naddo. Hoffwn/Mi hoffwn i fod wedi gweld y Tŵr Eiffel.
 pan o't ti yn Ffrainc?
 Welaist/Welest ti'r Mona Lisa....? Naddo. Hoffwn/Mi hoffwn i fod wedi gweld y Mona Lisa.

Welaist/Welest ti'r Arc de Triomphe?
 Welaist/Welest ti'r Seine?
 Welaist/Welest ti'r Pompidou?

iv) Ar ôl y driliau, rhowch amser iddynt i wneud yr ymarfer ysgrifenedig yn eu llyfrau.

1. Baswn/Mi faswn i'n hoffi cael ci, ond dw i'n gweithio oriau hir.
Hoffwn/Mi hoffwn i gael ci, ond dw i'n gweithio oriau hir.
2. Faswn i ddim yn gallu/medru cadw anifail anwes yn y fflat yma.
Allwn/Fedrwn i ddim cadw anifail anwes yn y fflat yma.
3. Basai/Mi fasai'r ci yn bwyta fy nghinio i tasai fe'n/fo'n cael cyfle.
Bwytai'r/Mi fwytai'r ci fy nghinio tasai fe'n/fo'n cael cyfle.
4. Basai/Mi fasai hi'n hoffi cael cath, ond mae alergedd gyda hi/mae ganddi alergedd i flew cath.
Hoffai hi gael cath, ond mae alergedd gyda hi i flew cath.
5. Does dim/Does 'na ddim lle i gwningen yma ond baset ti'n gallu/mi faset ti'n medru cael bochdew.
Does dim/Does 'na ddim lle i gwningen yma ond gallet/mi fedret ti gael bochdew.
6. Faswn i ddim yn hoffi cael aderyn yn anifail anwes.
Hoffwn i ddim cael aderyn yn anifail anwes.
7. Basen/Mi fasen nhw'n cerdded bob dydd tasai ci gyda nhw.
Cerdden/Mi gerdden nhw bob dydd tasai ci gyda nhw/tasai gynnyn nhw gi.
8. Baswn i wedi gallu/Mi faswn i wedi medru mynd â'r ci am dro taset ti wedi gofyn i fi/mi.
Gallwn/Mi fedrwn i fod wedi mynd â'r ci am dro taset ti wedi gofyn i fi/mi.
9. Baswn/Mi faswn i wedi hoffi cael anifail anwes pan o'n i'n blentyn.
Hoffwn/Mi hoffwn i fod wedi cael anifail anwes pan o'n i'n blentyn.
10. Fasen ni ddim wedi gallu/medru ennill yn y sioe gŵn heb dy help di.
Allen/Fedren ni ddim bod wedi ennill yn y sioe gŵn heb dy help di.

Cyn gwneud yr ymarfer hwn, gallech sôn bod y ferf 'lico / licio' yn rhedeg yr un ffordd yn yr amodol, a'i bod yn cael ei defnyddio'n aml ar lafar e.e. 'Licet ti ddisgled/Licet ti baned?' 'Licech chi ddod i mewn?/Liciech chi ddwad i mewn?' Mae croeso iddynt ddefnyddio 'lico' yn lle 'hoffi' yn yr ymarfer hwn os mai dyna'r ferf a ddefnyddir ganddynt yn naturiol wrth sgwrsio.

Cam 4

Cyflwyno'r thema (Anifeiliaid Anwes) a sgwrsio rhydd

I ddechrau, gallech wneud storom eirfa i roi cyfle i'r ddysgwyr ddysgu enwau Cymraeg unrhyw anifeiliaid anwes anghyffredin sydd ganddynt, ac unrhyw eirfa gysylltiedig ag anifeiliaid anwes. Dylech hefyd eu hatgoffa am genedl enwau anifeiliaid e.e. bod ci, aderyn, bochdew a mochyn cwta yn wrywaidd; cath, cwningen, neidr a madfall yn fenywaidd.

Dyma rai cwestiynau y gellid eu defnyddio i ddechrau sgwrs am y thema.

- Dych/Dach chi erioed wedi cael anifail anwes?
- Beth dych/Be dach chi'n ei hoffi orau, cathod neu gŵn?
- Beth/Be mae cathod yn gallu/medru ei wneud yn well na chŵn, ac fel arall?
- Dych/Dach chi'n gadael i'ch anifail anwes gysgu ar eich gwely?

Er mwyn ymarfer yr amodol, gellid gofyn i'r dosbarth a fyddai'n well gyda nhw fod yn gathod neu'n gŵn. Rhannwch y dosbarth yn ddau hanner – hanner yn gathod a hanner yn gŵn – ac anfonwch y dysgwyr i'r hanner priodol. Rhaid iddynt siarad â'i gilydd yn dweud pam byddai'n well gyda nhw fod yn gath neu'n gi trwy ddechrau 'Hoffwn/Mi hoffwn i fod yn gath/gi achos.....' Gellid wedyn paru cath a chi i ddadlau am hyn.

Cam 5



Gwyllo a gwrando 1: Canolfan Anifeiliaid Llys Nini. [hyd at 2.09]

Bydd y dysgwyr yn gwyllo fideo am Ganolfan Anifeiliaid Llys Nini. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr roi cylch o gwmpas y geiriau sydd yn eu gwrslyfrau pan fyddant yn eu clywed.

Wedi hynny, gofynnir i'r dysgwyr drafod arwyddocâd geiriau a glywir yn y fideo:

mis lonawr - dyma fis prysura Llys Nini

tad a mab - mae'n anodd cartrefu dau gi, sef Ollie a Shay, achos bod rhaid iddyn nhw aros gyda'i/efo'i gilydd. Maen nhw'n dad a mab.

delfrydol - yn ôl Lowri Elen Jones, dyw/dydy hi ddim yn 'ddelfrydol' cael ci os dych/dach chi'n gweithio'n llawn amser.

Ar beth mae'r RSPCA yn edrych wrth baru anifail â pherchennog? Nodwch o leiaf dri pheth.

Cartref y perchennog, personoliaeth y bobl, personoliaeth yr anifail, oriau gwaith, a oes plant yn y cartref.

Dyma enghreifftiau ar gyfer cwestiwn 4: gofal plant, gofal dydd, gofal iechyd, gofal deintyddol, gofal cymdeithasol, gofal dwys, gofal yn y cartref, gofal yn y gymuned ...

Atebion 5:

prospective buyer

darpar brynwr

husband to be

darpar wŵr

expectant mother

darpar fam

prospective student

darpar fyfyrwr

Cam 6

Sgwrsio rhydd

Rhowch gyfle i'r dysgwyr drafod cynnwys y fideo ac efallai mynegi barn ar elusennau anifeiliaid. Mae Prydeinwyr yn rhoi llawer o arian i elusennau fel hyn. Ydy hynny'n beth da, ar draul elusennau eraill?

Cam 7



Darllen a deall

Bydd y dysgwyr yn darllen am chwedl Gelert. Efallai y bydd yn stori gyfarwydd i rai, yn enwedig os ydynt yn rhieni i blant ifanc. Mae llawer o ddeunyddiau ar-lein ar gael am Gelert, ac efallai y bydd rhai wedi clywed sôn am y ffilm animeiddiedig (sydd bellach ar gael ar DVD).

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i weithio ar y cwestiynau.

Er gwybodaeth, dyma ateb cwestiwn 2:

chwedl	yn y fan a'r lle	blaidd
Uned 6 'Y Môr.' Cyflwynir y gair wrth drafod chwedl Cantre'r Gwaelod.	Uned 1 'Her.' Yn y darn darllen, dywedir bod Guto Nyth Brân wedi cwmpo'n/syrthio'n farw yn y fan a'r lle.	Uned 3 'Y Goedwig.' Mae'r blaidd yn gymeriad yn stori Hukan Fach Goch.

Gwaith llafar yw'r cwestiynau. Gallech ofyn iddynt weithio mewn grwpiau yn hytrach na phartneriaid pe bai hynny'n gweithio'n well yn eich barn chi.

Cam 8

Gwyllo a Deall

Ceir 3 fideo arall am anifeiliaid anwes, sef 'Diwrnod y Cathod' lle mae Helen Kalliope Smith yn siarad am ei hobsesiwn â chathod; fideo am fenyw sy'n cadw dwy ffured yn anifeiliaid anwes a fideo (heriol ond diddorol) o'r bardd Gwyn Thomas yn trafod ei gerddi ysgafn am gathod, a chathod yn gyffredinol. Gallech ddewis fideo a fyddai o ddiddordeb i'ch dosbarth, a thrafod y fideo wedyn.

Atodiad 1

Cot pwy yw hon?/ Côt pwy ydy hon?	Cot Dafydd yw hon/ Côt Dafydd ydy hon
Pwy sy'n dysgu gwyddoniaeth? Pat Williams	Pat Williams sy'n dysgu gwyddoniaeth
Ble mae dy deulu di'n byw? Caerfyrddin	Yng Nghaerfyrddin mae fy nheulu'n byw.
Pwy sy'n cyhoeddi'r llyfr? Y Lolfa	Y Lolfa sy'n cyhoeddi'r llyfr.
Beth yw/Be ydy enw'r rheolwr newydd? Sam	Sam yw/ydy enw'r rheolwr newydd.
Est ti i'r dosbarth tecstilau neithiwr? X Ffrangeg	Naddo, i'r dosbarth Ffrangeg es i
Adeiladwr yw/ydy dy dad di? X Trydanwr	Nage, trydanwr yw e/Naci, trydanwr ydy o.
Ble/Lle mae mab Jac erbyn hyn? Y Wladfa	Yn y Wladfa mae e/o.

Uned 22 – Canllawiau i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu Uned 21

Rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch set o'r cardiau adolygu i bob pâr (Atodiad 1). Byddwch wedi torri'r cardiau, a bydd rhaid i'r parau uno dwy ran y brawddegau gyda'i gilydd fel a ganlyn:

Hoffwn/Mi hoffwn / i ymweld â Chastell Aberteifi

Synnet/Mi synnet / ti faint o bobl sy'n dringo Pen-y-Fan ar ddydd Sul.

Gwelech/Mi welech / chi lawer o bethau diddorol tasech chi'n mynd i Amgueddfa'r Glannau, Abertawe.

Thalen / nhw ddim am westy drud yn Ninbych-y-Pysgod – mae carafan gyda nhw/mae gynnyn nhw garafan.

Feiddiet / ti ddim mynd ar wifren sip ym Mlaenau Ffestiniog.

Dylai/Mi ddylai / hi fod wedi mynd ar y trê'n i gopa'r Wyddfa.

Allen/Fedren / ni ddim bod wedi gweld Pen Llŷn ar ddiwrnod gwell – mae'n fendigedig.

Hoffen/Mi hoffen / ni gerdded Llwybr yr Arfordir yn Sir Benfro.

Dylet/Mi ddylet / ti fynd am dro i Gastell Caerffili.

Basai/Mi fasai / hi'n mwynhau siopa yn Rhuthun. Mae siopau bach/Mae 'na siopau bach diddorol yno.

Cam 2

Sgwrsio rhydd

Ar ôl llunio'r brawddegau cywir, gadewch i'r parau sgwrsio'n rhydd am y llefydd a enwir yn y cardiau. Ydyn nhw wedi ymweld â rhai o'r llefydd hynny? Byddai hyn yn ffordd dda o gyflwyno thema'r uned a nodi enwau Cymraeg nad ydynt yn gyfarwydd â hwy ar lefydd yng Nghymru.

Cam 3

Byth / Erioed

- i) Cyn gwneud y dril, gwnewch ymarfer disodli syml gyda'r brawddegau isod, sy'n dangos sut y gellir defnyddio *byth* ac erioed gyda gwahanol amserau'r ferf. Bydd y tiwtor yn dweud y frawddeg, a'r dysgwyr yn ymateb gan ddisodli'r geiriau sydd wedi'u tanlinellu.

Dw i erioed wedi bwyta octopws.

Dw i byth yn siopa yn XX.

Do'n i byth yn helpu yn y tŷ pan o'n i'n blentyn.

Faswn i byth yn gwneud naid bynji.

- ii) Dim ond un dril a geir i ymarfer *byth* ac erioed oherwydd bod dwy ddeialog yn y gwrslyfrau i ymarfer defnyddio'r geiriau hyn yn gywir. Dril yn amser y presennol ydyw, sy'n defnyddio *byth* (yn yr ystyr *never*) ac erioed i gymharu (*as ever*). Efallai y bydd angen esbonio ystyr *anghofus*.

Dw i byth yn cofio enwau pobl

Rwy't ti mor anghofus ag erioed

Dwyt ti byth yn cofio enwau pobl

Dw i mor anghofus ag erioed

Dyw e/Dydy o...

Dyw hi/Dydy hi ...

'Dyn ni/Dan ni...

'Dyn nhw/Dydyn nhw

ac yn y blaen

Gellid hefyd ymestyn y dril hwn, e.e.

Dwyt ti byth yn golchi'r llestri

Dw i mor ddiog ag erioed

Dwyt ti byth yn prynu diod

Dw i mor dlawd ag erioed

iii) Deialogau

Ar ôl rhoi cyfle i'r dysgwyr wneud y driliau ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt ar *byth* ac erioed, gofynnwch iddynt ddarllen y deialogau gyda'i gilydd gan gymryd tro i wneud pob rhan. Yna, ceir ymarfer llenwi'r bylchau sy'n seiliedig ar y deialogau.

Cam 4



Gwyllo a gwrando

3 Lle: Sean Fletcher ym Mae Tor, Bro Gŵyr

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn parau i ateb y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Sean Fletcher yn disgrifio Bae Tor?
Mae'n dweud bod Bae Tor yn lân ac yn bur, fel 'spring clean' i'r corff.
2. Pam mae Bae Tor yn bwysig iddo fe?
Dyna lle mae pethau pwysig yn ei fywyd wedi dechrau a datblygu. Aeth yno am 'ddê't' gyda'i wraig a chwympo mewn cariad â Chymru hefyd.
3. Beth mae Sean Fletcher yn ei ddweud am y profiad o ddysgu Cymraeg?
Mae'n dweud na wnaeth neb ofyn iddo fe ddysgu Cymraeg. Roedd e eisiau gwneud achos bod yr iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth ei wraig. Mae'n sôn hefyd am fynd i ddosbarth Wlpan, a chael help gan ei blant i wella'i Gymraeg.

Wedi hynny, gofynnwch i'r dysgwyr siarad am eu rhesymau nhw dros ddysgu Cymraeg, a'u profiadau wrth fynd ati i'w dysgu.

Ar ôl rhoi cyfle i'r parau adrodd yn ôl, gallech drafod unrhyw bwynt arall sy'n codi o'r darn. Efallai y bydd rhai o'r dysgwyr yn gyfarwydd â Bro Gŵyr, ac y byddent am drafod atgofion sydd ganddynt am wyliau / ymweliadau â'r ardal honno. Neu, gellid trafod traethau yn gyffredinol: pa draethau maen nhw'n eu hoffi, ydyn nhw'n hoffi traethau naturiol neu draethau e.e. Dinbych y Pysgod lle mae siopau ac atyniadau gerllaw, ac ati...

Cam 5



Darllen 'Cymru: 100 lle i'w gweld cyn marw.'

Bydd y dysgwyr yn darllen darn byr sy'n rhoi crynodeb o'r gyfrol *Cymru: 100 lle i'w gweld cyn marw*. Ceir dau ymarfer iaith byr yn seiliedig ar y darn (berfau sy'n defnyddio'r arddodiad 'ar' ac ymarfer geirfa).

Ar ôl gwneud yr ymarferion iaith, dywedwch wrth y dysgwyr am edrych ar y rhestr o'r 100 lle. Os yn bosib, dewch â chopi o'r llyfr i'r wers hefyd er mwyn iddynt gael cyfle i weld y lluniau a'r ysgrifau. Os nad oes gennych gopi personol, dylai'r llyfr fod ar gael yn eich llyfrgell leol.

I ddechrau, i ymarfer defnyddio 'byth' ac 'erioed', gofynnwch iddynt drafod y llefydd ar y rhestr nad ydynt erioed wedi bod ynddynt, ac yna'r llefydd nad ydynt byth yn debygol o fynd iddynt. Wedi hynny, gofynnwch a oes llefydd pwysig ar goll o'r rhestr yn eu barn nhw. Pa fath o lefydd maen nhw'n hoffi ymweld â nhw: llefydd o harddwch naturiol neu lefydd (fel a geir yn y llyfr) lle mae adeiladau neu adfeilion diddorol? Gadewch i hyn arwain wedyn at sgwrsio rhydd.

Cam 6



Gwyllo a gwrando 2

Codi Pac: Castell Aberteifi

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando. Wedi hynny, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i lenwi'r bylchau. Dyma'r atebion:

1. Aberteifi oedd trydydd **porthladd** mwya Prydain ar ôl Lerpwl a Llundain.
2. Castell Aberteifi yw/ydy adeilad hyna Aberteifi.
3. Yn 2003, prynodd/mi brynodd Cyngor Sir Ceredigion safle Castell Aberteifi.
4. Enillodd/Mi enillodd y castell wob'r Prosiect **Adfer** y Flwyddyn Sianel Pedwar.
5. Y Normaniaid adeiladodd y castell cyntaf ar y safle yn 1093.
6. Mae Castell Aberteifi yn enwog achos dyma lle cafodd yr Eisteddfod gyntaf erioed ei chynnal.
7. Daeth/Mi ddaeth yr Arglwydd Rhys i Aberteifi yn 1171.
8. Yr Arglwydd Rhys oedd y Cymro cyntaf i adeiladu castell o gerrig.
9. Gorffennodd e/Mi orffennodd o adeiladu'r castell yn 1176 ac i ddathlu hynny, cynhaliodd e/mi gynhaliodd o eisteddfod.
10. Daeth/Mi ddaeth 30,000 o bobl i eisteddfod yr Arglwydd Rhys.

Ar ôl iddynt lenwi'r bylchau, gofynnwch iddynt weithio gyda'i gilydd i feddwl am dref arall yng Nghymru y dylai Geraint Hardy ymweld â hi. Dylent drafod atyniadau'r dref, bwytai a gwestai. Yna, gofynnwch iddynt gyflwyno'u dewis i weddill y dosbarth. Efallai y gallech wobrwyo'r pâr sy'n cyflwyno'r ddadl gryfaf dros ymweld â rhywle.

Gallech wedyn adael i'r dosbarth sgwrsio'n rhydd am unrhyw beth sy'n codi o'r ymarfer, e.e. gwestai, bwytai da, llefydd diddorol yng Nghymru ac ati.

Atodiad 1 – Adolygu Uned 21 (De Cymru)

Hoffwn	i ymweld â Chastell Aberteifi
Synnet	ti faint o bobl sy'n dringo Pen-y-Fan ar ddydd Sul
Gwelech	chi lawer o bethau diddorol tasech chi'n mynd i Amgueddfa'r Glannau, Abertawe
Thalen	nhw ddim am westy yn Aberaeron - mae carafán gyda nhw/mae gynnyn nhw garafán.
Feiddiet	ti ddim mynd ar wifren sip ym Mlaenau Ffestiniog.
Dylai	hi fod wedi mynd ar y trê'n i gopa'r Wyddfa.
Allen	ni ddim bod wedi gweld Pen Llŷn ar ddiwrnod gwell - mae'n fendigedig.
Hoffen	ni gerdded Llwybr yr Arfordir yn Sir Benfro.
Dylet	ti fynd am dro i Gastell Caerffili.
Basai	hi'n mwynhau siopa yn Rhuthun. Mae siopau bach da yno.

Atodiad 1 – Adolygu Uned 21 (Gogledd Cymru)

Mi hoffwn	i ymweld â Chastell Aberteifi
Mi synnet	ti faint o bobl sy'n dringo Pen-y-Fan ar ddydd Sul
Mi welech	chi lawer o bethau diddorol tasech chi'n mynd i Amgueddfa'r Glannau, Abertawe
Thalen	nhw ddim am westy yn Aberaeron - mae gynnyn nhw garafán.
Feiddiet	ti ddim mynd ar wifren sip ym Mlaenau Ffestiniog.
Mi ddylai	hi fod wedi mynd ar y trê'n i gopa'r Wyddfá.
Fedren	ni ddim bod wedi gweld Pen Llŷn ar ddiwrnod gwell - mae'n fendigedig.
Mi hoffen	ni gerdded Llwybr yr Arfordir yn Sir Benfro.
Mi ddylet	ti fynd am dro i Gastell Caerffili.
Mi fasai	hi'n mwynhau siopa yn Rhuthun. Mae 'na siopau bach da yno.

Uned 23 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Mynd allan am fwyd

Uned adolygu yw hon ac mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i adolygu patrymau iaith sydd wedi cael sylw dros yr unedau blaenorol ac yn ail-ymweld â rhai o'r eitemau geirfa ac idiomau a gododd yn yr unedau hynny. Bydd unedau adolygu'r cwrs yn cynnwys cyfle hefyd i aelodau'r dosbarth ddefnyddio'u Cymraeg wrth gyflawni rhywbeth ymarferol. Y dasg ymarferol yn yr uned hon yw trefnu mynd allan am fwyd. Wedi cwblhau gweithgareddau sy'n seiliedig ar destunau yn trafod bwyty, anogir y dosbarth i fynd ati go iawn i drefnu mynd allan am fwyd gyda'i gilydd.

Cam 1

Aralleirio brawddegau

Mae pob un o'r ymadroddion sydd i'w gosod yn y bylchau yn yr ymarfer hwn wedi ymddangos yn un o unedau blaenorol y cwrs. Dywedwch hynny wrth y dysgwyr cyn darllen trwy'r ymadroddion a gofyn i barau drafod pa ymadrodd sy'n perthyn i ba frawddeg. Peidiwch â chynnig cyfieithiad neu ddiffiniad o unrhyw ymadrodd wrth eu cyflwyno gan mai eu sbarduno i gofio neu i ddod i gasgliad ynglŷn â'r ystyr yw pwrpas yr ymarfer (mae croeso, wrth gwrs, i chi esbonio'r termau 'aralleirio' a/neu 'ymadroddion'). Os ydych yn meddwl bod angen, gallech fynd dros y frawddeg gyntaf fel enghraifft cyn rhoi'r parau ar waith i drafod yr atebion a gallwch roi cymorth ac arweiniad i unrhyw bâr sy'n cael anhawster wrth fynd trwy'r ymarfer. Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r ymarfer, ewch dros y brawddegau gyda'r dosbarth cyfan, gan wahodd atebion gan wahanol barau wrth fynd trwyddynt. Holwch a ydy'r dysgwyr yn cofio ble mae'r ymadroddion wedi codi yn y cwrs cyn hyn.

Dyma'r atebion cywir:

1. Dw i ddim yn hoffi'r X Factor a'r math yna o beth ar y teledu.
2. Dewisiodd/Mi ddewisodd hi'r pryd llysieuol yn hytrach na'r cig oen.
3. Mae'r darten afal yn hyfryd iawn ac mae'r pwdin taffi lawn cystal.
4. Mae prisiau tai yn yr ardal wedi dyblu dros y deg mlynedd ddiwethaf.
5. Mae gan y rheolwr feddwl mawr o'r chwaraewr ifanc, Sam Pascales.
6. Mae Siân yn gweithio ar ei liwt ei hun.
7. Mae beiciau modur wedi gadael eu hôl ar y llwybr.
8. Wrth reswm, mae'r ysgyfarnog yn gallu/medru rhedeg yn gyflymach na'r crwban.
9. Wnaiff/Wneith perchennog y Ford Fiesta coch sydd wedi'i barcio o flaen y drws ei symud nawr os gwelwch yn dda?
10. Safodd/Mi safodd pob aelod o'r tîm ochr yn ochr i wynebu'r *Haka* cyn y gic gyntaf.

Cam 2

Ymarfer (Dril disodli gyda brawddegau cymalog)

I ddechrau, gofynnwch i barau ddarllen trwy'r brawddegau sydd yn y llyfr cwrs – un partner i ddarllen brawddeg ar y chwith a'r llall i ddarllen yr ymateb ar y dde. Gofynnwch iddynt ailadrodd hyn sawl gwaith, nes eu bod yn gallu cofio'r ymatebion heb eu darllen (gallant orchuddio'r brawddegau ar y dde, neu gallwch chi roi'r brawddegau sydd ar y chwith ar sgrîn/bwrdd gwyn). Pan fyddant yn gallu ailadrodd y brawddegau'n weddol ddi-drafferth, gofynnwch i un partner ddisodli'r rhagenwau (sydd wedi'u tanlinellu) yn y brawddegau ar y chwith a'r partner arall i wneud yr addasiad cyfatebol i'r ymatebion ar y dde. Gofynnwch iddynt fynd trwy'r brawddegau sawl gwaith eto, gan ddefnyddio nifer o ragenwau gwahanol.

Cam 3

Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gweithgaredd Storum Eirfa. Rhowch un o'r geiriau ar gerdyn i bob aelod o'r dosbarth. Rhaid ffurfio cwestiwn yn cynnwys y gair hwnnw a cherdded o gwmpas yn gofyn y cwestiwn i bawb.

Cam 4



Darn darllen – The Clink

- i) Trafod ffrwythau - Sicrhewch fod pawb yn gwybod beth ydy'r pedwar ffrwyth a enwir (dylai *mango* a *riwbob* fod yn ddigon amlwg cyn belled â'u bod yn gyfarwydd â'r ffrwythau hynny, ond efallai y bydd angen trafod/ esbonio *llugaeron ac eirin* (gallech esbonio bod y gair *plwms* hefyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y de). Yna trafodwch gyda'r dosbarth cyfan pa ffrwythau maen nhw'n eu bwyta – gallwch ofyn i bawb beth yw eu hoff ffrwyth a chael eu hymateb i ddewisiadau ei gilydd. Mae modd eu hannog i gymharu e.e. *mae mefus yn fwy melys na riwbob neu mae'n well 'da fi/gen i afalau nac eirin*.
- ii) Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Wedi i bawb gael cyfle i ddarllen y darn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 neu 4 a gofynnwch iddynt gwblhau'r ymarfer paru geiriau a thrafod pa rai o'r bwydydd yn yr ymarfer hwnnw y maent yn eu bwyta'n aml.

Dyma'r atebion disgwylidig:

pwdin reis
 brechwast llawn
 tarten riwbob
 sudd oren
 cregyn gleision
 wy wedi'i ferwi
 tatws rhost
 brechdan gaws

- iii) Ewch dros y cwestiynau trafod cyn gosod y dysgwyr mewn grwpiau bach i drafod. Gwrandewch am gyfraniadau diddorol i'r trafodaethau ac wedi i'r grwpiau orffen trafod, tynnwch sylw'r dosbarth cyfan at y rheiny, gan ymestyn y drafodaeth os oes diddordeb pellach.

Cam 5



Gwyllo a Gwranddo

Mae'r darn fideo yn seiliedig ar yr un ymweliad ag erthygl Lowri Cooke, uchod, felly bydd rhywfaint o'r cynnwys a'r eirfa yn gyfarwydd cyn gwyllo'r darn.

Ewch dros yr eirfa a restrir yng nghwestiwn i) i ddechrau, gan sicrhau bod pawb yn eu deall. Yna, gofynnwch iddynt wrando am y geiriau hynny a rhoi cylch o'u hamgylch pan fyddan nhw'n eu clywed. Dangoswch y fideo a gofyn ar y diwedd a wnaeth pawb glywed pob un o'r geiriau. Dywedwch y bydd cyfle i wrando eto os nad ydynt wedi cael pob un.

Nesaf, rhannwch y dosbarth yn barau a gofyn iddynt edrych ar gwestiynau ii), iii) a iv) gyda'i gilydd. Gwiriwch fod pawb yn deall y cwestiynau cyn dangos y fideo eto a rhoi cyfle iddynt drafod a nodi eu hatebion. Gofynnwch iddynt edrych ar gwestiynau v) a vi) a rhoi cynnig arnynt os gallant, yna dangoswch y fideo unwaith eto cyn mynd dros yr atebion. Gallai'r cwestiwn ynglŷn â phrif gwrs Llinos esgor ar dipyn o drafod.

Cam 6

Deialog

Gofynnwch i barau ymarfer y ddeialog a cheisio cofio cymaint o'r sgript ag y gallant. Ar ôl iddynt ymarfer tipyn, grwpwch nhw fesul dau bâr a gofyn i un pâr fynd trwy'r ddeialog heb sgript tra bydd y pâr arall yn eu hatgoffa yn ôl yr angen. Wedyn, os bydd perfformwyr da neu hyderus yn y dosbarth, gallwch eu gwahodd i lwyfannu cyflwyniad o'r ddeialog o flaen y dosbarth.

Cam 7

Trefnu mynd allan am bryd o fwyd

Arweiniwch drafodaeth gyda'r dosbarth cyfan er mwyn trefnu mynd allan go iawn am bryd o fwyd. Mae canllaw ynghylch y materion sydd angen eu trafod yn yr uned. Penderfynwch chi ac aelodau'ch dosbarth ble dych chi am fynd a phryd. Efallai y bydd angen cytuno ar fwy nag un opsiwn a chysylltu â'r lleoliad(au) er mwyn cadarnhau. Cytunwch pwy sy'n cysylltu gyda'r opsiwn cyntaf a pha drefn i'w dilyn os bydd rhaid symud ymlaen i ail opsiwn ac yn y blaen.

Bydd angen i chi gadarnhau pa weithdrefnau bydd rhaid i chi eu dilyn gyda threfnydd y Darparwr sy'n gyfrifol am gynnal eich dosbarth. Pob hwyl gyda'r trefniadau a'r teithio!

Uned 24 – Canllawiau i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu Byth ac Erioed

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau neu barau (beth bynnag fyddai'n gweithio orau yn eich dosbarth chi). Rhowch gopi o Atodiad 1 iddynt, a gofynnwch iddynt ofyn y cwestiynau i'w gilydd. Dylai'r cwestiynau arwain at ddigon o sgwrsio rhydd am brofiadau personol.

Cam 2

Ymarfer hwn, hon, hyn, rhain, hwanna, honna, hynny, rheina.

- i) Ewch â chasgliad o wrthrychau i'r dosbarth – gwrywaidd unigol, benywaidd unigol a lluosog. Gofynnwch i'r dosbarth eu trefnu'n categorïau (fel uchod). Ar ôl sicrhau bod popeth yn y categori iawn, codwch un gwrthrych gwrywaidd a dweud, e.e. 'Car yw/ydy hwn'. Mae'r dysgwyr wedyn yn codi gwrthrych yn eu tro i greu brawddeg. Gwnewch yr un peth gyda'r gwrthrychau benywaidd a lluosog (Mae modd defnyddio lluniau).
- ii. Ceir cyfres o ddriliau/ymarferion yn y cwrslyfr. Ceir isod ddril ychwanegol i'w wneud cyn hyn a hynny:

Mae'r car yma'n neis.

Ydy, mae hwn yn gar neis.

Mae'r ffilm yma'n dreisgar.

Mae'r gadair yma'n gyfforddus.

Mae'r plant hyn yn swnllyd.

Mae'r cyfrifiadur yma'n araf.

Mae'r cwrw yma'n gryf.

Mae'r cwrs yma'n ddud.

Mae'r coed hyn yn hardd.

Mae'r nofel hon yn wych.

- iii. Ewch dros yr Help Llaw sy'n esbonio this/these.
- iv. Cyn gwneud y dril a'r ymarfer ysgrifenedig yn y llyfr, defnyddiwch gasgliad o wrthrychau eto er mwyn modelu a drilio, e.e. codi llyfr Cymraeg a dweud 'Mae hwn yn llyfr Cymraeg' gan bwyntio a dweud 'Mae hwnna'n llyfr Saesneg'. Dylai fod digon o wrthrychau er mwyn i bawb allu creu dwy frawddeg. Modelwch enwau gwrywaidd yn gyntaf, yna enwau benywaidd ac yna enwau lluosog. Gwnewch yr ymarfer sydd yn y llyfr. Os am gael rhagor o ymarfer, gellir ail-wneud y gweithgaredd gan ymarfer 'gwael' a 'cynddrwg', e.e.

Mae hi'n nofel wael.

Dim cynddrwg â honna.

- v. Ewch dros yr Help Llaw sy'n esbonio that/those.
- vi. Rhannwch y dosbarth yn barau i droi'r paragraff yn fwy ffurfiol.

Cam 3

Cyfathrebu – Storom Syniadau

Rhannwch y dosbarth yn barau am ychydig funudau i nodi gwahanol ddulliau o gyfathrebu. Gofynnwch i bawb adrodd yn ôl a rhowch ddiagram ar y bwrdd gwyn.

Cam 4 - Gwyllo a Gwranddo



Bydd y dysgwyr yn gwyllo Mali Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r Urdd, yn disgrifio ap Eisteddfod yr Urdd.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a Gwranddo. Wrth wrando y tro cyntaf, gofynnwch iddynt gylchu'r eirfa wrth iddynt glywed y geiriau. Yna, gofynnwch iddynt benderfynu a yw'r osodiadau'n wir neu'n gau. Dyma'r atebion:

Bydd rhaglenni'n dangos holl gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd ar BBC2.	Anghywir (S4C)
Mae'r ap yn un newydd sbon.	Anghywir (wedi'i ddiweddarau)
Mae'n bosib gweld fideos o'r cystadlaethau o'r ap.	Cywir
Mae hi'n bosib creu amserlen bersonol.	Cywir
Mae'r bobl ifainc yn gallu gweld pwy fydd yn cystadlu yn eu herbyn.	Cywir
Mae'r ap yn ddefnyddiol i wybod pa mor dwym fydd hi.	Cywir
Dyw pobl ddim yn hoffi'r ap.	Anghywir (canmol mawr)

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau sydd yn y llyfr, ynghyd ag unrhyw bynciau eraill sy'n codi yn sgil y fideo.

Cam 5



Darllen a deall

Mae'r darn darllen yn trafod thema a allai fod o ddiddordeb mawr i'r dosbarth, sef anawsterau pobl hŷn wrth i ragor o wasanaethau a busnesau droi at ddulliau digidol o gyfathrebu'n unig.

Efallai y bydd angen atgoffa'r dysgwyr fod *hŷn* yn golygu yr un peth â *henach*, ond taw pobl hŷn yw'r term. Dylid pwysleisio hefyd fod yr acen grom yn hollbwysig, i osgoi drysu â'r gair *hyn*.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen a deall.

Y dasg gyntaf yw dod o hyd i gyfieithiadau Cymraeg o'r ymadroddion Saesneg a nodir yn y darn. Wedi hynny, gofynnir i'r dysgwyr weithio mewn parau i feddwl am dair mantais a thair anfantais o ran defnyddio gwasanaethau ar-lein.

Wedi hynny, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiwn a nodir yn y darn: Dych chi'n defnyddio technoleg ddigidol yn eich bywyd pob dydd, neu dych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich gadael ar ôl?

Gallai hon fod yn drafodaeth ddiddorol, yn enwedig os oes amrediad oedran eang yn y dosbarth. Efallai y bydd dysgwyr iau yn teimlo'n rhwystredig oherwydd eu bod yn gorfod delio â phobl hŷn sy'n methu â defnyddio gwasanaethau digidol.

Cam 6

Sgwrsio

Yn Atodiad 3, ceir cwestiynau i sbarduno sgwrs am thema Cyfathrebu. Gall y dysgwyr weithio mewn grwpiau neu barau i ofyn y cwestiynau hyn i'w gilydd.

Atodiad 1



Byth / Erioed

- Oes/Oes 'na unrhyw un erioed wedi trefnu parti syrpreis ar eich cyfer chi?
- Dych/Dach chi erioed wedi bod ar y teledu?
- Dych/Dach chi erioed wedi bod ar gefn beic modur?
- Dych/Dach chi erioed wedi dechrau siarad â/efo rhywun, a sylweddoli taw/mai rhywun arall oedd e/o / hi?
- Dych/Dach chi erioed wedi chwarae offeryn mewn cyngerdd?
- Pa un yw'r/Pa un ydy'r ffilm orau erioed, yn eich barn chi?
- Pa un yw'r/Pa un ydy'r rhaglen deledu orau erioed?

marchogaeth	sgïo	syrffio	mynd mewn balwn awyr boeth
dringo creigiau	triathlon	gyrru lori	canu karaoke
nofio yn y môr yn y gaeaf	bwyta coesau broga		

Pa rai o'r rhain fasech chi BYTH yn eu gwneud?

Atodiad 2 (De Cymru)



Cwestiynau: Thema Cyfathrebu

- Beth sy'n ei gwneud hi'n hawdd siarad â rhywun?
- Sut dych chi'n cyfathrebu amla – wyneb yn wyneb, ffôn, neges destun, neges ebost neu lythyr?
- Dych chi erioed wedi cael sgwrs ddiddorol gyda dieithryn?
- Pwy sy'n cyfathrebu orau – dynion neu fenywod?
- Dych chi'n hoffi dadlau?
- Dych chi'n mwynhau siarad ar y ffôn? Pam?
- Oes rhai sgysiau'n haws eu cael ar y ffôn nag wyneb yn wyneb?
- Tasech chi'n gallu sgwrsio gyda pherson enwog (byw neu farw), pwy fasai e / hi?
- Dych chi'n hoffi gwrando ar sgysiau pobl eraill?

Atodiad 2 (Gogledd Cymru)



Cwestiynau: Thema Cyfathrebu

- Be sy'n ei gwneud hi'n hawdd siarad efo rhywun?
- Sut dach chi'n cyfathrebu amla - wyneb yn wyneb, ffôn, neges destun, neges ebost neu lythyr?
- Dach chi erioed wedi cael sgwrs ddiddorol efo dieithryn?
- Pwy sy'n cyfathrebu orau - dynion neu ferched?
- Dach chi'n hoffi dadlau?
- Dach chi'n mwynhau siarad ar y ffôn? Pam?
- Oes 'na rai sgysiau'n haws eu cael ar y ffôn nag wyneb yn wyneb?
- Tasech chi'n medru sgwrsio efo person arall (byw neu farw), pwy fasai fo/hi?
- Dach chi'n hoffi gwrando ar sgysiau pobl eraill?

Uned 25 – Canllawiau i'r Tiwtor

Cam 1

Adolygu hwn, hon a hyn

Kahoot:

Ailadroddir gweithgaredd Kahoot. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o 2-5 dysgwr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen). Os gwnaethoch y gweithgaredd yn Uned 18, byddwch chi eisoes wedi sefydlu Kahoot. Os na, dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i <https://kahoot.com/> a gwasgu'r ddolen 'Sign up' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('sign in') unrhyw bryd.

Mae'r gêm ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://create.kahoot.it/#quiz/753f739f-90c8-4fbf-b676-e42fb988b5a3>

Cyfres o ddeg cwestiwn sydd yma gydag atebion aml-ddewis. Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu 'Play', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sydd yn gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gêm, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y cwestiynau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu ar un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar ddiwedd y 10 cwestiwn, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coronu'n bencampwyr!

Y ffordd orau i chi ddod i ddeall sut bydd y gêm yn gweithio ydy trwy roi cynnig arni eich hunan ymlaen llaw gyda chyfrifiadur a dyfais symudol! Mae canllaw Kahoot ar sut i chwarae yma: <https://kahoot.uservoice.com/knowledgebase/articles/949450-how-to-host-and-play-a-kahoot>

Cam 2

Cyflwyno mewn ac yn

- i) Cyn dechrau'r driliau, rhowch enghreifftiau i esbonio ein bod yn defnyddio 'yn' gyda rhywbeth pendant, a 'mewn' gyda rhywbeth amhendant, e.e.
- | | |
|----------------------------------|--|
| Dw i'n byw mewn pentref | Dw i'n byw yn y pentref |
| Bydda i'n cael cinio mewn caffi | Bydda i'n cael cinio yng Nghaffi Bella |
| Dw i'n gweithio mewn siop lyfrau | Dw i'n gweithio yn siop lyfrau'r brifysgol |
- ii) Gwnewch y driliau hyn i atgyfnerthu dealltwriaeth.
1. Dril i ymarfer 'mewn'

Ydy sbwriel yn broblem yn ninasoedd Cymru?	Mewn rhai dinasoedd fallai/ella
Ydy sbwriel yn broblem yn nhrefi Cymru?	
Ydy sbwriel yn broblem ym mhentrefi Cymru?	
Ydy sbwriel yn broblem yng nghymoedd Cymru?	
 2. Dril ychydig yn fwy heriol achos bod angen meddwl am le lle y gellir gwneud y pethau a enwir.

Ga i barcio fan hyn?	Rhaid i chi barcio mewn maes parcio arall.
Ga i weithio fan hyn?	Rhaid i chi weithio mewn swyddfa arall.
Ga i roi fy sbwriel fan hyn?	
Ga i wylio'r teledu fan hyn?	
Ga i brynu tocyn fan hyn?	
 3. Ydy Bill a Menna yn gweithio yn yr un lle? Nac ydyn – mewn dau le gwahanol.

Ydy Bill a Menna yn teithio yn yr un car?	
Ydy Bill a Menna yn ymarfer yn yr un gampfa?	
Ydy Bill a Menna yn bwyta yn yr un caffi?	
Ydy Bill a Menna yn chwarae yn yr un band?	
Ydy Bill a Menna yn canu yn yr un côr?	
Ydy Bill a Menna yn aros yn yr un gwesty?	
 4. Mae'r dril isod yn y cwrslyfr.

Ydy hi'n gweithio'n galed?	Dyw/Dydy hi ddim yn credu mewn gweithio'n galed.
Ydy hi'n gwneud ymarfer corff?	
Ydy hi'n bwyta'n iach?	

Ydy hi'n helpu pobl eraill?

Ydy hi'n ailgylchu sbwriel?

5. Dril i ymarfer 'yn' (mae hwn yn y cwrslyfr).

Oes diddordeb gyda fe mewn hanes?/Oes gynno fo ddiddordeb mewn hanes?

Oes, mae diddordeb gyda fe yn hanes Cymru./Oes, mae gynno fo ddiddordeb yn hanes Cymru.

Oes diddordeb gyda fe mewn nofelau?/Oes gynno fo ddiddordeb mewn nofelau?

Oes diddordeb gyda fe mewn barddoniaeth?/Oes gynno fo ddiddordeb mewn barddoniaeth?

Oes diddordeb gyda fe mewn ffilmiau?/Oes gynno fo ddiddordeb mewn ffilmiau?

Gellir troi'r dril uchod yn gwestiynau yn yr ail berson i'r dosbarth gael cyfle i holi ei gilydd.

iii) Deialogau

Ceir dwy ddeialog sy'n enghreifftio'r defnydd o 'yn' a 'mewn'. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y deialogau, gan gymryd tro i wneud pob rhan. Yna, tynnwch sylw at y geiriau sydd wedi'u tanlinellu, sef 'yn' a 'mewn', a thrafodwch y defnydd ohonynt.

iv) Help llaw ac ymarferion

Tynnwch sylw'r dysgwyr at yr adran Help llaw, sy'n crynhoi'r holl bwyntiau a drafodwyd. Yna, rhowch amser iddynt i wneud y ddau ymarfer (mewn parau).

Cam 3

Cyflwyno'r thema (Yr Amgylchedd): holiadur

Edrychwch ar yr holiadur yn y cwrslyfr. Yn gyntaf, trafodwch y cwestiynau y bydd angen eu gofyn i lenwi'r holiadur, sef:

Dych/Dach chi'n ailgylchu eich sbwriel?

Dych/Dach chi'n cael cawod yn lle bath i arbed dŵr?

Dych/Dach chi'n diffodd y golau pan dych/dach chi'n gadael y stafell?

Dych/Dach chi'n prynu nwyddau masnach deg?



Yna, gofynnwch i'r dysgwyr godi ar eu traed, a holi'r cwestiynau uchod i bob aelod o'r dosbarth. Rhaid iddynt nodi'r manylion yn yr holiadur.

Wrth gwrs, sbarduno sgwrsio yw nod yr holiadur, felly anogwch y dosbarth i ymhelaethu wrth ateb.

Cam 4

Gwyllo a gwrando: Vox pops ailgylchu (Caerdydd a Rhuthun)

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando. Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau wrth wyllo'r darnau, a gweithio mewn paruau wedyn i lunio crynodeb o sylwadau pobl yn y ddau le. Yna, gadewch iddynt drafod y sylwadau yn y fideo.

Cam 5

Gwaith grŵp: blaenoriaethu.

Yn y cwrslyfr, ceir rhestr o bethau pwysig i'r amgylchedd. I ddechrau, esboniwch yr eirfa sydd wedi'i hamlygu, a sicrhewch fod y dysgwyr yn deall pob eitem ar y rhestr. Yna, gofynnwch iddynt eu blaenoriaethu o ran pwysigrwydd. Dyma'r rhestr:

Paneli solar

Cael eich **amlosgi** yn hytrach na chladdu

Ailddefnyddio amlenni

Defnyddio **cludiant cyhoeddus**

Ailgylchu ffonau symudol

Bancio ar y we

Peidio â phrynu ffrwythau a llysiau mewn pecynnau

Ynysu'r to

Troi'r gwres i lawr

Diffodd y teledu a chyfrifiaduron, yn lle eu rhoi i gysgu

Dylai'r gweithgaredd arwain at sgwrsio rhydd am arferion y dysgwyr, a'u bywydau bob dydd.

Cam 6



Trafod pwnc llosg

Dewch â detholiad o bapurau newydd diweddar (Saesneg) i'r dosbarth. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau, a rhowch bapur newydd i bob pâr. Rhaid iddynt wedyn ddewis stori i'w hesbonio'n Gymraeg i weddill y dosbarth.

Cam 7

Gwyllo a gwrando 2: Her yr Hinsawdd

Bydd y dysgwyr yn gwyllo rhan o'r rhaglen Her yr Hinsawdd, lle mae'r Athro Siwan Davies yn ymweld â Mbale yn Uganda i weld sut mae newid hinsawdd wedi effeithio ar fywydau pobl yno. Mae'r clip yn eithaf hir, ond mae rhannau lle nad oes llawer o siarad felly ni ddylai fod yn rhy heriol.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando.

I ddechrau, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r eirfa wrth iddynt ei chlywed. Yna, gofynnwch iddynt gwblhau'r tasgau. Dyma'r atebion:

1. Beth mae Siwan Davies yn ei ddweud am...
 - y glaw - mae patrwm y glaw wedi newid.
 - y cnydau – mae cnydau'n methu.
 - ail-blannu coed – mae ail-blannu coed yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.
2. Cwblhewch y brawddegau hyn:
 - a) Roedd y plant wedi paratoi cyngerdd i Siwan Davies.
 - b) Mae Siwan Davies yn cael croeso mawr achos ei bod hi'n dod o Gymru.
 - c) Bob tro mae babi yn cael ei eni yng Nghymru mae coeden yn cael ei phlannu yn Mbale.
3. Mae Siwan Davies yn dweud bod pobl Mbale yn 'gweld eisiau'r coed.' Beth mae hynny'n ei olygu? – gallech drafod ystyr yr ymadrodd gyda'r dosbarth a rhoi enghreifftiau gan ei fod yn eithaf anodd ei esbonio.

I gloi'r gweithgaredd, gallech arwain trafodaeth ar unrhyw bwnc sy'n codi yn yr eitem e.e. prosiectau amgylcheddol, gwaith elusennol yn y trydydd byd a chyfrifoldeb y gorllewin i helpu'r gwledydd hyn, ac yn y blaen.

